

# BTEC

## Edexcel BTEC Cenedlaethol Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant

i'w addysgu gyntaf ym mis Medi 2007

Mai 2007

Manyleb

Edexcel BTEC Cenedlaethol Lefel 3 mewn  
Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant



Qualifications and  
Curriculum Authority



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government



*Rewarding Learning*

# Unedau

- Uned 1: Perthnasoedd Cadarnhaol ym maes Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant
- Uned 2: Amgylcheddau Cadarnhaol ym maes Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant
- Uned 3: Hyrwyddo Datblygiad Plant
- Uned 4: Myfyrio ar Arfer ar gyfer Plant 0-8 oed a'i Ddatblygu
- Uned 5: Diogelu Plant
- Uned 6: Hyrwyddo Hawliau Plant
- Uned 7: Gweithgareddau Dysgu Plant a Chwarae
- Uned 8: Methodoleg Ymchwil ym maes Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant
- Uned 9: Hyrwyddo Datblygiad a Bywyd Iach ar gyfer Plant a'u Teuluoedd
- Uned 10: Hyrwyddo Lles a Gwytnwch Plant
- Uned 11: Diet a Maeth Plant
- Uned 12: Gweithgareddau Corfforol i Blant
- Uned 13: Effaith Polisi Cymdeithasol ar Ofal, Dysgu a Datblygiad Plant
- Uned 14: Persbectifau Seicolegol ar Ymddygiad Plant
- Uned 15: Rheoli Amgylchedd Blynyddoedd Cynnar neu Waith Chwarae
- Uned 16: Hyfforddi a Mentora Plant
- Uned 17: Cefnogi Sgiliau Rhifedd Plant
- Uned 18: Cefnogi Sgiliau Llythrennedd Plant
- Uned 19: Cefnogi Sgiliau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Plant
- Uned 20: Dylunio a Thechnoleg ar gyfer yr Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar
- Uned 21: Gwyddoniaeth Gyfunol ar gyfer yr Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar: Prosesau Bywyd a Phethau Byw
- Uned 22: Gwyddoniaeth Gyfunol ar gyfer yr Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar: Deunyddiau a'u Priodweddau
- Uned 23: Gwyddoniaeth Gyfunol ar gyfer yr Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar: Prosesau Corfforol
- Uned 24: Astudiaethau Amgylcheddol ar gyfer yr Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar
- Uned 25: Credoau Modern a Chrefyddau ar gyfer yr Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar
- Uned 26: Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ar gyfer yr Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar
- Uned 27: Bodloni'r Gofynion Ychwanegol ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant
- Uned 28: Defnyddio Sgiliau Cyfathrebu Arbenigol mewn Lleoliadau i Blant
- Uned 29: Anawsterau Dysgu Penodol: Dyslecsia a Dyspracsia
- Uned 30: Therapiau Cyflenwol i Blant
- Uned 31: Cyflwyniad i Waith Chwarae
- Uned 32: Yr Amgylchedd Gwaith Chwarae
- Uned 33: Chwarae Hunan-gyfeiriol
- Uned 34: Dulliau Ewropeaidd o Ymdrin â Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant

Uned 35: Datblygiad a Gofal Babanod a Phlant o dan Dair Oed

Uned 36: Dysgu Annibynnol ym maes Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant

Uned 37: Llythrennedd Academaidd yn y Sector Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant

Uned 38: Myfyrio ar Arfer yn y Sector Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Dyfarniad Cenedlaethol yn unig)





# Uned 1: Perthnasoedd Cadarnhaol ym maes Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant

FfCC Lefel 3 : BTEC Cenedlaethol

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

---

## Crynodeb o'r uned

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd datblygu a hybu perthnasoedd cadarnhaol gyda phlant, cyfathrebu gyda phlant ac oedolion, a meithrin perthnasoedd cadarnhaol rhwng plant ac oedolion eraill. Bydd cyfleoedd i'r dysgwyr ddatblygu sgiliau a strategaethau er mwyn cyfathrebu'n effeithiol gyda phlant ac oedolion mewn amgylcheddau gofal, dysgu a datblygiad plant.

Mae'r uned yn annog dysgwyr i edrych ar sut mae plant yn datblygu perthynas gyda'u cyfoedion, yn ogystal â chydag oedolion eraill, ac i nodi strategaethau ac arferion sy'n cefnogi plant wrth iddynt ddatblygu'r perthnasoedd hyn. Mae hefyd yn gofyn bod y dysgwyr yn adnabod ac yn deall y sgiliau a'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i gyfathrebu'n effeithiol gydag oedolion eraill mewn lleoliadau gofal, dysgu a datblygiad plant, gan gynnwys ymwybyddiaeth o faterion megis gwerthoedd personol a phroffesiynol a chyfrinachedd.

Bwriedir i'r uned gyfrannu at yr wybodaeth sylfaenol sy'n ofynnol ar gyfer pedair elfen *Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant 301: Datblygu a hybu perthnasoedd cadarnhaol yn y Safonau Cenedlaethol Galwedigaethol* ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant.

## Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Fedru datblygu perthynas gyda phlant
- 2 Gallu cyfathrebu gyda phlant
- 3 Gallu cefnogi plant mewn perthnasoedd sy'n datblygu
- 4 Gallu cyfathrebu gydag oedolion.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Medru datblygu perthynas gyda phlant

*Datblygu perthnasoedd:* addasu ymddygiad mewn ymateb i oedran, anghenion a galluoedd plant unigol; helpu plant i deimlo eu bod yn cael croeso a'u bod yn bwysig; trafod gyda'r plant mewn ymateb i'w hanghenion a'u dewisiadau; cynnwys y plant yn y penderfyniadau a wneir fel sy'n briodol; sicrhau bod eu hymddygiad bob amser yn briodol; rhoi sylw i blant unigol a grwpiau, fel sy'n briodol o dan yr amgylchiadau

*Cymhwyso gwerthoedd y sector yn eu perthynas â phlant:* cymhwyso arfer cynhwysol a gwrth-wahaniaethol; parchu gwybodaeth gyfrinachol am y plant cyhyd ag nad yw hynny'n effeithio ar eu lles; cynnal lles plant; dangos eu bod yn gosod gwerth ar yr hyn mae plant yn ei ddweud a'i deimlo trwy wrando ac ymateb yn briodol; hybu hunan-barch plant

### 2 Gallu cyfathrebu gyda phlant

*Sgiliau personol:* sgiliau ac ymddygiad di-eiriau, ffurf a goslef mynegiant, distawrwydd, cyswllt llygad, mynegiant yr wyneb, symudiad y corff, osgo, ystumiau, tyndra'r cyhyrau, cyffyrddiad, agosrwydd a chyfeiriad; pwysigrwydd cyswllt a gwahaniaethau diwylliannol wrth ddehongli cyfathrebu di-eiriau

*Sgiliau geiriol:* ffurf a goslef mynegiant, sgiliau holi, egluro a chadarnhau, annog plant i ofyn cwestiynau a chynnig syniadau ac awgrymiadau, myfyrio, gwrando

*Adnabod anawsterau cyfathrebu:* adnabod anawsterau, addasu cyfathrebu, bod yn ymwybodol o rwystrau i ddehongli mynegiant, gwahaniaethau ieithyddol yn cynnwys ieithoedd arwyddion, anawsterau synhwyrdd, trallod emosiynol; rhwystrau yn yr amgylchedd; rhwystrau i ddealltwriaeth; rhagdybiaethau, gwahaniaethau diwylliannol, systemau cred, stereoteipiau

*Ymateb i anawsterau cyfathrebu:* gwirio dealltwriaeth, cymhorthion cyfathrebu, addasu'r amgylchedd, defnyddio cyfathrebwyr dawnus, defnyddio iaith syml a llefaru clir

### 3 Gallu cefnogi plant mewn perthnasoedd sy'n datblygu

*Anogaeth:* datblygu cytundebau ynghylch ymddygiad yn unol â gofynion y lleoliad, cefnogi plant i ddeall teimladau pobl eraill, annog a chefnogi plant i ddatrys gwrthdaro drostynt eu hunain yn ôl eu hoedran, eu hanghenion a'u galluoedd, annog a chefnogi oedolion eraill yn y lleoliad i greu perthynas gadarnhaol gyda'r plant

*Unigolion trallodus:* adnabod trallod mewn unigolion, ee encilio, dicter ac ymosodedd, cefnogi plant sydd wedi'u cynhyrcu ac wedi'u cynhyrfu gan eraill, adnabod bygythiadau i hunan-barch

#### 4 Gallu cyfathrebu gydag oedolion

*Dangos parch:* bod yn gwrtais ac yn foesgar, parchu unigolyddiaeth oedolion eraill, eu hanghenion a'u dewisiadau

*Ymateb i oedolion:* gwrando'n weithredol, egluro, cadarnhau, ymateb yn briodol i gwestiynau a cheisiadau

*Adnabod anawsterau cyfathrebu:* addasu cyfathrebu yn ôl y galw

*Rheoli anghytundeb:* ymdrin â gwrthdaro ac anghytundeb mewn modd adeiladol, gan ddangos parch at farn pobl eraill



## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio'r lefel cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
LL1 defnyddio enghreifftiau o'r lleoliad i ddisgrifio sut gellir datblygu perthynas gyda phlant		
LL2 defnyddio enghreifftiau o'r lleoliad i ddisgrifio sut mae cyfathrebu gyda phlant	T1 egluro pam mae sgiliau cyfathrebu'n bwysig wrth ddatblygu perthnasoedd gyda phlant mewn lleoliadau	Rh1 gwerthuso'u sgiliau cyfathrebu eu hunain o ran datblygu perthynas gyda phlant mewn lleoliadau
LL3 defnyddio enghreifftiau o'r lleoliad i ddisgrifio sut gellir cefnogi plant wrth iddynt ddatblygu perthynas	T2 egluro'r dulliau a ddefnyddir i gefnogi plant wrth iddynt ddatblygu perthynas	
LL4 defnyddio enghreifftiau o'r lleoliad i ddisgrifio sut mae cyfathrebu gydag oedolion.	T3 egluro pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol gydag oedolion yn y sector gofal, dysgu a datblygiad plant.	Rh2 gwerthuso'u sgiliau cyfathrebu eu hunain o ran datblygu perthynas gydag oedolion mewn lleoliadau.

## Uned 2: Amgylcheddau Cadarnhaol ym maes Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant

FfCC Lefel 3 : BTEC Cenedlaethol

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

---

### Crynodeb o'r uned

Nod yr uned hon yw datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau y mae eu hangen ar y dysgwyr i fedru sefydlu a chynnal amgylchedd iach a diogel ar gyfer plant. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr yn dod i ddeall deddfwriaeth, polisiau a gweithdrefnau mewn lleoliad gofal plant.

Mae'r uned hefyd yn cynnwys dysgu am y gweithdrefnau cywir ar gyfer delio gyda damweiniau, anafiadau, salwch ac argyfyngau eraill, a sut dylid goruchwyllo'r gweithdrefnau hyn.

Mae gofalu am fabanod a phlant ifanc yn rhan hanfodol o waith blynyddoedd cynnar, ac mae'r uned hefyd yn darparu gwybodaeth, dealltwriaeth a chyfleoedd i ddatblygu'r sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithwyr blynyddoedd cynnar ym mhob agwedd ar y gofal hwn.

Bwriedir i'r uned gyfrannu at yr wybodaeth sylfaenol sy'n ofynnol ar gyfer tair elfen *Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant 302: Datblygu a chynnal amgylchedd iach a diogel ar gyfer plant* yn y Safonau Cenedlaethol Galwedigaethol ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant.

### Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Wybod sut mae sefydlu a chynnal amgylchedd iach a diogel ar gyfer plant
- 2 Gwybod sut mae goruchwyllo gweithdrefnau damweiniau, anafiadau, salwch ac argyfyngau eraill
- 3 Deall sut mae gofalu am fabanod a phlant 0-8 oed
- 4 Gallu arddangos datblygiad y sgiliau angenrheidiol i ofalu am fabanod a phlant 0-8 oed.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Gwybod sut mae sefydlu a chynnal amgylchedd iach a diogel ar gyfer plant

*Gwybodaeth:* ddiweddar, gywir; ynghylch gofynion iechyd, diogelwch a diogeledd y lleoliad; deddfwriaeth a chanllawiau; polisiau'r lleoliad, ee o ran trafod a gwaredu hylif a gwastraff o'r corff, gweinyddu moddion, cymarebau oedolion/plant, rheoli mynediad, drysau wedi'u cloi, ymwelwyr, polisiau casglu plant; trefniadau statudol a rheoliadol ynghylch iechyd a diogelwch plant, cydweithwyr, teuluoedd ac ymwelwyr

*Deddfwriaeth a chanllawiau:* mamwlad; adrannau perthnasol o'r canlynol, ee Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, Deddf Diogelwch Bwyd 1990, Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd Cyffredinol) 1995, Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR), Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999, Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) 2002, Deddf Plant 2004, Deddf Gofal Plant 2006

*Risgiau:* ee posibilrwydd anaf a niwed i blant/cydweithwyr/teuluoedd/ymwelwyr, posibilrwydd haint, posibilrwydd perygl

*Asesu risgiau:* defnyddio hyn o dan do/yn yr awyr agored, ac ar wibdeithiau; gwirio holl rannau'r lleoliad, nodi peryglon, asesu'r risgiau yn sgîl pob un o'r peryglon, dileu'r peryglon lle bo hynny'n briodol, sefydlu gweithdrefnau ar gyfer rheoli ar lefel dderbyniol y risgiau yn sgîl peryglon na ellir eu dileu, gan wneud gwelliannau'n unol ag amgylchiadau a gofynion newidiol

*Gweithdrefnau asesu risgiau:* rhannu gwybodaeth; dilyn gweithdrefnau; goruchwyllo plant yn ôl lefelau'r risg ac yn unol â'u hoedran, eu hanghenion a'u galluoedd; asesu iechyd, diogelwch a diogeledd y lleoliad cyn dechrau, yn ystod ac ar ddiwedd gweithgareddau gwaith; diogeledd gweithdrefnau cyrraedd ac ymadael y plant; gwirio diogelwch yr amgylchedd o dan do ac yn yr awyr agored cyn, yn ystod ac ar ôl sesiynau, ee cyfleusterau, cyfarpar, deunyddiau, toiledau/mannau golchi; peryglon posib yn sgîl anifeiliaid yn y lleoliad; cynllunio gwibdeithiau

*Gweithdrefnau ar gyfer rheoli hylendid:* ar gyfer atal a rheoli heintiau; hylendid personol; trafod bwyd; gwaredu gwahanol fathau o wastraff; gweithdrefnau glanhau; ymateb i ollyngiadau; trafod hylifau'r corff; materion ynghylch ymlediad firws HIV/AIDS a hepatitis; gweithdrefnau adrodd a chofnodi

## 2 Gwybod sut mae goruchwyllo gweithdrefnau damweiniau, anafiadau, salwch ac argyfyngau eraill

*Gweithdrefnau:* nodi damweiniau, anafiadau, arwyddion salwch ac argyfyngau eraill yn brydlon; dilyn y gweithdrefnau cywir, a sicrhau bod eraill hefyd yn gwneud hynny er mwyn ymateb i ddamweiniau, anafiadau, arwyddion salwch ac argyfyngau eraill yn dawel ac yn ddiogel; sicrhau nad ydynt hwy eu hunain nac eraill yn cael eu rhoi mewn perygl yn ddiangen; rhoi sicrwydd a chysur i'r rheiny sydd dan sylw; sicrhau bod cymorth cyntaf a meddyginiaeth yn cael eu darparu yn unol â'r gweithdrefnau cywir; dilyn y gweithdrefnau cywir ar gyfer cofnodi ac adrodd am ddamweiniau, anafiadau, arwyddion salwch ac argyfyngau eraill

*Arwyddion a symptomau:* afiechydon ac alergeddau cyffredin plentyndod

*Cymorth cyntaf:* dilyn cymhwyster cydnabyddedig cynnwys priodol blwch cymorth cyntaf

*Gweithdrefnau argyfwng:* y lleoliad; yn cwmpasu - tân, plant sydd ar goll, gwacâu'r adeilad

## 3 Deall sut mae gofalu am fabanod a phlant 0-8 oed

*Trefn ddyddiol ac anghenion gofal babanod a phlant ifanc:* 0-1, 1-3, 3-5, 5-8, o ran gofalu am y croen, y gwallt, y dannedd; ymolchi, newid cewynnau, hyfforddiant toiled; gorffwys, cwsg, chwarae, gweithgareddau corfforol; cynllunio, gweithredu a gwerthuso trefniadau, gan hybu hunandibyniaeth a hyder

*Bwydo:* egwyddorion gofynion maeth/diet iach; arferion cyfredol, bwydo babanod, bwydo o'r fron ac o botel, amllder a symiau, diddyfnu; alergeddau

*Cyfathrebu gyda babanod a phlant:* cyffwrdd, tylino, llefain, siarad, ysgogi, canmol

*Rheoli baban trallodus:* rhesymau pam mae'r baban yn drallodus, ee torri dannedd, colig; adnabod cyflyrau anghyffredin, adrodd am gyflyrau anghyffredin

*Dillad ac esgidiau:* esgidiau/dillad priodol; addasu i'r amodau, ee yr adeg o'r flwyddyn; gofalu am ddillad ac esgidiau

*Gofalu am gyfarpar a theganau:* glanhau; storio diogel

## 4 Gallu arddangos datblygiad y sgiliau angenrheidiol i ofalu am fabanod a phlant 0-8 oed

*Trefniadau gofal:* gofalu am y croen, y gwallt, y dannedd; ymolchi, newid cewynnau, hyfforddiant toiled; gorffwys, cwsg, chwarae, gweithgareddau corfforol; cynllunio, gweithredu a gwerthuso trefniadau, gan hybu hunandibyniaeth a hyder

*Bwydo:* paratoi i fwydo, bwydo o botel, diddyfnu

*Cyfathrebu:* sgiliau rhyngbersonol; dal, cynnal, siarad, sefydlu a chynnal cyswllt llygad, ysgogi, canmol, chwarae, cysuro baban trallodus

*Dillad:* gwisgo, dadwisgo; gofalu am ddillad ac esgidiau

*Gofalu am gyfarpar:* glanhau a storio, ee cyfarpar bwydo, bath, cot/gwely, teganau

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio'r lefel cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
LL1 disgrifio'r deddfwriaeth a'r polisiau sy'n ymwneud â iechyd, diogelwch a diogeledd plant mewn lleoliad gofal	T1 egluro sut mae deddfwriaeth, polisiau a gweithdrefnau ar gyfer asesu risgiau a rheoli hylendid yn sefydlu ac yn cynnal amgylchedd iach a diogel ar gyfer plant	Rh1 gwerthuso sut mae deddfwriaeth, polisiau a gweithdrefnau mewn lleoliad gofal plant yn sefydlu ac yn cynnal amgylchedd iach a diogel ar gyfer plant
LL2 disgrifio'r gweithdrefnau ar gyfer asesu risg a rheoli hylendid mewn lleoliad gofal plant		
LL3 disgrifio'r gweithdrefnau ar gyfer ymateb i ddamweiniau, anafiadau, salwch ac argyfyngau eraill	T2 egluro sut mae sicrhau bod y gweithdrefnau ar gyfer ymateb i ddamweiniau, anafiadau, salwch ac argyfyngau eraill yn cael eu dilyn yn effeithiol	
LL4 dilyn cymhwyster cymorth cyntaf cydnabyddedig		

<b>Meini prawf graddio</b>		
<b>I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:</b>
<p>Ll5 disgrifio sut mae gofalu am fabanod a phlant 0-8 oed</p> <p>Ll6 arddangos y sgiliau angenrheidiol i ofalu am fabanod a phlant 0-8 oed.</p>	<p>T3 egluro sut mae gofalu am fabanod a phlant 0-8 oed a datblygu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer hynny</p>	<p>Rh2 gwerthuso'u sgiliau eu hunain wrth ofalu am fabanod a phlant 0-8 oed.</p>

## Uned 3: Hyrwyddo Datblygiad Plant

FfCC Lefel 3 : BTEC Cenedlaethol

Oriau dysgu dan arweiniad: 120

---

### Crynodeb o'r uned

Nod yr uned hon yw rhoi cyfle i'r dysgwyr ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth manwl o dwf a datblygiad plant o'u geni nes eu bod yn 16 oed. Yn gysylltiedig â'r ddealltwriaeth hon mae arsylwi twf a datblygiad o'r fath, sy'n hwyluso'r gwaith o astudio datblygiad plant er mwyn asesu plant unigol ac felly gynllunio ar gyfer hyrwyddo'u datblygiad.

Mae'r rhan gyntaf o'r uned hon yn edrych ar yr egwyddorion a'r theorïau sy'n sail ar gyfer datblygiad. Darperir trosolwg o genhedlu a datblygiad y ffetws, yn ogystal â ffactorau a all gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ddatblygiad. Bydd y dysgwyr yn edrych ar sut i hyrwyddo datblygiad o fewn yr ystod oed hon, yn ogystal â dod i ddeall yn fanwl ddatblygiad corfforol, emosiynol, cymdeithasol, gwybyddol a ieithyddol plant.

Mae ail ran yr uned yn ymwneud ag arsylwi plant, sy'n elfen sylfaenol o waith yn y sector. Mae angen i'r arsylwi fod mor wrthrychol â phosib, ac felly mae'n bwysig bod darpar weithwyr gofal plant yn datblygu'r sgiliau angenrheidiol i arsylwi'n wrthrychol ac yn effeithiol, gan roi sylw dyledus i foeseg.

Cyflwynir y dysgwyr i nifer o dechnegau arsylwi, a byddant yn dod i ddeall eu defnydd. Byddant yn archwilio ac yn ymarfer gwahanol ddulliau arsylwi sy'n briodol mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion.

Daw'r dysgwyr hefyd yn ymwybodol o'r peryglon wrth arsylwi plant. Byddant yn dysgu bod yn ofalus wrth ddehongli a dod i gasgliadau yn sgîl arsylwi, gan fod gwrthrychedd yn dod o dan ddylanwad canfyddiad yr unigolyn o ganlyniad i agweddau, credoau, gwerthoedd a phrofiad.

Yn olaf, bydd gofyn i'r dysgwyr ddefnyddio sgiliau arsylwi i gynnal astudiaeth arhydol o faban neu blentyn ifanc, gan gyfuno elfennau datblygu ac arsylwi'r uned hon.

Bwriedir i'r uned gyfrannu at yr wybodaeth sylfaenol sy'n ofynnol ar gyfer pedair elfen *Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant 303: Hyrwyddo datblygiad plant* yn y Safonau Cenedlaethol Galwedigaethol ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant.

## Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Ddeall y patrymau datblygiad disgwylidig o 0-16 oed
- 2 Gwybod sut i hyrwyddo datblygiad ar draws gwahanol oedrannau
- 3 Deall gwrthrychedd a moeseg wrth arsylwi plant
- 4 Deall y defnydd o arsylwi
- 5 Medru defnyddio technegau arsylwi i gynnal astudiaeth arhydol o blentyn.



## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall y patrymau datblygiad disgwylidig o 0-16 oed

*Cenhedlu hyd at ddiwedd blwyddyn gyntaf bywyd:* proses cenhedlu a rôl y gametau, cyfraddau a dilyniannau twf yr embryo a'r ffetws

*Ffactorau sy'n dylanwadu ar dwf yr embryo a'r ffetws:* ee alcohol a syndrom alcohol y ffetws, asid ffolig ac anhwylderau'r tiwbiau niwral, smygu, camddefnyddio sylweddau, heintiau, anhwylderau genetig

*Geni:* y broses, rôl hormonau, rôl y fydwraig

*Prif egwyddorion datblygiad plant:* cyfannol a chyd-gysylltiedig, cyfraddau gwahanol, ond yr un dilyniant yn y bôn, o'r pen i'r traed, o'r tu mewn i'r tu allan

*Theoriau:* dadl natur-magwraeth

*Cyfnodau a dilyniannau:* amrediad normal datblygiad, cerrig milltir, canraddau

*Datblygiad corfforol:* sgiliau symud mawr a mân, 0-3 oed, 3-7 oed, 7-12 oed, 12-16 oed

*Datblygiad emosiynol:* ymlyniad, datblygu ymlyniadau lluosog, cysyniad o'r hunan, hunaniaeth bersonol, ee Bowlby, Schaffer, Mead, Cooley, Freud; datblygiad emosiynol plant hŷn; 0-3, 3-7, 7-12, 12-16 oed

*Datblygiad cymdeithasol:* ymddygiad rhag-gymdeithasol, datblygiad moesol, datblygu ymosodedd, rheoli ymddygiad digroeso, ee cyflyru, atgyfnerthu, dysgu cymdeithasol, efelychu, rolau, modelau, grwpiau cyfoedion; datblygiad cymdeithasol plant hŷn; 0-3, 3-7, 7-12, 12-16 oed

*Datblygiad gwybyddol a ieithyddol:* gweledigaeth, astudiaethau o ganfyddiad, clyw, derbyniad, mynegiant, llafar, iaith a meddyliau plant, ee Piaget, Bruner, Chomsky; datblygiad gwybyddol a ieithyddol plant hŷn; 0-3, 3-7, 7-12, 12-16 oed

*Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad:* ee symbyliad, disgwyliadau oedolion, statws iechyd, etifeddiaeth enetig, rhyw, cefndir teuluol, ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, ariannol, economaidd ac amgylcheddol; asiantaethau sy'n gweithio dros blant ifanc a gyda nhw; ffactorau sy'n effeithio ar blant hŷn; 0-3, 3-7, 7-12, 12-16 oed

*Chwarae:* rôl chwarae wrth gefnogi datblygiad plant

### 2 Gwybod sut i hyrwyddo datblygiad ar draws gwahanol oedrannau

#### 0-3 oed

*Yr Amgylchedd:* darparu amgylchedd diogel ac anogol mewn partneriaeth gyda theluoedd; cynhwysol, gwrth-wahaniaethol; cefnogi anghenion corfforol, anghenion cymdeithasol, lles emosiynol a deallusrwydd; perthnasoedd agos a chyson, a'u pwysigrwydd o ran iechyd meddwl; cefnogol i fabanod/blant

*Diwallu anghenion corfforol:* ee diogelwch, maeth/bwyta'n iach, hyfforddiant sensitif ar fynd i'r toiled

*Anogaeth:* dysgu, creadigrwydd, annibyniaeth briodol, mynegi dewisiadau unigol, ymwybyddiaeth ohonynt eu hunain ac eraill; cefnogaeth wrth symud o un sefyllfa i un arall; chwarae gyda babanod a phlant ac ochr yn ochr â nhw; ymatebion realistig, cadarnhaol, cyson a chefnogol i ymddygiad plant; cefnogaeth yn ystod cyfnodau pontio o fewn neu rhwng lleoliadau; sgiliau corfforol, datblygu sgiliau symud mawr a mân

*Cefnogi dysgu:* cefnogi chwarae, archwilio, datrys problemau; dysgu synhwyrdd drwy ddarparu deunyddiau a phrofiadau synhwyrdd priodol; trefn feunyddiol; llythrennedd a chyfrif cynnar

*Cyfathrebu:* defnyddio gwahanol fathau o gyfathrebu geiriol a di-eiriau i ddiwallu holl anghenion plant, ee siarad, gwranddo, cymryd tro, cyswllt llygad, caneuon, rhigymau; cefnogi diddordeb cynnar mewn darllen a gwneud marciau, defnyddio iaith fathemategol; cefnogi plant sydd â mamiaith heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg

### **3-7 oed**

*Yr Amgylchedd:* darparu amgylchedd diogel ac anogol mewn partneriaeth gyda theuluoedd; cynhwysol, gwrth-wahaniaethol; cefnogi anghenion corfforol, anghenion cymdeithasol, lles emosiynol a deallusrwydd; gweithgareddau, deunyddiau a phrofiadau addas at yr oedran i gefnogi dysgu a datblygiad; cefnogol i blant

*Diwallu anghenion corfforol:* annog bwyta'n iach a ffordd iach o fyw

*Anogaeth:* creadigrwydd; chwarae ac archwilio; caniatáu i blant asesu a chymryd risgiau heb eu hamddiffyn yn annigonol nac yn ormodol; bod yn realistig, yn gyson ac yn gefnogol wrth ymateb i ymddygiad plant, gan ddilyn polisiau'r lleoliad; sicrhau bod anghenion yr holl blant yn cael eu diwallu, gan gynnwys y rheiny ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig; annog annibyniaeth ond darparu perthnasoedd agos, cyson a dibynadwy, gan ganiatáu meithrin hunan-barch a gwydnwch; cefnogi plant trwy gyfnodau o newid, ee wrth gychwyn yn yr ysgol; sgiliau corfforol, datblygu sgiliau symud mawr a mân

*Cefnogi dysgu:* cefnogi gweithgareddau chwarae a dysgu; cefnogi ysgrifennu cychwynnol, diddordeb mewn llyfrau a deunydd wedi'i argraffu, defnyddio llyfrau a storïau; defnyddio iaith fathemategol, cyfrif, didoli, paru, defnyddio mathemateg yn yr amgylchedd; datrys problemau

*Cyfathrebu:* defnyddio gwahanol fathau o gyfathrebu geiriol a di-eiriau i ddiwallu holl anghenion plant, ee siarad, gwranddo, cymryd tro, cyswllt llygad, caneuon, rhigymau; bod yn realistig, yn gyson ac yn gefnogol wrth ymateb i ymddygiad plant, gan ddilyn polisiau'r lleoliad, a sicrhau bod anghenion yr holl blant yn cael eu diwallu, gan gynnwys y rheiny sydd ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig; cefnogi plant sydd â mamiaith heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg

**7-12 oed**

*Yr Amgylchedd:* darparu amgylchedd diogel ac anogol; cynhwysol, gwrth-wahaniaethol; darparu cyfleoedd i archwilio a chael profiadau gwahanol, cymryd cam yn ôl, a rhoi cyfle i'r plant asesu, cymryd risgiau ac wynebu heriau drostynt eu hunain, yn unol â'u galluoedd, eu hanghenion a'u cyfnodau datblygiad; cefnogi lles emosiynol a datblygiad deallusrwydd emosiynol; rhoi canmolïaeth ac anogaeth ystyrlon; bod yn glust i wrando yn ôl y galw; cefnogi plant wrth iddynt symud o un lleoliad i un arall

*Diwallu anghenion corfforol:* adnabod a chydabod anghenion penodol plant wrth iddynt aeddfedu a sicrhau bod anghenion yr holl blant yn cael eu diwallu, gan gynnwys y rheiny ag anabledau neu anghenion addysgol arbennig; annog ffyrdd iach o fyw, bwyta'n iach ac ymarfer corff

*Dysgu:* darparu cyfleoedd i archwilio a phrofiadau amrywiol; cefnogi creadigrwydd; cefnogi trafod gwybodaeth, cyfathrebu ysgrifenedig, a diddordeb mathemategol a gwyddonol

*Cyfathrebu:* annog ystod eang o strategaethau cyfathrebu; ateb cwestiynau yn sensitif, gan annog annibyniaeth, ond gyda pharodrwydd i gefnogi; siarad yn onest a chynyddu ymwybyddiaeth o faterion mewn ymateb i gwestiynau plant ynghylch yfed, smygu, defnydd anghyfreithlon o gyffuriau, rhywioldeb a datblygiad rhywiol; cefnogi plant sydd â mamiaith heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg

**12-16 oed**

*Yr Amgylchedd:* darparu amgylchedd anogol, diogel gyda sicrwydd emosiynol, lle cydnabyddir eu bod yn datblygu'n oedolion, a rhoi canmolïaeth ac anogaeth ystyrlon; cynhwysol, gwrth-wahaniaethol; cefnogi lles a deallusrwydd emosiynol; darparu gwybodaeth a chefnogaeth wrth i blant ddewis gyrfa, addysg a hyfforddiant, a darparu cyfleoedd i blant asesu a chymryd risgiau ac wynebu heriau; chefnogaeth yn ystod cyfnodau o newid

*Diwallu anghenion corfforol:* darparu gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw yn unol â chanllawiau cydnabyddedig, darparu gwybodaeth am y materion iechyd a lles sy'n codi yn sgîl smygu, camddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon, arferion rhywiol

*Dysgu:* annog creadigrwydd a datrysiadau creadigol; annog dewisiadau a gwneud penderfyniadau cadarnhaol; cefnogi trafod gwybodaeth ac asesu gwerth gwybodaeth

*Cyfathrebu:* annog ystod eang o strategaethau cyfathrebu; trafod a chyfathrebu gyda phlant, gan osod gwerth ar eu barn a'i hymgorffori; ateb cwestiynau yn sensitif, a bod yn barod i gefnogi

**3 Deall gwrthrychedd a moeseg wrth arsylwi plant**

*Gwrthrychedd/goddrychedd:* diffiniadau ac enghreifftiau, dilysrwydd, dibynadwyedd a gwallau

*Canfyddiad:* triciau canfyddiad - dehongli delweddau gweledol mewn ffyrdd gwahanol, ee yr hen fenyw/y ferch ifanc, y llestr blodau/y ddau wyneb, y triongl sy'n cynnwys Paris yn y gwanwyn

*Agweddau, gwerthoedd a chredoau:* ee Allport

*Gogwydd:* ee dethol plentyn, gweithgaredd, adeg o'r dydd

*Protocolau moesegol:* caniatâd angenrheidiol, ymgynghori, gwybodaeth, cymeradwyaeth, cynhwysiad, trafodaeth, adrodd, awdurdod penodol

*Cyfrinachedd:* diogeledd gwybodaeth, datgelu gwybodaeth

*Hawliau:* hawliau i wrthod, peidio â chyfranogi

*Cyfrifoldeb:* cywirdeb, dilysrwydd, diben

#### 4 Deall y defnydd o arsylwi

*Diben:* asesu, adrodd, cynllunio; gofyniad cyfreithiol; fframwaith ar gyfer arsylwi ac asesu; casglu gwybodaeth am, ee cyfnod datblygiad, cynnydd, agweddau ar iechyd/lles, ymddygiad

*Cynllunio:* caniatâd, paratoi dogfennaeth, penderfyniad ynghylch nod, dull, gweithgaredd

*Cynnal arsylwi:* bod yn anymwthiol, osgoi tynnu sylw cymaint â phosib

*Dulliau o arsylwi:* naratif ysgrifenedig/cofnod ar y pryd, plentyn targed, sampl amser, sampl digwyddiad, rhestr wirio, graffiau a siartiau, arhydol, croestoriadol, system gofnodi strwythuredig

*Arsylwi cyfranogwyr:* diffiniad, defnyddiau

*Grwpiau:* sosiogramau, mapio, nodiadau maes, amserlenni arsylwi, recordiadau sain/fideo

*Cymharu dulliau:* defnyddiau mewn gwahanol sefyllfaoedd, manteision a gwendidau

*Cyfyngiadau'r dulliau:* ee cof, rhestr wirio neu ddull strwythuredig anghyfarwydd

*Cyfyngiadau'r cofnodi:* ee ysgrifennu'n ddigon cyflym, nodiadau annarllenadwy

*Dehongli:* ee dysgu neu gyflawniad arwyddocaol, newidiadau o ran ymddygiad; sail y ddarpariaeth gynllunio

*Asesu:* ffurfiannol, crynodol; cymharu â cherrig milltir, perthynas â theoregwyr datblygiad plentyn, cyflawni amcanion y cwricwlwm, sail ar gyfer cynllunio gweithgareddau/darpariaeth chwarae/dysgu yn y dyfodol, nodi oedi datblygiadol

*Cofnodi/adrodd/rhannu gwybodaeth:* cyfrinachedd; caniatâd; partneriaeth gyda rhieni; rhannu'r canfyddiadau fel sy'n briodol ac yn unol â gweithdrefnau'n lleoliad; cyfeirio pryderon, ee anawsterau penodol, amheuan ynghylch esgeuluso neu gam-drin; tystiolaeth seicolegol neu gyfreithiol

#### 5 Medru defnyddio technegau arsylwi i gynnal astudiaeth arhydol o blentyn

*Astudiaeth arhydol:*

*Baban neu blentyn ifanc:* 0 -3 oed

*Cynllunio:* agweddau ar ddatblygiad, dewis plentyn, casglu'r wybodaeth gychwynnol, nifer yr arsylwadau, dewis technegau priodol

*Ystyriaethau moesegol:* protocolau a ddilynwyd, cyfrinachedd, hawliau, cyfrifoldeb

*Yr ystod o dechnegau arsylwi a ddefnyddiwyd:* cymharu dulliau, cyfyngiadau dulliau a chofnodi

*Ystyriaethau gwrthrychedd:* gogwydd, effeithiau agweddau a chanfyddiadau, dilysrwydd, dibynadwyedd, gwallau

*Cynnal yr astudiaeth arsylwi:* mesuriadau, ee pwysau/taldra ar wahanol adegau, trefniadau gofalu, bwydo, chwarae, teganau, dillad, agweddau corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol, ieithyddol a chyfathrebol ar ddatblygiad

*Defnyddio'r astudiaeth arsylwi:* dehongli arsylwadau, asesu, adrodd, cynllunio

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio'r lefel cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
Ll1 disgrifio'r patrymau datblygiad disgwylidig o 0-16 oed, a'r ffactorau sy'n effeithio ar ddatblygiad	T1 egluro'r patrymau datblygiad disgwylidig o 0-3 oed, a'r ffactorau sy'n effeithio ar ddatblygiad	
Ll2 disgrifio sut gellir hyrwyddo datblygiad ar hyd y cyfnod o 0-16 oed	T2 egluro sut gellir hyrwyddo datblygiad ar hyd y cyfnod o 0-3 oed	
Ll3 egluro pwysigrwydd gwrthrychedd ac ystyried materion moesegol wrth arsylwi plant		
Ll4 egluro'r defnydd o arsylwi plant		
Ll5 disgrifio'u defnydd eu hunain o bedair techneg arsylwi ar gyfer arsylwi plant	T3 dehongli arsylwadau i ddangos sut gellir defnyddio arsylwi ar gyfer asesu, cofnodi a chynllunio	Rh1 dadansoddi arsylwadau i ddangos sut gellir eu defnyddio i hyrwyddo gwahanol agweddau ar ddatblygiad
Ll6 disgrifio'u hastudiaeth arhydol eu hunain o faban neu blentyn ifanc.	T4 dehongli'r astudiaeth arhydol, gan asesu, cofnodi a chynllunio ar gyfer y plentyn.	Rh2 gwerthuso'r technegau arsylwi a ddefnyddiwyd, gan gynnwys y dull arhydol.



## Uned 4: Myfyrio ar Arfer ar gyfer Plant 0-8 oed a'i Ddatblygu

FfCC Lefel 3 : BTEC Cenedlaethol

Oriau dysgu dan arweiniad: 120 plws 800 awr o brofiad gwaith wedi'i asesu

---

### Crynodeb o'r uned

Mae pwysiad dwbl i'r uned hon, gan fod gofyn i'r dysgwyr gyflawni cyfanswm o 800 awr o brofiad gwaith dan oruchwyliaeth. Mae arfer proffesiynol yn gydran hanfodol o'r uned hon, ac o'r rhaglen yn ei chrynswth.

Nod yr uned yw adlewyrchu cymhwysiad ymarferol y rhaglen, a rhoi cyfle i'r dysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn y gweithle, yn ogystal â datblygu, ymarfer ac arddangos y galluoedd ymarferol sy'n ofynnol ar gyfer gweithwyr gofal plant a blynyddoedd cynnar proffesiynol. Mae angen i'r dysgwyr gael profiad o weithio gyda phlant o'u geni nes eu bod yn 8 oed mewn amrywiaeth o leoliadau. Hefyd dylid cynnwys profiad o weithio gyda phlant y gall fod ganddynt ofynion ychwanegol, ac a all fod dros yr oedran cronolegol hwn.

Agwedd ganolog ar yr uned yw myfyrio, ac mae gofyn i'r dysgwyr fyfyrion ar eu perfformiad eu hunain wrth arddangos yr hyn a ddisgwylir gan ofalwr proffesiynol yn y gweithle.

Bwriedir i'r uned gyfrannu at yr wybodaeth sylfaenol sy'n ofynnol ar gyfer pedair elfen *Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant 304: Myfyrio ar a datblygu arfer* y Safonau Cenedlaethol Galwedigaethol ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant.

### Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Ddeall rolau a chyfrifoldebau yn y Sector Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant
- 2 Medru arsylwi a nodi anghenion a sgiliau unigol plant
- 3 Gwybod sut i ymateb i anghenion plant trwy drefniadau gofal a gweithdrefnau
- 4 Gwybod sut i hyrwyddo amgylchedd dysgu sy'n symbylu plant
- 5 Medru myfyrio ar eu harferion eu hunain yn eu profiadau lleoliad gwaith.



## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall rolau a chyfrifoldebau yn y Sector Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant

*Ymddygiad proffesiynol:* presenoldeb, prydlondeb, ymrwymiad, cyflwyniad personol, hylendid personol, safonau ymddygiad disgwylidig, cynnal eu diogelwch eu hunain, rôl a chyfrifoldebau, gallu i addasu ac ymateb; gweithio fel rhan o dîm; arfer integredig

*Cyfrinachedd:* yr angen am bamedrau

*Sgiliau rhyngbersonol priodol:* sgiliau geiriol a di-eiriau, ystod o gysylltiadau, ee plant, teuluoedd, cyfoedion, cydweithwyr, gweithwyr proffesiynol eraill, parch at wybodaeth a chyfraniad eraill

*Sylfaen o wybodaeth:* ynghylch plant, teuluoedd, adnoddau, gweithdrefnau cyfeirio, defnyddio menter

*Codau ymarfer:* pob lleoliad, ee datganiadau cenhadaeth, contractau ymddygiad, polisiâu cyfleoedd cyfartal, polisiâu iechyd a diogelwch

*Glynu at godau ymarfer:* rolau'r dysgwyr a'r staff

### 2 Medru arsylwi a nodi anghenion a sgiliau unigol plant

*Arsylwi a nodi oedrannau/cyfnodau datblygiad plant:* 0-1 oed, 1-3 oed, 3-5 oed, 5-8 oed, cerrig milltir yn eu datblygiad, anghenion a sgiliau emosiynol, corfforol, cymdeithasol, cyfathrebu/ieithyddol, plant ag anghenion penodol

*Lleoliadau gofal plant:* cyn-ysgol a meithrinfeydd, dosbarthiadau meithrin ac ysgolion, cartref y plentyn, gwarchodwyr plant, unedau ar gyfer plant ag anghenion arbennig, unedau pediatrig mewn ysbytai

*Dulliau arsylwi:* gweler *Uned 3: Hyrwyddo Datblygiad Plant*

*Dehongli arsylwadau:* gweler *Uned 3: Hyrwyddo Datblygiad Plant*

### 3 Gwybod sut i ymateb i anghenion plant trwy drefniadau gofal a gweithdrefnau

*Materion iechyd a diogelwch:* goruchwyliaeth, polisiâu, arferion, defnydd diogel o ddeunyddiau a chyfarpar, hylendid

*Trefniadau gofal:* bwydo, golchi, newid, gwisgo, gorffwys a chysgu, mynd i'r toiled, prydau bwyd, glanhau, rôl y gweithiwr blynyddoedd cynnar

#### 4 Gwybod sut i hyrwyddo amgylchedd dysgu sy'n symbylu plant

*Lleoliad:* grwpiau oedran, nodau, strwythur, staffio; arfer integredig

*Darpariaeth:* adnoddau a deunyddiau sydd ar gael, yr amgylchedd ehangach

*Gweithgareddau'r cwricwlwm:* cynllunio, ymgynghori, paratoi, gweithredu, gwerthuso; arfer integredig

*Gweithgareddau chwarae:* ee paentio, dŵr, tywod, cornel cartref, gwaith adeiladu

*Hyrwyddo datblygiad:* cyfathrebu corfforol, cymdeithasol, emosiynol, deallusol

*Cefnogi'r dysgu:* arddangos, profiad uniongyrchol, ymweliadau, chwarae

*Iechyd a diogelwch:* deunyddiau, cyfarpar, offer, niferoedd, hylendid, arwynebau

#### 5 Medru myfyrio ar eu harferion eu hunain yn eu profiadau lleoliad gwaith

*Hunan-arfarnu:* myfyrio, hunanymwybyddiaeth; myfyrio ar eu perfformiad eu hunain, myfyrio ar eu barn a'u hagweddau eu hunain, myfyrio ar eu rhyngweithio gydag eraill; cydnabod eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau eu hunain a'u cyfraniad at waith y tîm; cyflawniadau; effeithiolrwydd personol; cryfderau a gwendidau

*Monitro:* prosesau, arferion, canlyniadau; trwy adolygu gwybodaeth mewn dyddiaduron, adroddiadau lleoliadau a chanlyniadau lleoliadau; trafodaethau gyda thiworiaid, goruchwylwyr, eraill; defnyddio adborth i gyfeirio myfyrio, gwerthuso a pherfformiad

*Cynllunio:* nodi bylchau o ran gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau; cynllunio ar gyfer datblygiad a gwelliant; rôl datblygiad proffesiynol parhaus

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio'r lefel cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:
LL1 disgrifio'u hymlyniad eu hunain wrth y codau ymarfer ar gyfer pob lleoliad	T1 cymharu polisiau ac arferion mewn gwahanol leoliadau	
LL2 arsylwi a nodi anghenion a sgiliau corfforol, cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol a chyfathrebu plant ym mhob ystod oed ac mewn pedwar lleoliad gwahanol	T2 dehongli'r arsylwadau a wnaed yng nghyswllt sgiliau ac anghenion plant	Rh1 defnyddio'r arsylwadau a'r dehongliadau i argymhell camau pellach o ran sgiliau ac anghenion y plentyn/plant dan sylw
LL3 arsylwi a nodi anghenion unigol plant ag anghenion ychwanegol		
LL4 disgrifio pedair trefn wahanol ym mhob lleoliad, gan gynnwys eu rôl bersonol	T3 egluro pwysigrwydd gwahanol drefniadau gofal i'r plentyn/plant, a'r sefydliadau/lleoliadau	
LL5 cynllunio, ymgynghori, paratoi a gweithredu pum gweithgaredd ar gyfer plentyn/grŵp o blant er mwyn hyrwyddo meysydd datblygiad penodol ym mhob lleoliad	T4 dadansoddi pob gweithgaredd ac awgrymu sut gellid ei wella i gynyddu dysgu a dealltwriaeth y plentyn/plant	Rh2 gwerthuso pob gweithgaredd o ran ei effeithiolrwydd wrth hyrwyddo datblygiad plant

<b>Meini prawf graddio</b>		
<b>I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:</b>
<p>LL6 adolygu eu perfformiad eu hunain ym mhob un o'r lleoliadau gwaith a nodi meysydd ar gyfer datblygu eu galluoedd ymhellach</p> <p>LL7 disgrifio rôl datblygiad proffesiynol parhaus o ran gweithwyr yn y sector Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant.</p>	<p>T5 cynhyrchu cynllun datblygiad personol ac egluro sut gallai gefnogi eu datblygiad eu hunain.</p>	<p>Rh2 gwerthuso'u heffeithiolrwydd eu hunain ym mhob lleoliad.</p>

# Uned 5: Diogelu Plant

FfCC Lefel 3 : BTEC Cenedlaethol

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

---

## Crynodeb o'r uned

Mae'r uned hon yn rhoi cyflwyniad i'r materion anodd a sensitif sy'n ymwneud ag amddiffyn plant. Bydd yn rhoi i'r dysgwyr yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i nodi achosion posib o gam-drin plant, ac yn eu galluogi i weithio'n effeithiol oddi mewn i'r fframwaith cyfreithiol a pholisïau'r lleoliad gofal plant mewn ymateb i achosion o'r fath.

Bydd dysgwyr yn dod i ddeall egwyddorion datgelu, a sut mae cefnogi plant a'u teuluoedd lle bydd amheuan ynghylch cam-drin neu lle cadarnheir ei fod yn digwydd. Byddant hefyd yn dysgu am fanteision dull aml-broffesiynol ac aml-asiantaeth o weithio.

Mae'r uned hon yn hanfodol wrth baratoi'r dysgwyr i weithio yn y sector gofal, dysgu a datblygiad plant.

Bwriedir i'r uned gyfrannu at yr wybodaeth sylfaenol sy'n ofynnol ar gyfer *Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant 305: Diogelu a hyrwyddo hawliau plant* o ran y Safonau Cenedlaethol Galwedigaethol ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant. Ei nod yw cwmpasu trydedd elfen yr uned hon, gyda'r ddwy gyntaf yn derbyn sylw yn *Uned 6: Hyrwyddo Hawliau Plant*.

## Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Ddeall arwyddion posib o gam-drin plant
- 2 Deall gofynion deddfwriaeth, rheoliadau a chodau ymarfer ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant
- 3 Deall egwyddorion ymateb i ddatgeliad
- 4 Deall strategaethau ar gyfer cefnogi plant, eu teuluoedd ac oedolion eraill.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall arwyddion posib o gam-drin plant

*Risg camdriniaeth:* ee o fewn y teulu, y tu allan i'r teulu, mewn lleoliad gofal

*Risg ecsbloetio:* ee yn sgîl dulliau gweledol, ysgrifenedig ac electronig o gyfathrebu a chyfryngau

*Gweithrediad y teulu:* ee y mathau o deulu, trefniadau partneriaeth, gwedd newidiol y teulu, anfantais cymdeithasol, gwahanol gysyniadau o ddisgyblu, camdriniaeth mewn teuluoedd, amrywiadau diwylliannol

*Ffactorau rhagdueddol:*

O ran y sawl sy'n cam-drin - ee camddefnyddio sylweddau, diffyg gwybodaeth am anghenion plant, diffyg cwlwm, diffyg modelau rôl, problemau cymdeithasol, salwch meddwl, personoliaeth

O ran y plentyn/person ifanc - ee heb aeddfedu, anabledd

*Mathau o gamdriniaeth/esgeulustod:* camdriniaeth – corfforol, emosiynol, deallusol, rhywiol; esgeulustod – corfforol, emosiynol, deallusol; bwlio ac aflonyddu

*Arwyddion camdriniaeth:* corfforol, ee cleisiau, llosgiadau, anafiadau heb esboniad, dolur, heintiau, o dan bwysau, hylendid personol gwael, methu â ffynnu; ymddygiad, ee encilio, ymosod, trallod, siglo/bwrw pen, newyn, amharodrwydd i fynd adref, diffyg hunan-barch, oedi wrth ddatblygu

*Canlyniadau camdriniaeth:* emosiynol, cymdeithasol, corfforol

*Modelau o gamdriniaeth:* meddygol, cymdeithasegol, seicolegol, ffeministaidd

*Sylweddoli bod camdriniaeth yn digwydd lle na all plant/pobl ifanc gyfathrebu:* babanod a phlant ifanc iawn, plant sy'n cyfathrebu mewn dulliau amgen

### 2 Deall gofynion deddfwriaeth, rheoliadau a chodau ymarfer ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant

*Deddfwriaeth/fframwaith cyfreithiol:* perthnasol i'r famwlad; adrannau perthnasol o'r canlynol, ee Deddf Plant 1989, 2004, Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989, Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Diogelu Data 1998, Fframwaith Asesu Plant mewn Angen a'u Rhieni 2000, Mae Pob Plentyn yn Bwysig 2003/2004, Deddf Gofal Plant 2006, polisiau lleol eraill perthnasol

*Gweithdrefnau:* polisi'r lleoliad; arferion gweithio diogel sy'n amddiffyn y plant a'r oedolion sy'n gweithio gyda nhw; datgelu camarfer lle bo pryderon ynghylch cydweithwyr neu o dan amgylchiadau anodd eraill; pwysigrwydd dilyn gweithdrefnau'r lleoliad heb ddod i benderfyniad yn rhy gynnar, llinellau adrodd o ran camdriniaeth a amheuir neu sy'n digwydd, adrodd cywir, diogeledd cofnodion, y gyfres o ddigwyddiadau sy'n arwain at gofrestru ar y gofrestr amddiffyn plant

*Datgelu:* uniongyrchol; anuniongyrchol

*Rôl y gweithiwr allweddol:* manteision, cefnogi plant a'u teuluoedd

### 3 Deall egwyddorion ymateb i ddatgeliad

*Egwyddorion:* gwrando'n ofalus ac yn sylwgar, cyfathrebu ar gyflymdra'r plentyn ei hun heb roi pwysau diangen arno/arni, cymryd y plentyn o ddifri, sicrhau a chefnogi'r plentyn, hysbysu'r plentyn na all yr wybodaeth barhau'n gyfrinachol, dilyn gweithdrefnau priodol y lleoliad yn brydlon; sut mae delio â'ch teimladau a'ch emosiynau eich hunan

*Cefnogi'r plant sy'n datgelu:* grymuso plant a phobl ifanc; derbyn y plentyn/person ifanc yn ddiamod, ymwybyddiaeth o'r effaith bosib ar y plentyn/person ifanc ac aelodau eraill y teulu, gwrthweithio stereoteipio posib

### 4 Deall strategaethau ar gyfer cefnogi plant, eu teuluoedd ac oedolion eraill

*Arferion gweithio diogel sy'n amddiffyn y plant a'r oedolion sy'n gweithio gyda nhw:* canllawiau'r awdurdod lleol, canllawiau o ran ymddygiad staff, yr heddlu'n sgrinio'r staff; hawliau ymweld/mynediad, diogeledd adeilad a mynediad iddo; polisiau amddiffyn plant; cyfrifoldebau cyfreithiol a sefydliadol o ran cyfrinachedd, terfynau a ffiniau a pham maent yn bwysig; gweithdrefnau a phrotocolau'r lleoliad o ran diogelu ac amddiffyn plant a mynegi pryderon ynghylch lles plant; rhesymau pam a'r amgylchiadau pan na ellir rhannu gwybodaeth ynghylch pryderon gyda'r plant a'r rhieni; rolau a chyfrifoldebau'r rheiny sy'n ymwneud â diogelu plant a hyrwyddo'u lles

*Strategaethau gyda phlant/phobl ifanc:* dull sy'n canolbwyntio ar y person; darparu cefnogaeth weithredol; pwysigrwydd hyrwyddo rhoi grym, pendantrwydd, hunanhyder, hunan-barch a gwytnwch; rhannu gwybodaeth a pheidio â chadw pethau'n gyfrinachol; darparu gwybodaeth i blant yn ôl eu hoedran, eu hanghenion a'u galluoedd, ee sut mae parchu eu cyrff a chadw'n ddiogel, trosglwyddiad clefydau

*Gweithio gyda rhieni a theuluoedd:* partneriaethau gyda rhieni a theuluoedd, cynnwys rhieni wrth asesu anghenion plant, helpu rhieni i sylweddoli gwerth ac arwyddocâd eu cyfraniadau, annog datblygiad sgiliau magu plant, ee perthynas gadarnhaol gyda phlant, datblygu sgiliau gofalu ymarferol, chwarae a symbyliad, hyfforddiant sgiliau magu plant, cefnogaeth ar gyfer rheoli ymddygiad, ystyried amrywiadau diwylliannol a chymdeithasol, addasu wrth i blant ddatblygu; rhwydweithiau cefnogi lleol; strategaethau ar gyfer ymdopi

*Gweithdrefnau lle'r amheuir neu y cadarnheir bod camdriniaeth yn digwydd:* polisiau'r lleoliad; arferion gweithio diogel sy'n amddiffyn y plant/bobl ifanc a'r oedolion sy'n gweithio gyda nhw; datgelu camarfer; llinellau adrodd, adrodd cywir, diogeled cofnodion; y gyfres o ddigwyddiadau sy'n arwain at gofrestru ar y gofrestr amddiffyn plant

*Rolau a chyfrifoldebau:* dilyn polisiau a gweithdrefnau'r lleoliad, arsylwi, cofnodi ac adrodd priodol, adnabod arwyddion a symptomau camdriniaeth, gwybod sut mae ymateb wedi datgeliad, cynnal cyfrinachedd yn unol â pholisiau'r lleoliad

*Ffynonellau gwybodaeth a chefnogaeth:* pwysigrwydd dull aml-asiantaeth o gyflwyno'r agenda integredig, manteision dull aml-broffesiynol, aml-asiantaeth, gwaith partneriaeth, ysgolion estynedig, canolfannau plant, gweithwyr proffesiynol arweiniol; fframwaith asesu cyffredin; gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill; rhannu gwybodaeth, terfynau cyfrinachedd; yr ystod o weithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â hyn, ee yr heddlu, ymwelwyr iechyd, meddygon teulu, athrawon, gweithwyr blynyddoedd cynnar, staff ysbytai, gwasanaethau cymdeithasol, seicolegwyr addysg, gweithwyr cyswllt teuluol, personél crefyddol; rhwydweithiau cefnogi cymunedol, ee rôl a gwasanaethau ystod o asiantaethau lleol/cenedlaethol, gwirfoddol, statudol a phreifat er mwyn cefnogi plant a'u teuluoedd

*Dulliau gofalu amgen:* dros dro/parhaol, maethu, seibiant, mabwysiadu, gofal plant preswyl

*Lleddfu effeithiau camdriniaeth:* annog mynegi teimladau; gwella'r ddelwedd o'r hunan; meithrin hunan-barch a hyder, ee therapi chwarae, cwnsela; rôl sefydliadau gwirfoddol



## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio'r lefel cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
LL1 disgrifio pedwar arwydd corfforol a phedwar arwydd o ran ymddygiad a allai ddangos bod plentyn yn cael ei gam-drin		
LL2 disgrifio pedwar model damcaniaethol o gam-drin plant	T1 cymharu pedwar model damcaniaethol o gam-drin plant	Rh1 gwerthuso pedwar model damcaniaethol o gam-drin plant
LL3 amlinellu'r fframwaith cyfreithiol sy'n ymwneud ag amddiffyn plant		
LL4 disgrifio'r gweithdrefnau adrodd mewn lleoliad gofal plant	T2 egluro'r gweithdrefnau adrodd mewn lleoliadau gofal plant	
LL5 disgrifio egwyddorion ymateb i ddatgeliad		
LL6 disgrifio strategaethau amddiffyn plant sy'n cefnogi plant, eu teuluoedd ac oedolion eraill.	T3 egluro strategaethau amddiffyn plant sy'n cefnogi plant, eu teuluoedd ac oedolion eraill.	Rh2 gwerthuso strategaethau amddiffyn plant sy'n cefnogi plant, eu teuluoedd ac oedolion eraill.

## Uned 6: Hyrwyddo Hawliau Plant

FfCC Lefel 3 : BTEC Cenedlaethol

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

---

### Crynodeb o'r uned

Mae'r uned hon yn cyflwyno i'r dysgwyr gysyniadau amrywiaeth, cydraddoldeb, hawliau'r unigolyn a chynhwysiad, gan gyfeirio'n arbennig at ddarparu gwasanaethau i blant, a hawliau plant.

Mae cymdeithas gyfoes Prydain yn aruthrol o amrywiol o ran diwylliant, cefndir, credoau a gwerthoedd. Gall yr amrywiaeth hwn ychwanegu at gyfoeth cymdeithas, ond gall olygu hefyd fod rhai unigolion o dan anfantais yn gymdeithasol ac yn economaidd, yn ogystal ag o ran mynediad i iechyd, addysg a chyfleoedd gydol oes.

Mae angen i'r rheiny sy'n gweithio gyda phlant fod yn ymwybodol o oblygiadau amrywiaeth a chydabod ei werth. Mae angen hefyd iddynt gydnabod pwysigrwydd cyfle cyfartal, cynhwysiad, a hawliau'r unigolyn.

Bwriedir i'r uned hon gyfrannu at yr wybodaeth sylfaenol sy'n angenrheidiol ar gyfer *Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant 305 Diogelu a hyrwyddo hawliau plant o ran y Safonau Cenedlaethol Galwedigaethol ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant*. Ei nod yw cwmpasu'r ddwy elfen gyntaf yn yr uned hon, gyda'r drydedd elfen yn derbyn sylw yn *Uned 5: Diogelu Plant*.

### Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Ddeall ystyr amrywiaeth yn y gymdeithas gyfoes
- 2 Deall pwysigrwydd cydraddoldeb, cydnabod amrywiaeth a hawliau ym maes gwasanaethau i blant
- 3 Deall ym mha ffyrdd mae gwasanaethau i blant yn cydnabod ac yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau
- 4 Gwybod ym mha ffyrdd gall y gweithiwr unigol hyrwyddo cynhwysiad yn ei arferion gwaith ei hun.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall ystyr amrywiaeth yn y gymdeithas gyfoes

*Amrywiaeth yng nghymdeithas gyfoes Prydain:* ee hil, diwylliant, credoau, gwerthoedd, oedran, statws iechyd, gallu, tarddiad, dosbarth cymdeithasol/haen gymdeithasol, statws economaidd, strwythur teuluol, rhywioldeb, iaith, acenion, codau ymddygiad, teuluoedd sydd â hanes troseddol

*Amrywiaeth economaidd:* dosbarthiad cyfoeth ac incwm; anghydraddoldebau; caledi a meritocratiaeth; cysyniadau tlodi absoliwt a chymharol, a mesur hynny; llinell tlodi; bodolaeth a natur hirhoedlog tlodi; effeithiau tlodi ar blant, teuluoedd a chymdeithas

*Manteision amrywiaeth:* ee cyfoethogi diwylliannol, ymwybyddiaeth fyd-eang, parch a derbyniad, harmoni cymdeithasol

### 2 Deall pwysigrwydd cydraddoldeb, cydnabod amrywiaeth a hawliau ym maes gwasanaethau i blant

*Tegwch:* cysyniad goddefgarwch; cylch anfantais; egwyddorion a gwerthoedd y sector, gan gynnwys sylfaen gwerthoedd gofal

*Anghydraddoldebau:* gwahaniaethu, stereoteipio, labelu, gyrru i'r cyrion, dadrymuso; effeithiau posib ar blant a'u teuluoedd; mewnosod anghydraddoldebau yn y gymdeithas; effeithiau negyddol ar blant sydd/nad ydynt yn profi anghydraddoldeb; effeithiau ar fynediad i wasanaethau a sut mae eu goresgyn;

*Grwpiau agored i newid:* ee lleiafrifoedd diwylliannol, pobl ag anableddau a/neu anghenion addysgol arbennig, pobl o dan anfantais yn economaidd a/neu yn addysgol

*Hawliau dynol:* hawliau moesol; hawliau plant a'u teuluoedd

*Darpariaeth a gwasanaethau:* mynediad cyfartal i ddarpariaeth sy'n gweddu orau i anghenion yr unigolyn, ee ar wahân a/neu ddewis personol integredig; goblygiadau negyddol darpariaeth arwahanol; anawsterau wrth gyrchu darpariaeth a gwasanaethau a sut gellid eu goresgyn; adnoddau cymunedol a chefnogaeth i gynnal mynediad cyfartal; ffynonellau gwybodaeth ar gyfer plant a'u teuluoedd

### 3 Deall ym mha ffyrdd mae gwasanaethau i blant yn cydnabod ac yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau

*Polisiau ffurfiol ar gydraddoldeb a hawliau:* deddfwriaeth sy'n ymdrin â hawliau plant a chyfreithiau sy'n ymdrin â chydraddoldeb a chynhwysiad yn y famwlad, a sut mae'r rhain yn gysylltiedig â lleoliadau plant; polisiau sefydliadol; recriwtio, datblygu a hyfforddi staff

*Deddfwriaeth hawliau dynol:* Deddf Hawliau Dynol 1998 - y prif adrannau a'r goblygiadau i blant; Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989 - goblygiadau o ran gwasanaethau i blant

*Arferion gwaith gwasanaethau i blant:* mynd ati i hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau'r unigolyn; cyfathrebu; datblygu partneriaethau gyda rhieni

*Mynd ati i hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau'r unigolyn:* recriwtio, datblygu a hyfforddi staff; darparu gwybodaeth sy'n hyrwyddo cyfranogiad a mynediad cyfartal; nodi a dileu rhwystrau i gyfranogiad, ee agweddau, iaith, symudedd, gwahaniaethu, diffyg gwybodaeth, ffactorau amgylcheddol; darparu gwybodaeth i blant am eu hawliau a'u cyfrifoldebau yng nghyd-destun y lleoliad; goblygiadau cyfrinachedd; sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni'r canllawiau cyfredol ar weithredu cynhwysiad ac arfer gwrth-wahaniaethol

*Cyfathrebu:* gwybodaeth am wasanaethau a pholisïau; rolau a defnydd eiriolwyr, dehonglwyr, cyfieithwyr; iaith arwyddion, Braille

*Partneriaethau gyda rhieni/gwarcheidwaid cyfreithiol:* perthynas gadarnhaol gyda rhieni/gwarcheidwaid cyfreithiol; trafodaeth a rhannu gwybodaeth; gosod gwerth ar rôl a rhan rhieni; deall patrymau teuluol amrywiol; disgwyliadau diwylliannol

*Hawliau pennaf yr unigolyn:* enghreifftiau o sefyllfaoedd pan allai hyn fod yn angenrheidiol, ee er diogelwch y plentyn; defnyddio pŵer a grym; pwerau statudol, ee Deddf Plant 2004; Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 a 2005, Deddf Iechyd Meddwl 1983, Deddf Gallu Meddyliol 2005, Deddf Gofal Plant 2006, cyfraith gwlad; y fframwaith cyfreithiol

#### 4 Gwybod ym mha ffyrdd gall y gweithiwr unigol hyrwyddo cynhwysiad yn ei arferion gwaith ei hun

*Ymwybyddiaeth bersonol:* nodi eu credoau a'u rhagfarnau personol; newid eu credoau a'u rhagfarnau personol; herio ymddygiad gormesol a gwahaniaethol; cysylltiadau rhwng gwahaniaethu ac ymddygiad; defnydd priodol o iaith; arwain trwy esiampl

*Cymhwyso sylfaen gwerthoedd gofal:* parch at wahaniaethau unigol; hunaniaeth ac urddas plant a theuluoedd

*Arfer cynhwysol:* wrth gyfathrebu, mewn trefniadau gofal, chwarae, gweithgareddau cwricwlaidd, yn yr amgylchedd, mewn cyfarpar a deunyddiau; ceisio a pharchu barn a dewisiadau plant; addasu arfer yn ôl oedrannau, anghenion a galluoedd plant; gweithio gyda phlant yng nghyd-destun Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn, ee hawl y plentyn i fynegi ei hun, chwarae, hunaniaeth ddiwylliannol, peidio â dioddef ecsbloetio, darpariaeth o ansawdd uchel sy'n diwallu ei anghenion fel unigolyn; arfer gwrth-wahaniaethol

*Goblygiadau cyfrinachedd:* cyfweld; cofnodi; storio gwybodaeth; rhannu gwybodaeth; cyfrinachedd proffesiynol; pryd mae torri cyfrinachedd; adrannau perthnasol o'r ddeddfwriaeth, ee Deddf Diogelu Data 1984, Deddf Mynediad i Ffeiliau Personol 1987, Deddf Mynediad i Adroddiadau Meddygol 1988

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio'r lefel cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
LL1 deall ystyr amrywiaeth yn y gymdeithas gyfoes  LL2 egluro achosion amrywiaeth economaidd a'r effeithiau posib ar blant, eu teuluoedd, a chymdeithas  LL3 egluro pwysigrwydd cydnabod cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau wrth ddarparu gwasanaethau i blant  LL4 nodi sut mae deddfwriaeth yn hyrwyddo cyfle cyfartal, cynhwysiad a hawliau mewn gwasanaethau i blant	T1 disgrifio goblygiadau ymateb i faterion amrywiaeth o ran lleoliadau plant          T2 egluro sut mae un polisi o leoliad i blant yn bodloni gofynion deddfwriaeth benodol	Rh1 dadansoddi gwerth amrywiaeth yn y gymdeithas gyfoes a'i berthnasedd o ran arfer ym maes gofal, dysgu a datblygiad plant

<b>Meini prawf graddio</b>		
<b>I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:</b>
<p>Ll5 disgrifio sut gall arferion gwasanaethau plant hyrwyddo cyfle cyfartal, cynhwysiad a hawliau</p> <p>Ll6 egluro sut gall y gweithiwr unigol hyrwyddo cynhwysiad.</p>	<p>T3 defnyddio enghreifftiau i egluro sut gall arferion mewn gwasanaethau plant hyrwyddo cyfle cyfartal, cynhwysiad a hawliau.</p>	<p>Rh2 dadansoddi rôl ymarferwyr gofal, dysgu a datblygiad plant wrth sicrhau hyrwyddo arfer cynhwysol.</p>

# Uned 7: Gweithgareddau Dysgu Plant a Chwarae

FfCC Lefel 3: BTEC Cenedlaethol

Oriau dysgu dan arweiniad: 90

---

## Crynodeb o'r uned

Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwyr yr wybodaeth a'r dealltwriaeth angenrheidiol i fedru hyrwyddo dysgu plant, a hefyd i gyflwyno gwerth chwarae fel offeryn ar gyfer dysgu i blant o wahanol oedrannau a galluoedd mewn gwahanol gyfnodau. Mae'r ffocws o 0 i 8 oed.

Mae angen i'r rheiny sy'n gweithio yn y sector Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant deall sut mae plant yn datblygu ac yn dysgu er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio gyda nhw'n effeithiol ac yn mwyafu potensial yr unigolyn. Ar y cychwyn mae'r uned yn galluogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o safbwyntiau damcaniaethol ynghylch datblygiad a dysgu sy'n effeithio ar arfer a darpariaeth cyfredol.

Ym maes gofal, dysgu a datblygiad plant, gwelir chwarae fel elfen hanfodol o les plant a'u datblygiad dilynol. Mae hefyd yn destun sy'n peri llawer o drafodaeth a dadlau ymysg ymarferwyr.

Yn yr uned hon bydd y dysgwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o natur a gwerth chwarae a phrosesau cynllunio, paratoi, gweithredu a gwerthuso gweithgareddau chwarae a dysgu. Hefyd edrychir ar rôl yr oedolyn ym mhob agwedd ar ddarparu profiadau chwarae a dysgu i blant ifanc.

Edrychir ymhellach ar gysyniad a gwerth chwarae yn *Uned 31: Cyflwyniad i Waith Chwarae*, *Uned 32: Yr Amgylchedd Gwaith Chwarae* ac *Uned 33: Chwarae Hunan-gyfeiriol*.

Bydd yr uned hon yn ddefnyddiol ar gyfer dysgwyr sy'n bwriadu gweithio gyda phlant ifanc mewn lleoliad addysg a/neu ofal, i'w galluogi i ddarparu profiadau chwarae a dysgu priodol ar gyfer plant a hyrwyddo'u datblygiad cyfannol.

## Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Ddeall y prif ddamcaniaethau ynghylch sut mae plant yn datblygu ac yn dysgu
- 2 Deall rôl chwarae yn natblygiad plant
- 3 Deall rôl yr oedolyn ym mhob agwedd ar y ddarpariaeth a rhoi gweithgareddau chwarae a dysgu ar waith i blant
- 4 Gwybod sut mae adnabod a hyrwyddo cyfleoedd dysgu ar gyfer plant rhwng 0 ac 8 oed
- 5 Medru cynllunio, gweithredu a gwerthuso gweithgareddau dysgu ar gyfer plant rhwng 0 ac 8 oed
- 6 Medru darparu sefyllfaoedd chwarae i blant.



## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall y prif ddamcaniaethau ynghylch sut mae plant yn datblygu ac yn dysgu

*Datblygiad a dysgu:* pwysigrwydd gwyddor nerfol ac astudiaethau ymenyddol; ffactorau a all ddylanwadu ar ddatblygiad a dysgu, ee amser, lleoliadau, geneteg, amgylchedd, ffactorau iechyd, cefnogaeth

*Prif ddamcaniaethau:* dadl natur/magwraeth; modelau dysgu trosglwyddo – Pavlov a Skinner; barn 'laissez-faire'; barn yr adeileddwyr - Piaget; barn gymdeithasol-adeileddol - Vygotsky a Bruner; manteision/anfanteision pob model; cysylltiadau ag ymchwil gyfredol

*Sut mae plant yn dysgu:* ee profiadau uniongyrchol, trwy chwarae, bod yn actif, defnyddio iaith, efelychu, gweithio gydag eraill, gwneud gweithgareddau ystyrlon, teimlo'n ddiogel, ymyrraeth briodol gan oedolion, dysgu sut mae dysgu

*Dylanwad ar:* drefniadaeth amgylchedd y blynyddoedd cynnar; adnoddau; rôl yr oedolyn a'r rhyngweithio gyda'r plentyn

### 2 Deall rôl chwarae yn natblygiad plant

*Natur chwarae:* diffiniadau o chwarae; gwerth symbylol chwarae; amrywiadau diwylliannol

*Cyfnodau chwarae:* sut mae'r rhain yn cysylltu â chyfnodau datblygiad, ee unig, paralel, cydweithredol, cystadleuol

*Mathau o weithgareddau chwarae a phrofiadau dysgu:* rhydd/digymell; strwythuredig/wedi'u cynllunio; yn llifo'n rhydd; therapiwtig; cyfuno mathau o chwarae; sbiral chwarae Moyles; estyn cyfleoedd i chwarae; llawn dychymyg; creadigol; mynegiannol; synhwyrdd; archwiliadol; cymdeithasol; ffantasi; dramatig; symudydd; meistrolaeth; cymdeithasol ddramatig; symbolaidd; gwrthrych; technolegol/ymchwiliol, ee defnyddio cyfarpar TG, mathemateg, gwyddoniaeth a'r amgylchedd

*Rôl chwarae:* datblygiad corfforol, ee sgiliau symud mawr a mân; datblygu dysgu cynnar, ee iaith, dealltwriaeth o'r byd; datblygiad emosiynol; datblygiad cymdeithasol; therapiwtig; datblygu dychymyg a gallu creadigol

### 3 Deall rôl yr oedolyn ym mhob agwedd ar y ddarpariaeth a rhoi gweithgareddau chwarae a dysgu ar waith i blant

*Swyddogaeth:* nodi a hyrwyddo cyfleoedd i chwarae a dysgu; deall gofynion perthnasol y cwricwlwm; defnyddio cydbwysedd o weithgareddau; dull integredig; cynllunio; paratoi; iechyd a diogelwch; gweithredu; rhoi anogaeth; ymyrryd yn ôl y galw; darparu ysgogiad; meithrin hyder a hunan-barch; cynhwysiad; gwahaniaethu; estyn gweithgareddau; arsylwi; monitro; gwerthuso; cyfathrebu gyda phlant a'u teuluoedd; rhaglenni dysgu unigol

*Cynllunio a pharatoi:* yr amgylchedd, adnoddau, cynnwys plant, trafod gydag oedolion eraill, iechyd a diogelwch, defnyddio trefn feunyddiol i wella'r dysgu

*Estyn gweithgareddau:* mewn ymateb i syniadau plant a chan osod gwerth arnynt wrth ddatblygu ac estyn gweithgareddau digymell a rhai a gynlluniwyd; dealltwriaeth o'r cyfnod datblygiad a hwyluso symud ymlaen i'r cyfnod nesaf; pwysigrwydd arsylwi; pwysigrwydd cynhwysiad

*Strategaethau monitro:* ee sut mae pennu a defnyddio meini prawf ar gyfer monitro a gwerthuso, dogfennaeth, trafodaeth gyda chydweithwyr, gwerthuso dysgwyr, arsylwi plant, monitro cyfranogiad a dysgu, monitro a gwerthuso mwynhad plant, eu hymateb a'u hadwaith, myfyrio ar arfer personol

#### 4 Gwybod sut mae adnabod a hyrwyddo cyfleoedd dysgu ar gyfer plant rhwng 0 ac 8 oed

*Cefnogi dysgu cynnar:* cysylltiadau fframwaith addysg gynnar yn y famwlad; hyrwyddo cysyniadau, sgiliau, agweddau a gwybodaeth allweddol ar draws holl feysydd y cwricwlwm; adnabod y nodau a'r amcanion dysgu; dull integredig; cynhwysiad; arfer gwrth-wahaniaethol

*Cynllunio gweithgareddau i gefnogi dysgu cynnar:* cynllunio ar gyfer y tymor byr, canolig a hir; ystyried anghenion yr unigolyn, ee dulliau/dewisiadau dysgu gwahanol, anghenion unigol penodol, gwahaniaethu; pwysigrwydd arsylwi; defnyddio gwahanol fathau o chwarae yn offeryn ar gyfer dysgu; defnyddio TGCh; cynnwys plant, rhieni, teuluoedd ac arbenigedd allanol; argaeledd adnoddau

*Monitro:* dysgu; cyfranogiad; asesu ffurfiannol; asesu crynodol; y broses asesu - pwy, ble, pryd, sut; cysylltiadau â chynllunio; gwerthuso

#### 5 Medru cynllunio, gweithredu a gwerthuso gweithgareddau dysgu ar gyfer plant rhwng 0 ac 8 oed

*Cynllunio a pharatoi:* cynllunio mewn fframwaith thematig ac athematig; sicrhau bod plant yn medru gwneud cynnydd mewn maes penodol o'r cwricwlwm; sicrhau bod ystod anghenion datblygiad plant a'u hanghenion unigol penodol yn cael eu barnu'n realistig; cynllunio a pharatoi adnoddau ffisegol a dynol; defnyddio TGCh; ymgynghori â staff, plant a theuluoedd fel sy'n briodol; cynhwysiad; gwahaniaethu

*Swyddogaeth mewn dysgu ffurfiol:* ee llythrennedd, mathemateg, gwyddoniaeth, TGCh, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

*Cwmpasu amrywiaeth:* cyfleoedd i blant estyn eu harchwilio a'u dealltwriaeth o'r byd ehangach, ac felly o leoliadau ffisegol, cymdeithasol a diwylliannol y tu hwnt i'w profiadau uniongyrchol; hyrwyddo cyfle cyfartal; cynhwysiad; datblygu arfer gwrth-wahaniaethol ac agweddau cadarnhaol

*Gweithredu:* sgiliau rhyngpersonol; sgiliau arsylwi; monitro gweithgareddau plant; ymwybyddiaeth o ran pryd dylid ymyrryd; cynnwys plant ym mhob agwedd, gan gynnwys clirio a thacluso; ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch

*Gwerthuso*: strategaethau monitro; defnyddio arsylwi; cyfathrebu gyda phobl eraill berthnasol; ystyried cryfderau a gwendidau; ystyried y gwerth a'r manteision i blant; ystyried datblygu ymhellach i estyn dysgu a datblygiad plant; gwelliannau ar gyfer y dyfodol; myfyrio ar eu harfer personol; rôl yr oedolyn

## 6 Medru darparu sefyllfaoedd chwarae i blant

Sefyllfaoedd chwarae: strwythuredig; rhydd

Cynllunio a pharatoi: adnoddau ffisegol a dynol; ymgynghori â staff, plant a theuluoedd fel sy'n briodol; cynhwysiad

Mathau o weithgareddau chwarae: ee llawn dychymyg, creadigol, mynegiannol, synhwyrdd, archwiliadol, ymsymudol, ffantasi

Adolygu: gwerthuso'r modd y lluniwyd y sefyllfa chwarae; rôl yr oedolyn

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio'r lefel cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
<p>LL1 disgrifio sut mae plant yn dysgu, gan gyfeirio at y prif ddamcaniaethau ynghylch dysgu</p> <p>LL2 disgrifio gwerth posib chwarae yn natblygiad plant</p> <p>LL3 disgrifio rôl yr oedolyn ym mhob agwedd ar y ddarpariaeth a rhoi gweithgareddau chwarae a dysgu ar waith i blant</p> <p>LL4 defnyddio enghreifftiau i ddisgrifio sut mae lleoliadau blynyddoedd cynnar yn darparu cyfleoedd dysgu ar gyfer plant o 0-3, 3-5 a 5-8 oed</p>	<p>T1 gan gyfeirio at y prif ddamcaniaethau ynghylch dysgu, egluro sut mae plant yn dysgu</p> <p>T2 egluro gwerth posib chwarae yn natblygiad plant</p> <p>T3 dadansoddi rôl yr oedolyn yn nysgu plant</p>	<p>Rh1 gwerthuso'r prif ddamcaniaethau ynghylch dysgu, gan ddefnyddio enghreifftiau o'r lleoliad gwaith</p>

<b>Meini prawf graddio</b>		
<b>I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:</b>
<p>Ll5 cynllunio a gweithredu dau weithgaredd dysgu mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar</p> <p>Ll6 paratoi ac adolygu dwy sefyllfa chwarae wahanol.</p>	<p>T4 egluro gwerth y ddau weithgaredd dysgu a'r ddwy sefyllfa chwarae.</p>	<p>Rh2 gan gyfeirio at y prif ddamcaniaethau ynghylch dysgu, gwerthuso'r ddau weithgaredd dysgu a'r ddwy sefyllfa chwarae.</p>

# Uned 8: Methodoleg Ymchwil ym maes Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant

FfCC Lefel 3 : BTEC Cenedlaethol

Oriau dysgu dan arweiniad: 90

---

## Crynodeb o'r uned

Mae llawer o'r gwaith ym maes gofal, dysgu a datblygiad plant yn dibynnu ar arfer a seiliwyd ar dystiolaeth, ac mae angen i ymarferwyr sicrhau eu bod yn medru dangos bod eu gwaith yn effeithiol. Mae angen i ddarpar ymarferwyr, felly, fod â dealltwriaeth glir o fethodoleg ymchwil er mwyn cyflawni eu hymchwil eu hunain mewn lleoliadau. Yn achos y dysgwyr hynny sydd am symud ymlaen ymhellach gyda'u dysgu, bydd yr uned hon yn sylfaen dda ar gyfer gwaith ar lefel uwch yn y dyfodol.

Bydd yr uned hon yn galluogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o'r fethodoleg ymchwil angenrheidiol i gyflawni ymchwil sylfaenol ym maes gofal, dysgu a datblygiad plant. Wedyn byddant yn medru cynnal a chwblhau prosiect ymchwil ar bwnc perthnasol sydd o ddiddordeb iddynt. Ar ben hyn, mae'r uned yn galluogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o'r materion moesegol a goblygiadau ymchwil yn y maes.

Mae cysylltiad rhwng yr uned hon a llawer o unedau eraill yn y rhaglen, er enghraifft *Uned 11: Diet a Maeth i Blant* neu *Uned 36: Dysgu Annibynnol ym maes Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant*.

## Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Ddeall diben a swyddogaeth ymchwil ym maes gofal, dysgu a datblygiad plant
- 2 Deall y methodolegau ymchwil sy'n berthnasol i ofal, dysgu a datblygiad plant
- 3 Medru nodi pwnc addas a chynhyrchu cynllun ar gyfer cynnig ymchwil
- 4 Medru cynnal yr ymchwil a chyflwyno'r canfyddiadau
- 5 Medru gwerthuso'r prosiect ymchwil
- 6 Deall y goblygiadau a'r materion moesegol sydd ynghlwm wrth ddefnyddio ymchwil ym maes gofal, dysgu a datblygiad plant.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall diben a swyddogaeth ymchwil ym maes gofal, dysgu a datblygiad plant

*Diben:* nodi angen, darparu gwybodaeth bellach, amlygu bylchau yn y ddarpariaeth

*Swyddogaeth:* hysbysu polisi neu arfer, estyn gwybodaeth a dealltwriaeth, gwella arfer, cynorthwyo myfyrio, caniatáu monitro cynnydd, archwilio pynciau o bwysigrwydd cyfoes

### 2 Deall y methodolegau ymchwil sy'n berthnasol i ofal, dysgu a datblygiad plant

*Mathau o ymchwil:* meintiol, ansoddol, cychwynnol, eilaidd

*Ffynonellau cychwynnol:* holiaduron, cyfweliadau, arbrofion gwyddonol, arsylwi ffurfiol ac anffurfiol

*Ffynonellau eilaidd/ymchwil lenyddol:* y rhyngrwyd, cyfnodolion, y cyfryngau, llyfrau

### 3 Medru nodi pwnc addas a chynhyrchu cynllun ar gyfer cynnig ymchwil

*Pwnc a damcaniaeth:* nodi pwnc addas sy'n ymwneud â gofal, dysgu a datblygiad plant, chwilio drwy'r llenyddiaeth, addasrwydd y pwnc o ran materion moesegol, llunio damcaniaeth berthnasol, realistig y gellir ei hadnabod, nodau cyflawnadwy

*Cynhyrchu amlinelliad o'r ymchwil arfaethedig:* methodoleg, grŵp targed a sampl, rhesymeg, terfynau amser, cynllun gweithredu, monitro ac addasu

*Adnoddau:* adnoddau cychwynnol ac eilaidd, defnyddio amrywiaeth o adnoddau

### 4 Medru cynnal yr ymchwil a chyflwyno'r canfyddiadau

*Cynnal yr ymchwil:* ymchwil gychwynnol ac eilaidd, ystadegau, monitro ac adolygu

*Cyflwyniad:* crynodeb o'r ymchwil gyfredol yn y maes yng nghyswllt y pwnc a ddewiswyd

*Dull:* damcaniaeth, dulliau ymchwil cychwynnol, ymchwil eilaidd, cofnodi data

*Canlyniadau:* casglu data, cyflwyno data, trionglu, cyflwyno ar ffurf graffiau, defnyddio meddalwedd cyfrifiadurol

*Ystadegol:* canrannau, cymedr, canolrif, modd

*Dulliau cyflwyno:* ee siartiau bar, histogramau, graffiau, siartiau cylch, tablau; electronig, wedi'u tynnu â llaw

*Dulliau dadansoddi:* defnyddio meddalwedd TG i brosesu gwybodaeth ystadegol; dod i gasgliadau; tueddiadau, gwallau

*Ystyriaethau moesegol:* ee defnyddio a chamddefnyddio canlyniadau

## 5 Medru gwerthuso'r prosiect ymchwil

*Gwerthuso a diweddglo:* cymharu'r canfyddiadau a'r ddamcaniaeth, trafod y canfyddiadau, y berthynas rhwng y canlyniadau ac ymchwil gyfredol, nodi cyfyngiadau'r prosiect ymchwil, meysydd posib ar gyfer datblygu'r ymchwil ymhellach, ystyried y goblygiadau, ee hawliau dynol, tueddiadau a gwallau, materion moesegol, ee cyfrinachedd, diogelu data; defnyddio a chamddefnyddio ymchwil

*Argymhellion:* ar gyfer ymarferwyr wrth eu gwaith neu lunwyr polisi sy'n penderfynu ar ymchwil ym maes gofal, dysgu a datblygiad plant

## 6 Deall y goblygiadau a'r materion moesegol sydd ynghlwm wrth ddefnyddio ymchwil ym maes gofal, dysgu a datblygiad plant

*Goblygiadau:* pwy sy'n comisiynu ymchwil, hawliau dynol, dilysrwydd, dibynadwyedd, canlyniadau/manteision canfyddiadau, effeithiau cyhoeddiadau, mynediad i wybodaeth, y perygl o niweidio grwpiau cleientiaid

*Materion moesegol:* cyfrinachedd, deddfwriaeth diogelu data, gweithdrefnau polisi, dilysrwydd, cynnwys codau ymarfer, rôl y cyfryngau; defnyddio a chamddefnyddio data, ee ystadegau sy'n bwydo i arfer, swyddfa'r boblogaeth a'r cyfrifiad, tueddiadau cymdeithasol

*Effeithiau ar bolisi ac arfer:* ee effaith adroddiadau allweddol, rôl y Sefydliad Gofal Cymdeithasol dros Ragoriaeth (SCIE), effaith ymchwil SCIE ar bolisi



## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio'r lefel cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
LL1 egluro diben a swyddogaeth ymchwil yn y sector gofal, dysgu a datblygiad plant LL2 disgrifio prif elfennau methodolegau ymchwil LL3 nodi testun ymchwil, ei gynllunio, a chwilio drwy'r llenyddiaeth LL4 cynnal y gwaith ymchwil cychwynnol a chasglu a chofnodi data priodol LL5 cyflwyno ac adrodd ar y canfyddiadau mewn fformat perthnasol, gan nodi ffynonellau tueddiadau neu wallau	T1 cyfiawnhau'r dewis o bwnc a'r ddamcaniaeth  T2 adolygu'r dulliau ymchwil a ddewiswyd yng nghyswllt y canlyniadau a gafwyd, unrhyw ffynonellau tueddiadau neu wallau, ac ystyriaethau moesegol	Rh1 trafod sut gellid newid methodoleg y prosiect ymchwil i leihau'r tueddiadau a'r gwallau

<b>Meini prawf graddio</b>		
<b>I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:</b>
<p>Ll6 trafod canfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â'r ddamcaniaeth wreiddiol</p> <p>Ll7 amlinellu unrhyw welliannau posib i'r ymchwil, gan gyfeirio at unrhyw oblygiadau a materion moesegol perthnasol.</p>	<p>T3 dadansoddi canfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â'r ddamcaniaeth wreiddiol</p> <p>T4 trafod goblygiadau posib canlyniadau'r ymchwil ar arfer cyfredol.</p>	<p>Rh2 dadansoddi diben a swyddogaeth ymchwil yn y sectorau, gan dynnu ar y gwaith ymchwil a wnaed.</p>

# Uned 9: Hyrwyddo Datblygiad a Bywyd Iach ar gyfer Plant a'u Teuluoedd

FfCC Lefel 3 : BTEC Cenedlaethol

Oriau dysgu dan arweiniad: 30

---

## Crynodeb o'r uned

Nod yr uned hon yw canolbwyntio ar iechyd a datblygiad corfforol, a rhoi cyfleoedd i ddysgwyr archwilio pwysigrwydd hyrwyddo iechyd a datblygiad corfforol plant, mewn partneriaeth â'u teuluoedd.

I gychwyn bydd y dysgwyr yn edrych ar y ffactorau a allai effeithio ar iechyd a datblygiad corfforol plant, gan ystyried anghenion yr unigolyn a sut gallant amrywio. Wedyn bydd y dysgwyr yn canolbwyntio ar anghenion maeth a gofynion diet cytbwys.

Yn olaf, bydd y dysgwyr yn defnyddio'u lleoliadau gwaith i'w helpu i archwilio cyfleoedd posib i hyrwyddo dewisiadau byw'n iach i blant a'u teuluoedd.

Bwrriedir i'r uned hon gyfrannu at yr wybodaeth sylfaenol sy'n angenrheidiol ar gyfer *Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant 307: Hyrwyddo iechyd a datblygiad corfforol plant*, o'r Safonau Cenedlaethol Galwedigaethol ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant.

Mae cysylltiadau cryf gydag *Uned 11: Diet a Maeth i Blant ac Uned 12: Gweithgareddau Corfforol i Blant*, sydd fel ei gilydd yn estyn pynciau a gyflwynir yn yr uned hon.

## Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Ddeall ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a datblygiad corfforol plant
- 2 Deall anghenion maeth
- 3 Gwybod sut mae mwyafu cyfleoedd i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ymhlith plant a'u teuluoedd.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a datblygiad corfforol plant

*Datblygiad iach:* caffael sgiliau a gallu, caffael gwybodaeth a dealltwriaeth, cyflawni potensial

*Ffordd iach o fyw:* ffyrdd o fyw sy'n sicrhau iechyd da ac yn estyn hyd oes disgwylidig

*Ffactorau:* gan ystyried anghenion iechyd a datblygiad yr unigolyn; amrywio yn ôl oedran, rhyw, grŵp ethnig, galluedd; canllawiau cenedlaethol ar fwyta'n iach a maeth i blant; bwyd/diod sy'n cyfateb i'r anghenion maeth; bwydydd priodol ac amhriodol i blant; gofynion diet arbennig; gweithgareddau dan do ac yn yr awyr agored i annog cydbwysedd, cydsymud, datblygiad sgiliau symud mawr a mân, sgiliau trin a thrafod, cydsymud llaw/llygad, estyn sgiliau, iechyd da; pwysigrwydd gorffwys ar ôl gweithgaredd corfforol; hylendid personol; effaith salwch cronig; camddefnyddio sylweddau yn bersonol neu gan aelodau o'r teulu; rôl haint; rôl imiwneiddio; lleoliad, amgylchedd, dylanwad cyfoedion/y cyfryngau, economaidd

### 2 Deall anghenion maeth

*Anghenion:* yn ôl yr unigolyn, ee oedran, rhyw, cyn cenhedlu/beichiogrwydd, lefel ymarfer corff; ar gyfer datblygiad iach; ar gyfer byw'n iach; gofynion diet arbennig; canllawiau'r llywodraeth; paratoi hylan; annog annibyniaeth

*Macro-faetholion:*

- Carbohydrad - ffynonellau, syml - siwgrau; cymhleth - polysacaridau gyda neu heb starts; swyddogaeth mewn diet
- Proteinau - yn tarddu o anifeiliaid a phlanhigion; asidau amino hanfodol; pwysigrwydd diet amrywiol ar gyfer llysiuwyr/feganiaid; swyddogaeth mewn diet
- Braster - braster anifeiliaid, olew pysgod, olew cnau, olew llysiu; dirlawn, annirlawn, amlannirlawn; swyddogaeth mewn diet

*Micro-faetholion:*

- Fitaminau - ffynonellau A, B (cymhleth), C, D, E, K; swyddogaeth mewn diet; atgyfnerthu rhai bwydydd
- Mwynau - ffynonellau calsiwm, sodiwm, haearn, potasiwm, swyddogaeth mewn diet; atgyfnerthu rhai bwydydd

*Anghenion maeth eraill:* dŵr - swyddogaeth mewn diet, angen yn ôl, ee tymheredd, gweithgaredd, oedran, diet, ffordd o fyw; ffibr - swyddogaeth mewn diet

*Cysyniad diet cytbwys:* cymeriant, anghenion, gwerthoedd cyfeiriol diet, cydbwysedd egni, diffyg maetholion, camfaethiad

**3 Gwybod sut mae mwyaflu cyfleoedd i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ymhlith plant a'u teuluoedd**

*Cyfleoedd:* i ddysgu sut mae'r corff yn gweithio, i ddysgu am anghenion iechyd; fel rhan o drefn ddyddiol; yn ystod gweithgareddau; mewn rhaglenni a gynlluniwyd; yn ystod trafodaethau; gan gynnwys plant; gan gynnwys teuluoedd; cynhwysiad; gweithgareddau integredig yn y lleoliad

*Ymwybyddiaeth iechyd:* goblygiadau iechyd gwahanol ffyrdd o fyw; tymor byr, tymor hir; oedolion, plant; newidiadau iach i ffordd o fyw; hwyluso newid

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio'r lefel cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
LL1 amlinellu ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a datblygiad corfforol plant	T1 egluro ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a datblygiad corfforol plant	Rh1 gwerthuso effeithiau posib dau ffactor sy'n effeithio ar iechyd a datblygiad corfforol plant a'u teuluoedd
LL2 disgrifio mathau i facro-faetholion a micro-faetholion a'u swyddogaeth mewn diet		
LL3 disgrifio gofynion diet cytbwys	T2 egluro swyddogaethau gwahanol gydrannau diet cytbwys	
LL4 defnyddio enghreifftiau o leoliadau gwaith i ddisgrifio sut gellir mwyafu'r cyfleoedd i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ymhlith plant a'u teuluoedd.	T3 defnyddio dwy enghraifft o leoliadau gwaith i egluro rôl hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ymhlith plant a'u teuluoedd.	Rh2 defnyddio dwy enghraifft o leoliadau gwaith i werthuso hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ymhlith plant a'u teuluoedd.

# Uned 10: Hyrwyddo Lles a Gwytnwch Plant

FfCC Lefel 3 : BTEC Cenedlaethol

Oriau dysgu dan arweiniad: 30

---

## Crynodeb o'r uned

Mae deall anghenion beunyddiol plant a phobl ifanc o ran iechyd a lles emosiynol yn ganolog i waith yn y sector gofal, dysgu a datblygiad plant.

Mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i ddod i ddeall ffactorau sy'n cyfrannu at ddatblygu hunan-barch cadarnhaol, gan gynnwys strategaethau sy'n annog plant i gynnal agwedd gadarnhaol yn eu bywydau.

Ar y cychwyn bydd dysgwyr yn ystyried pwysigrwydd darparu amgylchedd emosiynol ar gyfer plant sy'n sicr, ac eto'n heriol. Wedyn byddant yn edrych ar ddatblygiad hunanddibyniaeth, hunan-barch a gwytnwch emosiynol plant a sut gellir annog datblygiad hyn.

Bwriedir i'r uned hon gyfrannu at yr wybodaeth sylfaenol sy'n angenrheidiol ar gyfer *Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant 308: Hyrwyddo Lles a gwytnwch plant* yn y Safonau Cenedlaethol Galwedigaethol ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant.

## Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Ddeall sut mae darparu amgylchedd cefnogol a heriol
- 2 Deall ffactorau sy'n effeithio ar ddatblygiad hunanddibyniaeth, hunan-barch a gwytnwch emosiynol plant
- 3 Deall sut mae annog hunanddibyniaeth, hunan-barch a gwytnwch plant.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall sut mae darparu amgylchedd cefnogol a heriol

*Amgylchedd cefnogol:* emosiynol sicr - gan ganiatáu i'r plant fynegi eu teimladau'n ddilestair; dangos parch a gosod gwerth ar farn, safbwyntiau a theimladau plant, pwysigrwydd ymddiriedaeth, bod yn agored ac onestrwydd yn y berthynas rhwng ymarferwyr a phlant; helpu plant i ddeall, mynegi a rheoli eu teimladau; cefnogi gwytnwch plant, yn ôl eu hoedran, eu hanghenion a'u galluoedd; helpu plant a phobl ifanc i ymwneud ag eraill

*Helpu plant i ymwneud ag eraill:* annog plant i ystyried teimladau pobl eraill; annog plant i rannu a chydweithredu mewn gweithgareddau ar y cyd; gweithgareddau integredig sy'n rhoi gwerth cadarnhaol i amrywiaeth; sgiliau cyfathrebu geiriol a di-eiriau er mwyn annog integreiddio a gosod gwerth ar amrywiaeth

*Amgylchedd heriol:* annog plant i roi cynnig ar weithgareddau a phrofiadau newydd; gosod heriau sy'n briodol ar gyfer eu datblygiad; annog a chefnogi plant i brofi ac ymestyn eu sgiliau a'u galluoedd; helpu plant i gefnogi ei gilydd trwy weithgareddau heriol a chyflawniadau; asesu risg yn unol â pholisi'r sefydliad sy'n cyflawni'r holl ragofalon rhesymol heb gyfyngu ar y cyfleoedd i ddatblygu; annog plant i asesu risgiau iddynt eu hunain ac eraill yn sgil eu gweithgaredd a'u hymddygiad; ymyrryd mewn sefyllfaoedd lle mae perygl caiff plant eu niweidio

### 2 Deall ffactorau sy'n effeithio ar ddatblygiad hunanddibyniaeth, hunan-barch a gwytnwch emosiynol plant

*Datblygiad emosiynol:* ymdeimlad o'r hunan, hunaniaeth, anian, personoliaeth, cysyniad o'r hunan

*Datblygiad cymdeithasol:* empathi, ymddygiad rhag-gymdeithasol; rheoli gwrthdaro i ddiogelu ymdeimlad o les; gwahaniaethau teuluol a diwylliannol, anghenion ychwanegol, dylanwadau grŵp cyfoedion

*Datblygiad moesol:* persbectifau yn ôl oedran a chyfnod datblygiad, credoau ac amgylchiadau personol a theuluol

*Ffactorau sy'n effeithio ar hunanddibyniaeth, hunan-barch a gwytnwch:* ee ymlyniadau, cefnogaeth deuluol, anian, digwyddiadau sy'n achosi newid megis symud i ysgol newydd; cyfnodau oes megis aeddfedrwydd/glasoed; digwyddiadau bywyd megis ysgariad yn y teulu, profedigaeth, symud tŷ



### 3 Deall sut mae annog hunandibyniaeth, hunan-barch a gwytnwch plant

*Strategaethau:* darparu sylw wedi'i ganolbwyntio; pwysigrwydd peidio â barnu plant, cyfeirio sylwadau at ymddygiad yn hytrach na'r unigolyn; helpu plant i ragweld canlyniadau gweithredoedd ac ymddygiad, helpu plant i nodi ffiniau ymddygiad derbyniol ac annerbyniol, helpu plant i addasu ymddygiad annerbyniol; helpu plant i roi cynnig ar weithgareddau newydd er mwyn gwireddu nodau personol; cadarnhau positif; anogaeth; yn unol â fframweithiau cenedlaethol a pholisiau sefydliadol

*Annog plant:* ee i brofi eu sgiliau a'u galluoedd eu hunain, i ystyried risgiau, i gefnogi eraill wrth wynebu heriau, i reoli llwyddiant a methiant mewn ffyrdd nad ydynt yn niweidio'u hunan-barch, i reoli teimladau o siom

*Polisiau:* gweithio mewn partneriaeth gyda rhieni, cydweithwyr, gweithwyr proffesiynol eraill a phlant wrth gynnal sicrwydd emosiynol y lleoliad; sut gall fframweithiau cenedlaethol a pholisi sefydliadol gefnogi asesu risg ac egwyddorion lleoliad cynhwysol

*Hunan-asesu:* cydnabod a rheoli teimladau personol negyddol, ee diffyg hyder, teimladau o fod yn annigonol

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio'r lefel cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
LL1 defnyddio enghreifftiau o leoliadau gwaith i ddisgrifio sut mae darparu amgylchedd cefnogol a heriol i blant	T1 defnyddio enghreifftiau o leoliadau gwaith i egluro pwysigrwydd darparu amgylchedd cefnogol a heriol i blant	Rh1 gwerthuso tri arfer mewn lleoliad gwaith o ran darparu amgylchedd cefnogol a heriol i blant
LL2 disgrifio tri ffactor a all effeithio ar hunan-ddibyniaeth, hunan-barch a gwytnwch emosiynol plant	T2 egluro sut gall tri ffactor gwahanol effeithio ar hunan-ddibyniaeth, hunan-barch a gwytnwch emosiynol plant	Rh2 gwerthuso tri ffactor gwahanol o ran sut gallant effeithio ar hunan-ddibyniaeth, hunan-barch a gwytnwch emosiynol plant.
LL3 disgrifio strategaethau sy'n fwriadol yn annog hunan-ddibyniaeth, hunan-barch a gwytnwch plant.	T3 egluro sut gall tair strategaeth wahanol annog hunan-ddibyniaeth, hunan-barch a gwytnwch plant mewn ffordd gadarnhaol.	Rh3 gwerthuso'r defnydd o dair strategaeth wahanol a all annog hunan-ddibyniaeth, hunan-barch a gwytnwch plant mewn ffordd gadarnhaol mewn lleoliad gwaith.

# Uned 11: Diet a Maeth Plant

FfCC Lefel 3: BTEC Cenedlaethol

Oriau dysgu dan arweiniad: 30

---

## Crynodeb o'r uned

Mae pwysigrwydd y bwyd yr ydym yn ei fwyta, ac effeithiau diet amhriodol wedi cael eu hamlygu yn ystod y blynyddoedd diweddar. Cydnabuwyd yn gynyddol broblemau gordewdra a diet gwael, nid ymhlith oedolion yn unig, ond hefyd ymhlith plant.

Mae'n bwysig bod gan ddysgwyr ddealltwriaeth dda o egwyddorion maeth a diet er mwyn cynnal neu wella eu diet a'u hiechyd eu hunain, yn ogystal ag eiddo'r babanod a'r plant y byddant yn gofalu amdanynt.

Mae cysylltiad agos rhwng yr uned hon ac *Uned 9: Hyrwyddo Datblygiad a Ffordd Iach o Fyw ar gyfer Plant a'u Teuluoedd*, lle'r archwiliwyd anghenion maeth. Nod Uned 11 yw datblygu dealltwriaeth dysgwyr o faeth ymhellach, o ran egwyddorion bwydo babanod a diet plant, gan gynnwys dewisiadau bwyd plant, ac effeithiau posib diet anghybwys ar iechyd plant. Bydd dysgwyr hefyd yn archwilio egwyddorion diogelwch bwyd.

## Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Ddeall egwyddorion bwydo babanod a diet plant
- 2 Deall effeithiau posib diet ar iechyd plant
- 3 Deall egwyddorion diogelwch bwyd.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall egwyddorion bwydo babanod a diet plant

*Bwydo o'r fron:* paratoi; proses; amseru; cyfansoddion llaeth o'r fron; pwysigrwydd diet y fam; manteision

*Bwydo o botel:* paratoi'r bwyd; poteli; sterileiddio'r cyfarpar; symiau; ansawdd; tymheredd; amseru; cyfansoddion bwyd fformwla; manteision

*Diddyfnu:* oedran; cyflwyno bwydydd yn raddol; mathau o fwydydd; alergeddau posib; yr angen am brotein; yr angen am haearn

*Diet babanod hŷn a phlant ifanc:* gofynion egni; maetholion; diet cytbwys; datblygu ystod o fwyd; hoff fwydydd; effeithiau posib ychwanegion bwyd

*Diet plant hŷn:* gofynion egni; maetholion; diet cytbwys; hoff fwydydd; pwysau grŵp cyfoedion; prydau ysgol; gofynion wrth aeddfedu; bwydydd cyflym; effeithiau posib ychwanegion bwyd

*Cyflwyniad Bwyd:* lliw; amrywiaeth; defnyddio cyllyll a ffyrc; meintiau hylaw

*Agweddau cymdeithasol:* yr amgylchedd; digwyddiad cymdeithasol; mwynhau bwyta

*Dewisiadau a ffafrir yn bersonol:* dewisiadau bwyd; hoff a chas bethau; gwahaniaethau diwylliannol; ymdopi â rhywun sy'n 'ffyslyd' wrth fwyta; arferion crefyddol; llysieuath; amrywiadau tymhorol; gwahaniaethau rhanbarthol a chenedlaethol

### 2 Deall effeithiau posib diet ar iechyd plant

*Diet anghytwys:* camfaethiad, gor-faethiad a than-faethiad; diffygion penodol o ran maetholion, ee anaemia, y llechau, pydredd annedd, dallineb nos, beriberi, y llwg; gordewdra; diabetes; rhwymo; tueddiad i ddal heintiau

*Anoddefiad bwyd:* alergeddau, ee cnau; diffygion ensymau, ee anoddefiad llaeth

*Arall:* ee effeithiau posib ychwanegion, llygru/gwenwyn bwyd

### 3 Deall egwyddorion diogelwch bwyd

*Arfer diogel:* cydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau o adrannau perthnasol o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd Cyffredinol) 1995, Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Rheoli Tymheredd) 1995, Pwynt Rheoli Critigol Dadansoddi Peryglon (HACCP)

*Arferion diogel:* rheoli hylendid; rheoli tymheredd; rheoli plâu

*Effeithiau arferion anniogel:* mathau o lygru bwyd - cemegol, ffisegol, biolegol; gwenwyn bwyd bacteriol, ee Clostridium perfringens, Staphylococcus aureus, Campylobacter, Bacillus cereus, rhywogaethau Salmonella, E.coli; ffynonellau bacteria gwenwyn bwyd; symptomau gwenwyn bwyd; cyflyrau penodol sy'n golygu bod pobl yn agored i niwed, ee oedran, beichiogrwydd

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio'r lefel cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
LL1 disgrifio prif egwyddorion bwydo o'r fron ac o botel	T1 cynllunio trefn fwydo o botel ar gyfer baban, gan egluro pob cam	
LL2 disgrifio proses diddyfnu a bwydo babanod hŷn a phlant ifanc	T2 egluro pwysigrwydd proses ddiddyfnu	
LL3 disgrifio'r prif ystyriaethau wrth gyflwyno bwyd i blant ifanc		
LL4 disgrifio effeithiau posib diet anghytwys ar fabanod a phlant	T3 cynhyrchu bwydlen gytwys ar gyfer plentyn tair oed am wythnos, gan gyfiawnhau'r dewisiadau	Rh1 dadansoddi'r fwydlen a gynhyrchwyd, o safbwynt maetholion, cydbwysedd a iechyd plentyn
LL3 disgrifio egwyddorion diogelwch bwyd ac effeithiau posib arfer anniogel.	T4 egluro effeithiau posib arferion bwyd anniogel mewn lleoliadau plant.	Rh2 gwerthuso'r arferion diogelwch bwyd mewn lleoliad i blant.

# Uned 12: Gweithgareddau Corfforol i Blant

FfCC Lefel 3: BTEC Cenedlaethol

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

---

## Crynodeb o'r uned

Nod yr uned hon yw canolbwyntio ar weithgareddau corfforol i blant, a sut gallant gynorthwyo datblygiad iach.

Ar y cychwyn bydd dysgwyr yn archwilio anatomeg a ffisioleg y corff dynol, gan gynnwys y gwahaniaethau rhwng systemau aeddfed ac anaeddfed. Byddant yn ystyried rôl gweithgareddau corfforol yn natblygiad iach plant, ac yn cynllunio, gweithredu a gwerthuso rhai gweithgareddau. Wedyn byddant yn edrych ar addasu'r gweithgareddau hyn ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol.

Mae cysylltiadau cryf gydag *Uned 9: Hyrwyddo Datblygiad a Bywyd Iach ar gyfer Plant a'u Teuluoedd* ac *Uned 11: Diet a Maeth ar gyfer Plant*.

## Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Ddeall anatomeg a ffisioleg plentyn sy'n tyfu, gan gyfeirio at weithgaredd corfforol
- 2 Medru llunio, cyfiawnhau, paratoi, gweithredu, monitro a gwerthuso ystod o weithgareddau corfforol sy'n addas ar gyfer babanod a phlant
- 3 Deall addasiadau i ystod ddethol o weithgareddau corfforol ar gyfer babanod a phlant ag anghenion ychwanegol.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall anatomeg a ffisioleg plentyn sy'n tyfu, gan gyfeirio at weithgaredd corfforol

*System yr ysgerbwd:* swyddogaethau; dosbarthiad esgyrn a chymalau; meinwe cysylltiol; symudiad a liferi; effeithiau ymarfer corff ar ysgerbwd sy'n tyfu

*System y cyhyrau:* swyddogaethau; mathau o gyhyrau; gweithrediad cyhyrau; tyndra cyhyrau; cyfangu cyhyrau'n isotonig ac isomedrig; lleoliad a gweithrediad y prif gyhyrau; stamina; effeithiau ymarfer corff ar gyhyrau sy'n tyfu

*System cylchrediad y gwaed:* swyddogaethau; y galon; pibellau gwaed; cylchrediad pwlmonaidd a systemig; gwaed; pwysedd gwaed a'r pwls; ymarfer corff a system gylchrediad sy'n tyfu

*Y system resbiradol:* swyddogaethau; tracea; bronci; bronciolynnau; alfeolau; mecanwaith anadlu; cyfnewid nwyol; ymarfer corff a'r system resbiradol

*Y system nerfol:* swyddogaethau; y system nerfol ganolog ac ymylol

*Systemau egni:* dosbarthiad braster; aerobig ac anaerobig

*Datblygiadol:* gwahaniaethau rhwng systemau aeddfed ac anaeddfed; cysylltiadau â datblygiad cyffredinol

### 2 Medru llunio, cyfiawnhau, paratoi, gweithredu, monitro a gwerthuso ystod o weithgareddau corfforol sy'n addas ar gyfer babanod a phlant

*Fframwaith sylfaenol ar gyfer sesiwn gorfforol:* cynhesu; datblygu thema; gweithgaredd i gloi; arafu; gorffwys ac ymadfer

*Addysgu sgiliau sylfaenol:* rheolaeth gyffredinol ar y corff; allanoli gwrthrychau; derbyn gwrthrychau; gwaith traed

*Gweithgareddau o dan do:* ee symud creadigol, dawns, offer chwarae mawr a mân, gemau (unigol, parau, grŵp), nofio i fabanod a phlant

*Gweithgareddau awyr agored:* ee offer chwarae mawr a bach, gemau (unigol, parau, grwpiau, timau), athletau ar gyfer babanod a phlant, gweithdrefnau diogelwch, gwirio a chynnal cyfarpar

*Gweithgareddau mewn manau chwarae:* ee offer bach, gemau (unigol, parau grŵp) i wella'r defnydd o amserau chwarae yn yr ysgol

*Hyrwyddo datblygiad a ffordd iach o fyw:* gweithgareddau i ddatblygu iechyd cardiofasgwlaidd; gweithgareddau i ddatblygu cydbwysedd, sgil a chydymud cyhyrau mawr; gweithgareddau i ddatblygu hyblygrwydd, cryfder a dygnwch y cyhyrau; gweithgareddau i gynnal datblygiad sgiliau symud mân; gweithgareddau i gynnal datblygiad cydsymud llaw/llygad; gweithgareddau sy'n annog cydweithrediad, rhannu a chymryd tro ymhlith plant; effeithiau hir a byr dymor ymarfer corff ar gyfer babanod a phlant

*Cynllunio*: arsylwi ac asesu galluoedd plant o ran gweithgaredd corfforol; pennu nodau realistig; cynhwysol; rhagfynegi'r canlyniadau; cysylltu gweithgareddau â chwricwlwm perthnasol y famwlad; dyfeisio/cynllunio symudiadau neu drefniadau ymlaen llaw; cynllunio ysgrifenedig; dillad priodol; asesu risgiau yn unol â pholisi'r sefydliad a heb gyfyngu ar y cyfleoedd i estyn a herio sgiliau a phrofiad

*Gweithredu*: y cyfarpar a'r personél angenrheidiol; amgylchedd addas; iechyd a diogelwch; anogaeth a gwobr; cynhwysiad

*Darpariaeth ar gyfer plant ag anghenion penodol*: addysgu sgiliau sylfaenol; annog a monitro cynnydd a pherfformiad plant

*Gwerthuso*: arsylwi; gwella cyflwyniad gweithgaredd darparu ar gyfer cynnydd plant; ailadrodd sgiliau; gwella meysydd gwan; cymharu a chyferbynnu â'r amcanion a bennwyd ar gyfer y gweithgaredd; pennu nodau realistig

### 3 Deall addasiadau i ystod ddethol o weithgareddau corfforol ar gyfer babanod a phlant ag anghenion ychwanegol

*Caffael sgiliau corfforol*: canfyddiadol; proses symudiadau'r corff; dosbarthiad sgiliau symud

*Ffactorau sy'n effeithio ar ddatblygiad sgiliau*: ee parlys yr ymennydd, spina-bifida, dystroffi'r cyhyrau, asthma, cyflyrau cardiaidd, epilepsi, namau synhwyraidd

*Addasu gweithgareddau*: nam corfforol; nam synhwyraidd; anawsterau dysgu



## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio'r lefel cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
LL1 disgrifio strwythur, swyddogaeth a threfniant systemau'r corff, gan fanylu ar y gwahaniaethau rhwng systemau aeddfed ac anaeddfed		
LL2 disgrifio effeithiau ymarfer corff ar systemau'r corff a thwf a datblygiad	T1 egluro effeithiau ymarfer corff ar dwf a datblygiad	
LL3 disgrifio sut mae gweithgareddau corfforol yn hyrwyddo datblygiad iach	T2 egluro sut mae gweithgareddau corfforol yn hyrwyddo datblygiad iach	Rh1 gwerthuso manteision cymharol dau fath gwahanol o ymarfer corff o ran hyrwyddo datblygiad iach
LL4 cynllunio pedwar gweithgaredd corfforol sy'n briodol ar gyfer oeddrannau penodol, gan gyfeirio at arfer diogel a fframwaith perthnasol y cwricwlwm		

<b>Meini prawf graddio</b>		
<b>I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:</b>
<p>Ll5 gweithredu, monitro a chofnodi'r gweithgareddau a gynlluniwyd</p> <p>Ll6 disgrifio ffyrdd o addasu'r gweithgareddau ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol.</p>	<p>T3 egluro sut mae'r gweithgareddau a gyflawnwyd yn cyflawni'r amcanion cwricwlaidd perthnasol</p> <p>T4 egluro sut mae'r addasiadau'n peri bod y gweithgareddau'n hygyrch ac yn briodol ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol.</p>	<p>Rh2 gwerthuso'r gweithgareddau a gyflawnwyd a chyflwyno argymhellion ar gyfer gwelliannau</p> <p>Rh3 gwerthuso rôl y gweithgareddau a addaswyd wrth hyrwyddo datblygiad a ffordd iach o fyw i blant ag anghenion ychwanegol.</p>

## Uned 13: Effaith Polisi Cymdeithasol ar Ofal, Dysgu a Datblygiad Plant

FfCC Lefel 3: BTEC Cenedlaethol

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

---

### Crynodeb o'r uned

Mae'r uned hon yn rhoi i'r dysgwyr ddealltwriaeth o le'r ddarpariaeth ar gyfer gofal, dysgu a datblygiad plant yn yr agenda gymdeithasol a gwleidyddol ehangach.

Bydd y dysgwyr yn caffael gwybodaeth a dealltwriaeth o strwythur y llywodraeth yn eu mamwlad a'r prosesau sy'n ymwneud â llunio polisi. Wedyn byddant yn edrych ar rôl deddfwriaeth wrth lunio arferion y ddarpariaeth i blant. Hefyd ystyrir dylanwadau ar bolisiau o ran gofal, dysgu a datblygiad plant.

Mae'r uned hefyd yn edrych ar effaith deddfwriaeth gyfredol ar y ddarpariaeth i blant.

Mae'r uned hon yn addas ar gyfer dysgwyr sydd am ddatblygu dealltwriaeth eang o ofal, dysgu a datblygiad plant, ac a all fod yn awyddus i symud ymlaen i gyflogaeth mewn maes sy'n ymwneud â pholisi neu i addysg uwch.

### Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Ddeall strwythur y llywodraeth a'r systemau gweinyddol ar gyfer lluniopenderfyniadau polisi
- 2 Deall dylanwadau ar lunio polisi o ran gofal, dysgu a datblygiad plant
- 3 Deall sut mae deddfwriaeth yn dylanwadu ar arfer
- 4 Deall effeithiau polisi cymdeithasol ar strwythurau a swyddogaethau'r teulu.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall strwythur y llywodraeth a'r systemau gweinyddol ar gyfer llunio penderfyniadau polisi

*Lefelau'r llywodraeth a'u heffaith ar benderfyniadau polisi:* o ran y famwlad; llywodraeth leol; llywodraeth ganolog; holl adrannau'r llywodraeth; Yr Undeb Ewropeaidd

*Y famwlad:* ee Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon

*Y broses o lunio polisiâu:* sut caiff cyfreithiau eu llunio; cynyddu ymwybyddiaeth, comisiynu ymchwil, argymhellion, Papur Gwyrdd, Papur Gwyn

### 2 Deall dylanwadau ar lunio polisi o ran gofal, dysgu a datblygiad plant

*Sail wleidyddol:* ideoleg o ran gofal, dysgu a datblygiad plant; persbectifau gwleidyddol gwahanol

*Dylanwadau:* newid demograffig; carfannau pwysau; y cyfryngau torfol; cyrff rhyngwladol, Ewropeaidd, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol

*Newid demograffig:* ffactorau sy'n effeithio ar dueddiadau demograffig; polisi cymdeithasol o ran mudo mewnol, mudo allanol, cyfraddau geni a marw

*Mathau o garfannau pwysau:* ffurfiol, anffurfiol, lleol, cenedlaethol

*Diben a swyddogaeth carfannau pwysau:* ee y Grŵp Gweithredu yn erbyn Tlodi Plant, Cymdeithas Genedlaethol Lles Plant mewn Ysbyty, Gingerbread, Fathers 4 Justice

*Dylanwad carfannau pwysau:* cynyddu ymwybyddiaeth; newidiadau ym mholisi'r llywodraeth; effaith carfannau pwysau a gweithredu ar y cyd

*Ystod o gyrff:* senedd Ewrop; cyrff cenedlaethol, ee Ofsted; llywodraeth leol a rhanbarthol a'u dylanwad ar leoliadau blynyddoedd cynnar, ee Partneriaethau Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

*Polisiâu rhyngwladol/Ewropeaidd allweddol:* ee Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989, Pennod Gymdeithasol yr Undeb Ewropeaidd 1991, Cyfarwyddeb Absenoldeb Beichiogrwydd 1992, Cyfarwyddeb Amser Gweithio 1993

*Rheolaeth ac effaith:* rheolaeth y llywodraeth ganolog ar lywodraeth leol; rôl y Gymuned Ewropeaidd a'i dylanwad ar bolisi cymdeithasol Prydain wrth ymdrin â materion gofal plant allweddol, ee trais, bwlio, diogelwch plant

### 3 Deall sut mae deddfwriaeth yn dylanwadu ar arfer

*Sail wleidyddol*: polisi cymdeithasol o ran gofal, dysgu a datblygiad plant; persbectifau gwleidyddol gwahanol

*Deddfwriaeth allweddol*: adrannau perthnasol o'r canlynol, ee Deddf Amddiffyn Plant 1999, Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001, Deddf Plant 1989 a 2004, Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005, Deddf Gallu Meddyliol 2005, Deddf Gofal Plant 2006

*Cyd-destun hanesyddol*: adrannau perthnasol o'r polisiâu sydd wedi dylanwadu ar y ddarpariaeth bresennol i blant, ee Deddf Butler 1944, Adroddiad Plowden 1968, Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975, Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976, Adroddiad Rumbold 1990, Deddf Addysg Feithrin ac Ysgolion a Gynhelir drwy Grantiau 1996

*Materion cyfredol*: fel sy'n briodol ar gyfer y famwlad; materion a thueddiadau cyfredol ym mhoholi'r llywodraeth o ran y sector plant, ee Mae Pob Plentyn yn Bwysig, y Fframwaith Canlyniadau, Gwasanaethau Integredig, Gwasanaethau i Blant, Ymddiriedolaethau Plant, Cychwyn Cadarn, ysgolion estynedig, canolfannau plant, gofal dechrau a diwedd dydd, amddiffyn plant, y Fframwaith Asesu Cyffredin, Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar, y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol i Blant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth, Craidd Cyffredin o Sgiliau a Gwybodaeth ar gyfer y Gweithlu Plant/unedau cyffredin, Y Fframwaith Cymwysterau Integredig, trefniadau partneriaeth, gwaith aml-asantiaeth, datblygu'r gweithlu

### 4 Deall effeithiau polisi cymdeithasol ar strwythurau a swyddogaethau'r teulu

*Strwythurau a swyddogaethau'r teulu*: nodweddion y teulu modern, sefydlogrwydd; dylanwad polisi cymdeithasol

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo'n disgrifio'r lefel o gyrhaeddiad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
<p>LL1 disgrifio lefelau'r llywodraeth sy'n berthnasol i'r famwlad</p> <p>LL2 disgrifio'r broses o lunio polisi</p> <p>LL3 defnyddio dwy enghraifft i ddangos sut mae ideoleg a phersbectif gwleidyddol yn dylanwadu ar bolisi cymdeithasol</p> <p>LL4 defnyddio tair enghraifft i ddisgrifio'r dylanwadau posib ar benderfyniadau polisi cymdeithasol yng nghyswllt y ddarpariaeth ar gyfer gofal, dysgu a datblygiad plant</p>	<p>T1 defnyddio enghreifftiau i egluro swyddogaeth carfannau pwysau wrth ddylanwadu ar benderfyniadau polisi cymdeithasol yng nghyswllt y ddarpariaeth ar gyfer gofal, dysgu a datblygiad plant</p>	<p>Rh1 gwerthuso swyddogaeth carfannau pwysau wrth ddylanwadu ar benderfyniadau polisi cymdeithasol yng nghyswllt y ddarpariaeth ar gyfer gofal, dysgu a datblygiad plant</p>

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
<p>Ll5 defnyddio tair enghraifft i ddisgrifio materion a thueddiadau cyfredol ym mholisi'r llywodraeth yng nghyswllt gofal, dysgu a datblygiad plant</p> <p>Ll6 disgrifio effeithiau posib polisi cymdeithasol o ran y teulu.</p>	<p>T2 defnyddio enghreifftiau i ddadansoddi effeithiau posib tueddiadau cyfredol ym mholisi'r llywodraeth yng nghyswllt y ddarpariaeth ar gyfer gofal, dysgu a datblygiad plant</p> <p>T3 dadansoddi rôl polisi cymdeithasol o ran y teulu.</p>	<p>Rh2 gwerthuso effeithiau posib tueddiadau cyfredol ym mholisi'r llywodraeth yng nghyswllt y ddarpariaeth ar gyfer gofal, dysgu a datblygiad plant.</p>

# Uned 14: Persbectifau Seicolegol ar Ymddygiad Plant

FfCC Lefel 3: BTEC Cenedlaethol

Oriau dysgu dan arweiniad: 90

---

## Crynodeb o'r uned

Mae'r uned hon yn darparu cyflwyniad i bersbectifau seicolegol ar sut mae ymddygiad yn datblygu a'r strategaethau ymddygiad y gellir eu defnyddio i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol gan blant.

Mae dysgwyr sydd â gwybodaeth am theori seicoleg elfennol plant yn medru cynnal arsylwadau, gweithgareddau a thechnegau ymyrraeth ymddygiad gyda mwy o ddealltwriaeth o'r rhesymau gwaelodol pam mae plant yn ymddwyn fel y maent.

Bydd dysgwyr yn ystyried effeithiau perthnasoedd cynnar a chyfnodau o drawsnewid, ac wedyn yn edrych ar theorïau ac egwyddorion sylfaenol sy'n ymwneud â datblygiad plant a seicoleg ddatblygiadol. Fe'u hanogir i archwilio ffactorau arwyddocaol sy'n effeithio ar ymddygiad. Wedyn ymchwilir i ystod o ddulliau a strategaethau sy'n ceisio annog tueddiadau ymddygiad dymunol, a chyfyngu ar dueddiadau annymunol.

## Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Ddeall prif bersbectifau theoretig seicoleg ddatblygiadol, sy'n egluro sut mae ymddygiad plant yn datblygu
- 2 Deall sut mae perthnasoedd cynnar yn cael eu ffurfio
- 3 Deall y ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad plant
- 4 Deall gwahanol ddulliau o ymdrin ag ymddygiad heriol
- 5 Deall technegau ar gyfer monitro effeithiolrwydd gweithredu strategaethau ymddygiad.



## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall prif bersbectifau theoretig seicoleg ddatblygiadol, sy'n egluro sut mae ymddygiad plant yn datblygu

*Dadleuon ym maes seicoleg ddatblygiadol:* natur yn erbyn magwraeth; parhad yn erbyn diffyg parhad; nomothetig yn erbyn idiograffig

*Prif bersbectifau seicolegol:* ymddygiadol, dysgu cymdeithasol, seicodeinamig, dyneiddiol, gwybyddol, datblygiadol; fel y'u cymhwysir i ddealltwriaeth o ddatblygiad ymddygiad

*Cymhwyso theorïau i ddatblygiad:*

- Datblygiad gwybyddol: dull Piaget, beirniaid Piaget, ee Donaldson; Vygotsky; Bruner; dull prosesu gwybodaeth, Beck, Ellis, amgodio, ee Anhwyllder Gorfywiogrwydd Diffyg Canolbwyntio
- Datblygiad iaith: persbectif ymddygiadol (Skinner); persbectif gynhenid (Chomsky); cyn-ieithyddol, ffonolegol, semantig
- Datblygiad yr hunan: Rogers, Maslow; dull gwybyddol-ddatblygiadol, ee Selman; theori dysgu/amgylcheddol, ee Bandura; theori ryngberonol, ee Cooley a Mead
- Caffael ymddygiad: ymddygiadol – clasurol a chyflyru'r gweithredydd; dysgu cymdeithasol (Bandura); seicodeinamig (Freud); datblygu personoliaeth (Freud, Erikson)

### 2 Deall sut mae perthnasoedd cynnar yn cael eu ffurfio

*Theorïau ymlyniad:* cyfnodau ymlyniad; ymlyniadau lluosog; gwahanu ac amddifadu, ee Ainsworth, Bowlby, Schaffer, Emerson, Robertson a Robertson, Rutter; ynysu, ee Koluchova

*Datblygu ymlyniad:* bwydo; cyswllt corfforol; rhoi gofal ac amser; sensitifrwydd; ymatebolrwydd; gwahaniaethau unigol, damcaniaeth parhad

*Theorïau hanesyddol ynghylch dulliau o fagu plant:* ee Spock, Leach, Kitzinger, Lorenz; theorïau sy'n bwydo i arfer cyfredol

*Swyddogaeth y teulu:* ee cyflyrau lles y teulu, ymlyniad, strwythurau cefnogi, brodyr a chworydd, cnewyllyn a theulu estynedig, pwysigrwydd cytundeb teuluol ar ddulliau o ymddwyn

### 3 Deall y ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad plant

*Dulliau o ymdrin ag ymddygiad:* ee defnydd o iaith, dulliau cadarnhaol, dulliau negyddol; plant ag anghenion ychwanegol, theorïau ymddygiadol, Steiner

*Trawsnewid:* ee newid o un lleoliad i un arall, cychwyn yn yr ysgol, symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, aeddfedrwydd, digwyddiadau bywyd megis profedigaeth, teulu'n chwarae, anifail anwes yn marw

*Ffactorau corfforol:* ee dylanwadau genetig, anableddau, datblygiad yr ymennydd, cyfathrebu - datblygu clyw a llefaredd, aeddfedrwydd/glasoed

*Ffactorau sy'n ymwneud â iechyd:* ee trawma wrth eni, trafferthion yn ystod beichiogrwydd, adwaith posib i frechiad, meddyginiaeth

*Ffactorau sosio-economaidd:* ee cymdeithasoli cynnar, dosbarth cymdeithasol, rhyw, ethnigrwydd/diwylliant, ariannol, tai, cymunedol, trais/bwlio, dylanwadau teuluol

*Dylanwadau teuluol:* ee cyflwr o les, diogeled, perthnasoedd cynnar, rhieni unigol, cnewyllyn a theulu estynedig, brodyr a chwiorydd, cymesur ac wedi'u hailgyfuno, strategaethau magu plant, disgyblaeth, iaith, gwahaniaethau diwylliannol, dylanwadau crefyddol, arferion, credoau, ffyrdd o fyw, maeth, gofod personol, delweddau cadarnhaol, delweddau negyddol, esiamplau ymddygiad, sŵn, cyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth, dewis, meithrin hyder; proffwydoliaeth sy'n ei chyflawni ei hunan; y cwricwlwm cudd

*Effeithiau:* ee ar hunan-barch a'r cysyniad o'r hunan, gallu i ymdopi, cyflwr meddyliol, meddwl yn gadarnhaol neu'n negyddol, cynhwysiad neu eithrio cymdeithasol, gyrru i'r cyrion, cyflyrau caeth, cylch amddifadedd

*Ymddygiad:* ymddygiad rhag-gymdeithasol; ymddygiad gwrthgymdeithasol

#### 4 Deall gwahanol ddulliau o ymdrin ag ymddygiad heriol

*Cydymffurfiaeth:* theorïau cydymffurfiaeth, rhesymau pam nad yw pobl yn cydymffurfio, amgylchiadau lle mae pobl yn fwy tebygol o gydymffurfio

*Ymddygiad heriol:* ymddygiad gwrthgymdeithasol, trallod, anghenion ychwanegol

*Ymddygiad gwrthgymdeithasol:* ee ymddwyn yn heriol, ffrwydriadau ymosodol, bwlio, lliid, ymosodedd, manipwleiddio, gwrthod cydymffurfio, cnoi, ceisio sylw, nodweddion plant dwy oed

*Trallod:* ee llefain, gwrthod gollwng, ofn, pryder; Robertson a Robertson

*Anghenion ychwanegol:* ee anawsterau dysgu, plentyn dawnus

*Strategaethau ar gyfer delio gydag ymddygiad heriol:* ee grymuso plant, galluogi'r plant i fod yn rhagweithiol o ran eu canlyniadau eu hunain, technegau disgyblu pendant, gwobrau a chanlyniadau, pennu cyfeiriadau, contractau rhieni/plant, siartiau gwobrwyo a modelau cymell, cyfathrebu trwy gardiau/lluniau/bathodynau, iaith y corff a goslef y llais, gemau a dulliau cynhwysol, defnyddio cyfarpar a thechnegau gemau arbenigol - ee offer chwarae synhwyrdd, modelau cwnsela - ee cwnsela cyfannol, therapi lliw/celf, doliau personoliaeth, ymddygiad amddiffynnol, rhwydweithiau personol, cynlluniau cyfeillio, cylch cyfeillion, 'amser tawelu'; polisïau lleoliad gwaith

*Grymuso rhieni:* strategaethau hunangynhaliol megis grwpiau cefnogi rhieni, grwpiau meithrin; dulliau therapi addysg gyfannol, therapi ymddygiad sy'n canolbwyntio ar y teulu

*Rolau ac asiantaethau cefnogi:* ee nyrsys ysgol, ymwelwyr iechyd, seicolegwyr addysg, seicolegwyr clinigol, gwasanaethau plant a theuluoedd, gwasanaethau i blant, gweithwyr cymdeithasol addysg, gweithwyr cymdeithasol, athrawon cefnogi, cwyselwyr, therapyddion lleferydd, therapyddion addysg cyfannol; dulliau gofal iechyd cyflenwol yng nghyd-destun addysg, ee Campfa'r Ymennydd, tylino babanod; asiantaethau ar gyfer polisiâu cynhwysiad/eithrio, timau Cefnogi Ymddygiad ac Addysg, Rhaglen Gwella Ymddygiad, Polisi 'Mae Pob Plentyn yn Bwysig'; Cychwyn Cadarn; cefnogaeth yn y dosbarth, gweinyddesau meithrin, gweithwyr proffesiynol blynyddoedd cynnar, cefnogaeth ddysgu, mentoriaid dysgu

*Cyfrinachedd:* ee gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â datgelu, amheuron ynghylch camdriniaeth, trais yn y cartref, esgeuluso; materion amddiffyn plant, diogelu data

**5 Deall technegau ar gyfer monitro effeithiolrwydd gweithredu strategaethau ymddygiad**

*Arsylwi:* arsylwi plant yn y dosbarth/man chwarae/cartref

*Ymgynghori:* holiaduron gyda'r rhiant neu'r gofalwr/athro/athrawes/plentyn; cysylltu â gweithwyr cefnogi proffesiynol, proffiliau ymddygiad

*Casglu data:* ee data ansoddol a meintiol, dyddlyfrau, logiau digwyddiadau ymddygiad, siartiau gwobrwyo, tracio, pennu nodau, Cynlluniau Addysg Unigol, gweithdrefnau ar gyfer rhoi adborth i'r plentyn/rhiant/gweithwyr proffesiynol

*Cyfyngiadau'r holl ddulliau hyn a chydabod dull cyfannol o fonitro ymddygiad*

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio'r lefel cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
LL1 disgrifio tair dadl ym maes seicoleg ddatblygiadol	T1 dadansoddi un dadl ym maes seicoleg ddatblygiadol	
LL2 amlinellu'r prif bersbectifau seicolegol a gymhwysir i ddealltwriaeth o ddatblygiad ymddygiad plant		
LL3 disgrifio rôl perthnasoedd cynnar yn natblygiad ymddygiad plant	T2 defnyddio enghreifftiau o leoliad gwaith i egluro sut mae theori ddatblygiadol yn dylanwadu ar rai meysydd arfer blynyddoedd cynnar	Rh1 dadansoddi cyfraniad y prif bersbectifau datblygiadol i arfer yn y blynyddoedd cynnar
LL4 disgrifio chwe ffactor a all effeithio ar ymddygiad plant		
LL5 amlinellu pedair strategaeth wahanol ar gyfer rheoli ymddygiad	T3 egluro effeithiolrwydd posib pedair strategaeth wahanol ar gyfer rheoli ymddygiad	Rh2 gwerthuso effeithiolrwydd posib pedair strategaeth wahanol ar gyfer rheoli ymddygiad.

<b>Meini prawf graddio</b>		
<b>I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:</b>
<p>Ll6 nodi ystod o rolau cefnogi perthnasol ac asiantaethau a ddefnyddir wrth reoli ymddygiad</p> <p>Ll7 disgrifio dulliau y gellid eu defnyddio i werthuso effeithiolrwydd strategaethau ar gyfer rheoli ymddygiad.</p>	<p>T4 egluro'r gwahanol ddulliau a ddefnyddir i werthuso effeithiolrwydd y strategaethau ar gyfer rheoli ymddygiad.</p>	

# Uned 15: Rheoli Amgylchedd Blynyddoedd Cynnar neu Waith Chwarae

FfCC Lefel 3 : BTEC Cenedlaethol

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

---

## Crynodeb o'r uned

Rhoddodd Deddf Plant 2004 ffocws clir a statws newydd i wasanaethau plant, ac roedd ei weithrediad yn rhan o broses ehangach o newid, oedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn cael ei yrru yn ei flaen gan raglenni newid lleol oddi mewn i fframwaith cenedlaethol. Rhan annatod o'r newidiadau yw'r angen cynyddol am reolaeth ac arweiniad effeithiol yn y gweithlu plant.

Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwyr yr wybodaeth sylfaenol angenrheidiol i ddatblygu sgiliau rheoli. Ar y cychwyn, bydd y dysgwyr yn dod i ddeall systemau gweithrediadol megis rheoli cyllidebau, cofnodion gweithrediadol, cyflenwi cyfarpar, a'r gofynion arolygu. Wedyn byddant yn archwilio'r prosesau sy'n ymwneud â sefydlu a chynnal gwasanaeth i blant, gan gynnwys rheoli perthynas gyda rhieni/gwarcheidwaid cyfreithiol. Bydd hyn yn cynnwys trafod y gofynion, contractau cytundeb a systemau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth gyda rhieni/gwarcheidwaid cyfreithiol.

Yn olaf, bydd y dysgwyr yn edrych ar agweddau ar reoli pobl, yn cynnwys gweithdrefnau recriwtio a chadw a pherthnasoedd proffesiynol yn y gweithle. Byddant yn ystyried pwysigrwydd gwaith tîm, perthnasoedd effeithiol, a sut i reoli unrhyw wrthdaro a all godi.

Bydd yr uned hon yn baratoad defnyddiol ar gyfer y dysgwyr hynny sydd am symud ymlaen i gyflogaeth yn y sector plant.

## Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Ddeall systemau gweithrediadol lleoliadau blynyddoedd cynnar neu waith chwarae
- 2 Deall y prosesau sy'n ymwneud â sefydlu a chynnal gwasanaeth blynyddoedd cynnar neu waith chwarae
- 3 Deall gweithdrefnau recriwtio a chadw mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar neu waith chwarae i blant
- 4 Deall perthnasoedd proffesiynol yn y gweithle.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall systemau gweithrediadol lleoliadau blynyddoedd cynnar neu waith chwarae

*Cofnodion gweithrediadol:* yn unol â gofynion awdurdod rheoliadol y famwlad; mathau a diben cofnodion, yr angen am gywirdeb/gofynion cyfreithiol; storio, cyfnewid a diweddarau gwybodaeth yn briodol; gofynion a materion cyfrinachedd; effaith cadw cofnodion ar y gwasanaeth blynyddoedd cynnar neu waith chwarae; gofynion cofrestru fel sy'n briodol

*Math a diben y cofnod:* ee presenoldeb, ymarfer tân, damweiniau a digwyddiadau, gweinyddu moddion, diogeledd (ee llyfr ymwelwyr), gwiriadau iechyd a diogelwch, casglu arian (ee talu am daith neu brydau bwyd), archebu a dosbarthu cyflenwadau

*Gofynion arolygu:* ee Ofsted, y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch

*Systemau rheolaeth ariannol:* ee dyrannu cyllideb, monitro incwm a gwariant drwy ddefnyddio cofnodion a thaenlenni, archebu cyflenwadau, awdurdodi gwariant; rôl y rheolwr/pennaeth a'r llywodraethwyr (is-bwyllgor cyllid) o ran rheolaeth ariannol; dulliau rheolwyr/penaethiaid a llywodraethwyr o gofnodi a chraffu ar incwm a gwariant; rôl y cyfrifydd a'r archwilydd o ran rheolaeth ariannol; canlyniadau posib rheolaeth aneffeithiol ar y gyllideb

*Rheoli cyflenwadau'n effeithiol:* ee pwysigrwydd cyfrif stoc a defnydd priodol o gyflenwadau gan staff, dewis cyflenwyr a sicrhau nwyddau o ansawdd am bris cystadleuol, trafod contractau cyflenwi, archebu cyflenwadau a llenwi ffurflenni archebu'n effeithiol, monitro archebion, gwirio dosbarthiadau, cywiro gwallau archebu a herio dosbarthiadau nwyddau sy'n anghywir

### 2 Deall y prosesau sy'n ymwneud â sefydlu a chynnal gwasanaeth blynyddoedd cynnar neu waith chwarae

*Nodi a thrafod y gwasanaethau sy'n ofynnol gyda rhieni/gwarcheidwaid cyfreithiol:* ee hyd y cyfnod yn y lleoliad (ee bore/prynhawn/sesiynau diwrnod yn y feithrinfa, mewn cylch chwarae neu leoliad gwaith chwarae), anghenion diet, patrymau cysgu, trefniadau penodol, credoau ac anghenion diwylliannol a chrefyddol, cefnogaeth ar gyfer anghenion ychwanegol, newidiadau diweddar mewn bywyd gartref a all effeithio ar ymddygiad a'r gallu i ymdopi â gwahanu

*Gwybodaeth am y gwasanaeth:* ee cost sesiynau, arian gan y llywodraeth ar gyfer plant tair oed a throsodd, cefnogaeth ariannol sydd ar gael, yswiriant, polisiâu sydd ar gael (ee anghenion arbennig, cyfle cyfartal a gwrth-wahaniaethu), strwythur/cymarebau/addasrwydd staffio, cwynion, adroddiadau Ofsted, darparu bwyd a diod - gan gynnwys canllawiau ar gyfer bwyta'n iach, gweithgareddau a ddarperir a'r gost (ee teithiau), iechyd a diogelwch - gan gynnwys cymorth cyntaf a diogelwch tân, rheoli salwch, damweiniau ac argyfyngau

*Contractau cytundeb rhwng rhieni/gwarcheidwaid cyfreithiol a'r lleoliad:* egluro'r contract i rieni/gwarcheidwaid cyfreithiol, gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer rhwystrau ieithyddol a sgiliau llythrennedd gwan; gwybodaeth i'w chynnwys, ee amser a dyddiau presenoldeb, adrodd am salwch/absenoldeb, cost ac amseriad taliadau, prydau ac anghenion diet penodol (ee bwydydd i'w hosgoi oherwydd alergedd neu fwydydd i'w darparu ar gyfer gofynion diwylliannol a chrefyddol), casglu'r plentyn (ee amserau a phwy fydd yn casglu), trefniadau argyfwng, cyfnod o rybudd ar gyfer dod â'r gwasanaeth i ben, cyfnod arbrofol cyn i'r contract ddod i rym

*Manylion penodol i'w trafod gyda'r rhieni/gwarcheidwaid cyfreithiol:* goblygiadau cyfreithiol llofnodi contract (cyfrifoldebau'r rhieni/gwarcheidwaid cyfreithiol a'r sefydliad); cyfnewid gwybodaeth rhwng y rhieni/gwarcheidwaid cyfreithiol a'r lleoliad, ee llythyr, dyddiadur cartref-ysgol, ffôn, ymweliadau rhieni/gwarcheidwaid cyfreithiol â'r lleoliad, ymweliadau cartref; gwybodaeth benodol am drefn ddyddiol y plentyn, ee diet, cwsg, iechyd a datblygiad, cyflyrau meddygol penodol a gweinyddu moddion neu driniaeth; patrymau ymddygiad; rhannu pryderon ynghylch lles a chynnydd y plentyn, ee addysg, datblygiad ac ymddygiad

### 3 Deall gweithdrefnau recriwtio a chadw mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar neu waith chwarae i blant

*Polisiau a gweithdrefnau cyflogaeth:* deddfwriaeth a chyfraith cyflogaeth sy'n ymwneud â recriwtio a dethol ymarferwyr blynyddoedd cynnar a gwaith chwarae; materion cydraddoldeb ac amrywiaeth; prosesau a gofynion recriwtio mewnol ac allanol; darparu manyleb person, ee cymwysterau/profiad/nodweddion hanfodol a dymunol, statws o ran cymwysterau; darparu disgrifiad swydd, ee telerau ac amodau cyflogaeth, amlinelliad o'r dyletswyddau a'r terfynau; pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr; diben a dilysrwydd ffurflenni cais a CVs; gweithdrefnau craffu a llunio rhestr fer; gweithdrefnau cyfweld; cynnig amodol o gyflogaeth; geirdaon; contractau cyflogaeth, ee person sy'n gyfrifol am roi contractau, goblygiadau cyfreithiol contract, cyfnodau prawf a rhybudd; sgrinio'r Swyddfa Cofnodion Troseddol, Rhestr 99, rhestr PoCA; rôl yr adran adnoddau dynol; gweithdrefnau ar gyfer ymgeiswyr tramor; monitro recriwtio

*Gweithdrefnau cyfweld:* diben, proses a strwythur cyfweliadau, gwiriadau cyn cyfweld, gwahodd am gyfweliad, panel cyfweld, technegau cyfweld, defnyddio ffurflenni cais a CVs mewn cyfweliad; cyflwyniadau; gofynion cyfreithiol a deddfwriaethol, ee Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, Lles a Hawliau Gweithwyr; Cyfleoedd Cyfartal ac Arfer Gwrth-wahaniaethol (ee Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd), Deddf Plant 2004

*Cadw staff:* proses sefydlu strwythuredig; cefnogi a chynghori; nodi a diwallu anghenion datblygu; meithrin ymddiriedaeth a chefnogaeth; goruchwyllo a mentora; rhaglenni ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus; monitro perfformiad, ee amcanion gwaith, adolygiadau

*Gweithdrefnau disgyblu:* gweithdrefnau ar gyfer ymdrin ag achosion o dorri, ee polisiau'r gweithle, contractau cyflogaeth; prosesau disgyblu, prosesau diswyddo



#### 4 Deall perthnasoedd proffesiynol yn y gweithle

*Perthnasoedd gwaith effeithiol:* perthnasoedd proffesiynol, arwain tîm/gweithio mewn tîm, pwysigrwydd sgiliau cyfathrebu effeithiol (ar lafar ac ar bapur); dulliau effeithiol o arwain a rheoli, gan gynnwys darparu cefnogaeth briodol ac adborth adeiladol i'r staff; meithrin ymddiriedaeth fel rheolwr ac arweinydd

*Rôl y tîm amlddisgyblaeth yn y lleoliad:* ee gweithwyr proffesiynol blynyddoedd cynnar, athrawon, ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymdeithasol, gwasanaethau nyrsio cymunedol, gweithwyr amddiffyn plant; cydweithio'n effeithiol ar lefel broffesiynol; dulliau o gysylltu a chyfathrebu â gweithwyr proffesiynol o fewn - a'r tu allan - i'r lleoliad; rhannu gwybodaeth; proses a systemau ar gyfer adolygu anghenion cefnogi a chynnydd plant; codi llais dros blant

*Rheoli gwrthdaro:* achosion cyffredin am wrthdaro yn y gweithle, ee gwrthdaro rhwng dwy bersonoliaeth, gwrthwynebiad i syniadau newydd/newid, camddeall gwybodaeth/cyfathrebu; sut mae lleiafu'r gwrthdaro, ee trwy ddull effeithiol o arwain/rheoli, annog staff i drafod a datrys materion heb ymyrraeth lle bo modd; rheoli a datrys gwrthdaro fel rheolwr/arweinydd, cofnodi a monitro sefyllfaoedd lle bu gwrthdaro

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio'r lefel cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
LL1 nodi tair system weithrediadol mewn lleoliad blynyddoedd cynnar neu waith chwarae ac egluro'u diben	T1 dadansoddi sut mae'r tair system weithrediadol yn effeithio ar y gwasanaeth blynyddoedd cynnar neu waith chwarae	Rh gwerthuso system weithrediadol gyfredol ar gyfer rheoli ac archebu cyflenwadau yn y lleoliad blynyddoedd cynnar neu waith chwarae
LL2 disgrifio prif nodweddion cadw cofnodion ariannol cywir		
LL3 disgrifio'r broses o sefydlu cytundeb rhwng rhieni/gwarcheidwaid cyfreithiol a'r lleoliad ynghylch y gwasanaeth i'w ddarparu i blentyn	T2 datblygu contract y gellid ei ddefnyddio i sefydlu'r gwasanaeth i'w ddarparu i blentyn gan leoliad blynyddoedd cynnar neu waith chwarae	
LL4 nodi'r polisiâu a'r gweithdrefnau recriwtio yn y lleoliad blynyddoedd cynnar neu waith chwarae		

<b>Meini prawf graddio</b>		
<b>I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:</b>
<p>Ll5 disgrifio rhaglen sefydlu ar gyfer gweithwyr blynyddoedd cynnar neu weithwyr chwarae newydd, gan nodi ei gwerth posib o ran eu cefnogi</p> <p>Ll6 defnyddio enghreifftiau o leoliadau gwaith i ddisgrifio sut gall arweiniad a rheolaeth effeithiol leihau gwrthdaro.</p>	<p>T3 dadansoddi ystod o strategaethau i gefnogi gweithwyr blynyddoedd cynnar neu weithwyr chwarae newydd a hyrwyddo datblygiad proffesiynol</p> <p>T4 dadansoddi sefyllfa lle bu gwrthdaro yn y gweithle a sut cafodd ei datrys.</p>	<p>Rh2 llunio cynllun gweithredu adfyfyriol ar gyfer datblygu rheolaeth effeithiol ar dîm o weithwyr blynyddoedd cynnar neu weithwyr chwarae, a phartneriaethau llwyddiannus gyda rhieni/gwarcheidwaid cyfreithiol.</p>

# Uned 16: Hyfforddi a Mentora Plant

FfCC Lefel 3: BTEC Cenedlaethol

Oriau dysgu dan arweiniad: 30

---

## Crynodeb o'r uned

Mae'r uned hon yn darparu cyflwyniad i rôl bosib hyfforddiant a mentora wrth gefnogi dysgu a datblygiad plant, a sut gall y gefnogaeth hon wella profiadau addysgol y plant a helpu i feithrin eu hyder. Mae'r diffiniadau o'r termau hyfforddi a mentora eu hunain yn destun trafodaeth mewn proffesiwn sy'n dal i ddatblygu. Bydd yr uned hon, felly, yn caniatáu i'r dysgwyr ddeall rhai o'r dadleuon ynghylch terminoleg.

Bydd y dysgwyr yn dod i ddeall prosesau hyfforddi a mentora, a sut y gellir eu defnyddio'n effeithiol. Byddant yn medru datblygu ac ymarfer rhai o'r sgiliau angenrheidiol i hyfforddi a mentora mewn sefyllfa a efelychir.

Bydd y dysgwyr hefyd yn medru edrych ar effeithiolrwydd posib hyfforddi a mentora, a chânt eu hannog i adolygu eu datblygiad eu hunain o ran y sgiliau a'r nodweddion angenrheidiol.

Mae cysylltiadau cryf ag *Uned 4: Myfyrio ar Arfer ar gyfer Plant 0-8 oed a'i Ddatblygu*, ac *Uned 7: Gweithgareddau Dysgu Plant a Chwarae*.

## Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Ddeall y broses o hyfforddi a mentora
- 2 Deall effaith bosib proses hyfforddi a mentora ar ddysgu a datblygiad plant.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall y broses o hyfforddi a mentora

*Hyfforddi a mentora:* nodweddion tebyg a gwahaniaethau terminoleg; gogwydd a stereoteipio yn y broses hyfforddi neu fentora - effaith agweddau, gwerthoedd a chredoau personol; pwysigrwydd adborth adeiladol; rhwystrau i fynegiant plant; egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth ac arfer gwrth-wahaniaethol

*Sgiliau:* sgiliau cyfathrebu, gan gynnwys geiriol a di-eiriau, gwrando empathig ac actif, crynhoi ac adfyfrio i ddatblygu cydberthynas, holi priodol, annog plant i fynegi nodau a disgwyliadau, annog plant i ddefnyddio technegau datrys problemau, annog hyrwyddo penderfyniadau annibynnol, addasu'r dull i ddiwallu anghenion plant; deall eu parodrwydd eu hunain i hyfforddi neu fentora

*Cynllun gweithredu:* pwysigrwydd fframwaith moesegol; cynllunio a pharatoi; archwilio canlyniadau a disgwyliadau; datblygu cynllun gweithredu; amcanion CAMPUS; cefnogi plant i roi'r cynllun gweithredu ar waith; opsiynau cyfeirio; adolygu'r broses gyfan a gwerthuso'r canlyniadau

### 2 Deall effaith bosib proses hyfforddi a mentora ar ddysgu a datblygiad plant.

*Ffactorau sy'n effeithio ar ddysgu a datblygiad plant:* amgylcheddol, ee dosbarthiadau mawr; cymdeithasol ac emosiynol, ee cefndir teuluol, hunan-gysyniad; gwybyddol, ee canolbwyntio, gallu i ddatrys problemau

*Arddulliau a dulliau dysgu:* - beth ydynt a sut maent yn wahanol ar gyfer pob plentyn - Clywedol, Gweledol, Cinesthetig/Cyffyrddol, sut gall plant gyflwyno gwahanol arddulliau dysgu a dewisiadau mewn gwahanol gyd-destunau dysgu; Model Gregorc - diriaethol yn erbyn haniaethol, ar hap yn erbyn dilyniannol; dulliau o nodi anghenion, arddulliau a dulliau dysgu plant; profion diagnostig, technegau arsylwi; effaith y broses hyfforddi a mentora ar ganfyddiadau plant o ddysgu

*Adolygu'r broses hyfforddi neu fentora a gwerthuso'r canlyniadau:* gwerthuso'r canlyniadau gyda'r plant i ddeall a gyflawnwyd y nodau ai peidio, sefydlu cytundeb i ddod â'r broses i ben, cymharu'r canlyniadau a'r disgwyliadau, cynllunio ar gyfer y dyfodol; myfyrio ar eu dealltwriaeth eu hunain; ystyried deddfwriaeth benodol; canllawiau arfer da - Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol; Mae Pob Plentyn yn Bwysig

*Rolau a chyfrifoldebau o fewn y broses hyfforddi neu fentora:* effaith rhanddeiliaid ar y penderfyniad i ddod â hyfforddi neu fentora i ben, gwerthuso'r canlyniadau gyda rhanddeiliaid; ymwybyddiaeth o derfynau a phwysigrwydd cynnal cyfrinachedd; egluro rolau a disgwyliadau pawb

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio'r lefel cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
LL1 arddangos sgiliau hyfforddi a mentora mewn amgylchedd a efelychir LL2 disgrifio tri ffactor a all effeithio ar ddysgu a datblygiad plant LL3 disgrifio ystod o arddulliau dysgu a dulliau o nodi anghenion dysgu plant LL4 disgrifio sut gall anghenion dysgu a datblygiad plant gael eu cefnogi gan hyfforddiant neu fentora LL5 disgrifio'r rolau a'r cyfrifoldebau sy'n rhan o'r broses hyfforddi neu fentora.	T1 egluro effaith bosib eu hagweddu, eu gwerthoedd a'u credoau eu hunain ar y broses hyfforddi neu fentora T2 egluro sut gall hyfforddi neu fentora ddylanwadu ar ddysgu a datblygiad plant.	Rh1 dadansoddi sut gall defnydd effeithiol o sgiliau gefnogi'r broses hyfforddi neu fentora Rh2 dadansoddi sut gellir goresgyn ffactorau a all effeithio ar ddysgu a datblygiad plant trwy hyfforddiant neu fentora.

# Uned 17: Cefnogi Sgiliau Rhifedd Plant

FfCC Lefel 3: BTEC Cenedlaethol

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

## Crynodeb o'r uned

Mae'r uned hon yn rhoi i'r dysgwyr yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i gefnogi datblygiad sgiliau rhifedd plant. Pwysleisiwyd yr angen am wella'r sgiliau hyn yn fwy yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a bu'r llywodraeth yn ymgyrchu i gefnogi'r datblygiad hwn.

Bydd y dysgwyr yn adeiladu ar eu dealltwriaeth o ddatblygiad plant wrth iddynt ddysgu am ddatblygiad dealltwriaeth fathemategol plant ifanc. Bydd dysgwyr yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon i'w helpu i gynllunio, cynnal a gwerthuso ystod o weithgareddau addas i gefnogi dealltwriaeth fathemategol gynyddol plant. Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i'r anawsterau a all ddod i ran plant wrth ddeall mathemateg.

Mae'r uned hon hefyd yn rhoi i'r dysgwyr ddealltwriaeth o fentrau cyfredol y cwricwlwm. Mae'n uned ddefnyddiol ar gyfer dysgwyr sydd am weithio mewn ysgol neu symud ymlaen i yrfa fel athro/athrawes. Cynghorir dysgwyr sydd am gael gyrfa ym myd addysg yn gryf i astudio *Uned 18 yn ogystal: Cefnogi Sgiliau Llythrennedd Plant*.

## Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Ddeall datblygiad sgiliau rhifedd plant
- 2 Deall ymgyrchoedd cenedlaethol cyfredol ac arweiniad cwricwlwm ynghylch datblygiad sgiliau rhifedd
- 3 Medru datblygu ystod o weithgareddau y gellir eu defnyddio i gynnal dealltwriaeth a defnydd plant o rifau
- 4 Medru datblygu ystod o weithgareddau y gellir eu defnyddio i gynnal datblygiad dealltwriaeth plant a'u defnydd o siapau, gofodau a mesurau.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall datblygiad sgiliau rhifedd plant

*Theoriau perthnasol:* sut mae plant yn datblygu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol ee Bruner, Piaget, Bruce, Athey; datblygu sgema; dysgu trwy chwarae

*Dilyniannau a chyfnodau:* deall cyfnodau dealltwriaeth fathemategol plant, ee gwybod enwau'r rhifau, cyfatebiaeth un i un, cadw'r rhif, gweld rhifau heb gyfrif

*Rôl yr oedolyn:* defnyddio geirfa fathemategol; arsylwi ac asesu; atgyfnerthu; canmol ac annog; gweithio gyda rhieni; pwysigrwydd gweithgareddau cynllunio sy'n adeiladu ar brofiad blaenorol ac yn canolbwyntio ar y plentyn; ymwybyddiaeth o amrywiaeth ac anghenion diwylliannol; mathau o gynllunio, ee unigol, tymor hir, tymor canolig, tymor byr; pwysigrwydd sefydlu perthynas effeithiol, hyderus a gofalgar gyda phlant; gwybod pryd a sut i ymyrryd; cyfrinachedd; cynhwysiad; ymateb i anghenion penodol

*Anghenion penodol:* diwallu anghenion dysgu unigol plant - oedi yn eu datblygiad, cyflyrau ac afiechydon wedi geni, ee colli clyw a golwg, dyscalcwla, ymateb i anawsterau mewn ffyrdd nad ydynt yn tanseilio hyder y plentyn; pryd a sut mae cyrchu cymorth, ee gweithiwr allweddol, ymgynghorwyr cwricwlwm, SENCO, ymwelydd iechyd; cefnogi plant y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt

### 2 Deall ymgyrchoedd cenedlaethol cyfredol a chanllawiau cwricwlwm sy'n ymwneud â datblygu sgiliau rhifedd

*Deddfwriaeth:* ee Deddf Plant 1989 a 2004, Adroddiad Warnock 1978, Cod Ymarfer 2001, fframwaith perthnasol y cwricwlwm

*Canllawiau cwricwlwm:* sy'n berthnasol i'r famwlad; canllawiau cwricwlwm ar gyfer Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar, yn benodol ym maes Datblygu Rhifedd; Cwricwlwm Cenedlaethol/Cwricwlwm Cymreig/Cwricwlwm Mathemateg Gogledd Iwerddon; y Strategaeth Rifedd Genedlaethol; dysgu trwy chwarae; effaith deddfwriaeth/canllawiau ar arfer

### 3 Medru datblygu ystod o weithgareddau y gellir eu defnyddio i gefnogi dealltwriaeth a defnydd plant o rifau

*Gweithgareddau:* sicrhau bod plant yn dysgu enwau'r rhifau; cyfatebiaeth un i un; gweithgareddau paru a threfnu; archwilio a chofnodi patrymau; problemau rhif, ee gemau cyfrif, posau rhif, rhigymau, llinellau rhif, trywydd mathemateg



*Deunyddiau, lleoliadau ac amgylcheddau:* pwysigrwydd darparu amrywiaeth eang o ddeunyddiau ac adnoddau ar gyfer profiadau mathemategol; galluogi plant i ddewis eu hadnoddau eu hunain; sut gall y lleoliad/yr amgylchedd effeithio ar ymwybyddiaeth fathemategol plant, ee arddangosfeydd; sut mae cynnal diddordeb, symbyliad a ffocws; sut mae defnyddio canmoliaeth ac adborth adeiladol i hyrwyddo dysgu pellach

**4 Medru datblygu ystod o weithgareddau y gellir eu defnyddio i gefnogi datblygiad dealltwriaeth a defnydd plant o siapau, gofodau a mesurau**

*Gweithgareddau:* sicrhau bod plant yn dysgu am siapau, gofodau, patrymau a mesurau, ee chwarae gyda thywod a dŵr, coginio, chwarae gydag amrywiaeth o wrthrychau siapau, adnabod ac enwi siapau 2D a 3D yn yr amgylchedd, defnyddio iaith safle a symudiad, mesur hyd ac arwynebedd, pwysau, cyfaint a lle, amser, iaith briodol

*Deunyddiau, lleoliadau ac amgylcheddau:* galluogi plant i ddewis a defnyddio cyfryngau gwahanol ar gyfer dosbarthu, arbrofi gyda siâp, gofod a phatrwm; cyfleoedd plant i ddefnyddio a chymhwyso mathemateg mewn tasgau ymarferol; annog plant i egluro'u meddyliau er mwyn cefnogi datblygiad eu rhesymu; sut mae cynnal diddordeb, symbyliad a ffocws; sut mae defnyddio canmoliaeth ac adborth adeiladol i hyrwyddo dysgu pellach

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio'r lefel cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
LL1 disgrifio dwy theori wahanol ynghylch sut mae dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol yn datblygu yn achos plant LL2 disgrifio cyfnodau datblygiad dealltwriaeth fathemategol plant LL3 disgrifio rôl yr oedolyn wrth ddatblygu sgiliau rhifedd plant LL4 disgrifio dylanwad un darn o ddeddfwriaeth/canllaw cwricwlwm ar gefnogi datblygiad sgiliau rhifedd plant LL5 datblygu dau weithgaredd i hyrwyddo sgiliau rhif plant LL6 datblygu dau weithgaredd i hyrwyddo dealltwriaeth plant o siâp, gofod a	T1 cymharu a chyferbynnu'r ddwy theori gan ddefnyddio enghreifftiau ymarferol  T2 egluro sut y defnyddir y ddeddfwriaeth dan sylw/arweiniad cwricwlwm mewn lleoliad blynyddoedd cynnar i hyrwyddo sgiliau rhifedd plant T3 rhoi un o'r gweithgareddau ar waith i hyrwyddo sgiliau rhif plant T4 rhoi un o'r gweithgareddau ar waith i gefnogi dealltwriaeth o siâp, gofod a	Rh1 gwerthuso effeithiolrwydd ymgyrchoedd cenedlaethol wrth hyrwyddo sgiliau rhifedd plant  Rh2 gwerthuso effeithiolrwydd y ddau weithgaredd a roddwyd ar waith.

mesur.	mesur.	
--------	--------	--

# Uned 18: Cefnogi Sgiliau Llythrennedd Plant

FfCC Lefel 3 : BTEC Cenedlaethol

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

---

## Crynodeb o'r uned

Mae sgiliau llythrennedd wedi cael eu hystyried yn elfen bwysig yn natblygiad plant ifanc ers amser hir. Mewn blynyddoedd diweddar, fodd bynnag, nodwyd bod lefelau llythrennedd pobl ifanc ar lefel is na'r hyn sy'n ofynnol gan gyflogwyr a sefydliadau addysg bellach/uwch. Mae hyn wedi arwain at ymgyrchoedd a thargedau newydd gan y llywodraeth a mwy o bwyslais ar lythrennedd mewn ysgolion. Bwriedir i'r uned hon baratoi dysgwyr i fod yn rhan o gefnogi sgiliau llythrennedd.

Mae'r uned yn cyflwyno'r dysgwyr i'r gwahanol theorïau ynghylch sut mae plant yn datblygu sgiliau cyfathrebu. Bydd dysgwyr yn adeiladu ar eu dealltwriaeth o ddatblygiad plant wrth iddynt ddysgu am gyfnodau datblygiad sgiliau siarad, darllen ac ysgrifennu plant. Byddant yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon i'w helpu i gynllunio, cynnal a gwerthuso ystod o weithgareddau i hyrwyddo llythrennedd plant.

Bydd dysgwyr yn ymchwilio i'r anawsterau a all wynebu plant wrth ddatblygu'r sgiliau llythrennedd hyn ac yn medru awgrymu strategaethau priodol i gefnogi'r rheiny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r uned hon hefyd yn rhoi i ddysgwyr ddealltwriaeth o ymgyrchoedd cwricwlwm cyfredol. Mae hon yn uned ddefnyddiol ar gyfer dysgwyr sydd am weithio mewn ysgol neu symud ymlaen i fod yn athrawon. Cynghorir dysgwyr sydd am gael gyrfa ym myd addysg yn gref i astudio hefyd *Uned 17: Cefnogi Sgiliau Rhifedd Plant*.

## Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Ddeall datblygiad sgiliau llythrennedd
- 2 Gwybod am yr ymgyrchoedd cenedlaethol cyfredol a'r arweiniad cwricwlwm sy'n ymwneud â datblygiad sgiliau llythrennedd plant
- 3 Medru rhoi ystod o weithgareddau siarad a gwranddo ar waith, y gellir eu defnyddio i gefnogi datblygiad sgiliau plant
- 4 Medru rhoi ystod o weithgareddau darllen ac ysgrifennu ar waith, y gellir eu defnyddio i gefnogi datblygiad sgiliau plant.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall datblygiad sgiliau llythrennedd

*Theoriau ynghylch datblygiad iaith:* ee Chomsky, Skinner, Piaget, Vygotsky, Bruner

*Dilyniannau a chyfnodau:* datblygu sgiliau siarad a gwranddo, darllen ac ysgrifennu; datblygiad motor mân sy'n ofynnol i ysgrifennu; dulliau o asesu sgiliau a datblygiad llythrennedd, y mathau o gofnodion a ddefnyddir

*Rôl yr oedolyn:* arsylwi ac asesu; atgyfnerthu; canmol ac annog; gweithio gyda rhieni; pwysigrwydd cynllunio gweithgareddau sy'n adeiladu ar brofiad blaenorol ac yn canolbwyntio ar y plentyn, nifer y plant dan sylw, yr ystod o anghenion y mae angen ymateb iddynt a'u datblygu yn sgil y gweithgareddau, ymwybyddiaeth o amrywiaeth ac anghenion diwylliannol; mathau o gynllunio, unigol, tymor hir, tymor canolig, tymor byr; pwysigrwydd sefydlu perthynas effeithiol, hyderus a gofalgwr gyda phlant, pryd a sut mae ymyrryd; cyfrinachedd; cynhwysiad; ymateb i anghenion penodol; lleihau'r rhwystrau i ddysgu, ee yr adnoddau sydd ar gael, lle, cysur, sŵn, pethau i dynnu sylw, diffyg hunan-barch, canolbwyntio gwael

*Anghenion penodol :* diwallu anghenion dysgu unigol plant - oedi yn eu datblygiad, cyflyrau ac afiechydon wedi geni, ee colli clyw a golwg, dysffasia, dyslecsia, dyspracsia; ymateb i anawsterau mewn ffyrdd nad ydynt yn tanseilio hyder y plentyn, pryd a sut mae cyrchu cymorth, ee gweithiwr allweddol, therapydd lleferydd, ymgynghorwyr cwricwlwm, ymwelydd iechyd; cefnogi plant y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt

### 2 Gwybod am yr ymgyrchoedd cenedlaethol cyfredol a'r arweiniad cwricwlwm sy'n ymwneud â datblygiad sgiliau llythrennedd plant

*Deddfwriaeth:* ee Deddf Plant 1989 a 2004, Adroddiad Warnock 1978, Cod Ymarfer 2001, fframwaith perthnasol y cwricwlwm

*Canllawiau cwricwlwm:* sy'n berthnasol i'r famwlad; arweiniad ar gyfer Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar, yn benodol maes dysgu ar gyfer cyfathrebu, iaith a llythrennedd; Cwricwlwm Cenedlaethol/Cwricwlwm Cymreig/Cwricwlwm Gogledd Iwerddon ar gyfer cyfathrebu, iaith a llythrennedd; y Strategaeth Lythrennedd Genedlaethol; dysgu trwy chwarae; effaith deddfwriaeth/canllawiau ar arfer

### 3 Medru rhoi ystod o weithgareddau siarad a gwranddo ar waith, y gellir eu defnyddio i gefnogi datblygiad sgiliau plant

*Gweithgareddau:* ee chwarae rôl, adrodd stori, sachau stori, cerddoriaeth, dawns, drama, tapiau stori, amser cylch, byd bychan

*Deunyddiau a ffynonellau:* storïau a'u defnydd wrth ddatblygu sgiliau gwranddo a deall; gwranddo a siarad am storïau a rhigymau ar lefel un i un, mewn grwpiau bach neu fel dosbarth cyfan; iaith lafar, barddoniaeth, recordydd tâp, canolfan wrando; adnoddau priodol ar gyfer y plant hynny y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt

**4 Medru rhoi ystod o weithgareddau darllen ac ysgrifennu ar waith, y gellir eu defnyddio i gefnogi datblygiad sgiliau plant**

*Cyd-destunau ar gyfer sgiliau darllen a deall:* sefyllfaoedd, rhannu darllen, darllen yn uchel ar eu pennau eu hunain, darllen er pleser, darllen cysylltiedig â gweithgareddau eraill, gwranddo ar storïau a rhigymau a'u trafod ar lefel un i un, mewn grwpiau bach, neu fel dosbarth cyfan; ciwiau a chonfensiynau, ee ciwiau ffonig, graffig a chyd-destunol, strwythur y testun, trefn y testun

*Ffurfiâu ysgrifennu:* ymwybyddiaeth o'r broses o ysgrifennu, cyfansoddi, nodweddion amrywiaeth o ffurfiâu/genres; defnyddio arddangosfeydd

*Gweithgareddau:* ee chwarae rôl, chwarae gyda thywod, paentio, sachau stori, gwneud printiau, patrymau, adrodd stori, barddoniaeth, cerddoriaeth, drama, oedolyn yn ysgrifennu drostynt, defnyddio technoleg, ysgrifennu ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd; llyfrau i grwpiau/unigolion; torri a gludo

*Deunyddiau, lleoliadau ac amgylcheddau:* pwysigrwydd darparu amrywiaeth eang o ddeunyddiau ac adnoddau ar gyfer darllen a phethau i ysgogi ysgrifennu; galluogi plant i ddewis eu deunyddiau darllen eu hunain a ffurfiâu ysgrifennu priodol ar gyfer cyd-destunau penodol; sut gall lleoliad/amgylchedd effeithio ar berfformiad darllen a deall plant

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio'r lefel cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
LL1 nodi dwy theori wahanol ynghylch datblygiad iaith	T1 cymharu a chyferbynnu'r ddwy theori ynghylch datblygiad iaith, gan ddefnyddio enghreifftiau ymarferol i gefnogi neu wrthddweud y theorïau	
LL2 disgrifio dilyniannau a chyfnodau datblygiad sgiliau darllen, ysgrifennu, siarad a gwrandao plant		
LL3 nodi un darn o ddeddfwriaeth/un ddogfen gwricwlwm, a'i dylanwad o ran cefnogi sgiliau llythrennedd plant	T2 egluro sut defnyddir y ddeddfwriaeth dan sylw/canllaw cwricwlwm mewn lleoliad plant i gefnogi datblygiad sgiliau llythrennedd	Rh1 gwerthuso effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth dan sylw/canllaw cwricwlwm wrth hyrwyddo sgiliau llythrennedd plant
LL4 disgrifio rôl yr oedolyn wrth ddatblygu sgiliau llythrennedd a diwallu anghenion penodol		

<b>Meini prawf graddio</b>		
<b>I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:</b>
Ll5 datblygu dau weithgaredd i hyrwyddo sgiliau siarad a gwranddo plant	T3 rhoi o leiaf un o'r gweithgareddau a gynlluniwyd ar waith i gefnogi datblygiad sgiliau siarad a gwranddo plant	Rh2 gwerthuso effeithiolrwydd y ddau weithgaredd a roddwyd ar waith.
Ll6 datblygu dau weithgaredd i hyrwyddo sgiliau darllen ac ysgrifennu.	T4 rhoi o leiaf un o'r gweithgareddau a gynlluniwyd ar waith i gefnogi datblygiad sgiliau darllen ac ysgrifennu plant.	



# Uned 19: Cefnogi Sgiliau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Plant

FfCC Lefel 3 : BTEC Cenedlaethol

Oriau dysgu dan arweiniad: 30

---

## Crynodeb o'r uned

Bydd yr uned hon yn rhoi i ddysgwyr ddealltwriaeth o sut gellir cefnogi plant yn ystod gweithgareddau dysgu sy'n defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Gellir cymhwyso'r uned hon i blant hyd at un ar bymtheg oed.

Bydd dysgwyr yn dod i ddeall rôl TGCh wrth gefnogi dysgu o fewn y cwricwlwm ac ar draws pynciau eraill y cwricwlwm. Byddant hefyd yn datblygu dealltwriaeth o gwmpas y technolegau sydd ar gael a'r ffaith fod y technolegau hyn wedi'u seilio ar gyd-destun, ac nad ydynt o reidrwydd ar gael i bawb.

Bydd y dysgwyr yn datblygu gweithgareddau dysgu ac yn cael cyfleoedd i roi rhai o'r rhain ar waith mewn lleoliad blynyddoedd cynnar.

Mae hon yn uned ddefnyddiol ar gyfer dysgwyr sydd am weithio mewn ysgol neu symud ymlaen i fod yn athrawon. Cynghorir dysgwyr sydd am gael gyrfa ym myd addysg yn gref i astudio hefyd *Uned 17: Cefnogi Sgiliau Rhifedd Plant*, ac *Uned 18: Cefnogi Sgiliau Llythrennedd Plant*.

## Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Ddeall rôl Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn y cwricwlwm
- 2 Deall yr ystod o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a all gefnogi dysgu
- 3 Medru defnyddio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu i gefnogi dysgu.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall rôl Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn y cwricwlwm

*Fframweithiau cwricwlwm a dysgu cynnar:* arweiniad ar gyfer Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar; Y Cwricwlwm Cenedlaethol, amrywiadau yn y famwlad

*Defnyddio TGCh yn y cwricwlwm:* fel ffocws ar gyfer dysgu; wedi'i integreiddio i'r pynciau; angen adnabod cyfleoedd i ddefnyddio TGCh mewn pynciau eraill; gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd

*TGCh fel hwylusydd dysgu:* ymgorffori wrth gynllunio gwersi ac mewn cynlluniau gwaith; rôl mewn dysgu a wahaniaethwyd; TGCh fel pwnc ynddo'i hun

*Ymgyrchoedd y Llywodraeth:* sgiliau allweddol; sgiliau gweithredol sy'n ymgorffori TGCh; diffyg sgiliau a chymwysterau TGCh yn y gweithle

*Sbardunau'r diwydiant:* Cyngorau Sgiliau Sectorau, ee e-skills UK; Safonau Cenedlaethol Galwedigaethol a'u rôl wrth ddylunio'r cwricwlwm

### 2 Deall yr ystod o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a all gefnogi dysgu

*Caledwedd:* ee cyfrifiaduron personol, teledu, fideo, DVD, CD-ROM, ffôn, ffôn symudol

*Meddalwedd:* meddalwedd pynciau penodol sy'n cefnogi dysgu; meddalwedd ddiagnostig; meddalwedd asesu cychwynnol; meddalwedd tracio a monitro

*Adnoddau:* Ar y we; Mewnwrwyd; Amgylcheddau Dysgu Rhithiol (VLE); bwrdd gwyn rhyngweithiol; blogiau; e-bost

*Cyd-destun:* argaeledd adnoddau i'w defnyddio

*Diogelwch:* deddfwriaeth a chanllawiau lechyd a Diogelwch perthnasol, diogelwch ar y rhyngwrwyd

### 3 Medru defnyddio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu i gefnogi dysgu

*Dysgu:* profiadau a gychwynnir gan y plentyn, profiadau a gychwynnir gan yr oedolyn, dysgu a gyfeirir gan yr oedolyn, yng nghyswllt TGCh, pwysigrwydd yr amgylchedd dysgu/cyd-destun

*Dulliau:* hwyluso, galluogi plant i weld TGCh mewn cyd-destun personol, annog cwestiynu

*Llunio gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar y dysgwr:* ystyried anghenion yr unigolyn, ee arddulliau dysgu gwahanol, anghenion unigol, gwahaniaethu; pwysigrwydd arsylwi; cynnwys plant; argaeledd a defnydd adnoddau

*Monitro:* dysgu; cyfranogiad; asesu ffurfiannol a chrynodol

*Adborth:* arsylwi sgiliau TGCh plant; adborth gan blant; adborth gan oedolion eraill

*Manteision:* i'r plant; i'r athrawon

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio'r lefel cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
LL1 disgrifio rôl TGCh yn y cwricwlwm LL2 disgrifio dylanwad ymgyrchoedd y llywodraeth wrth gefnogi sgiliau TGCh plant LL3 disgrifio'r adnoddau TGCh sydd ar gael ar gyfer amgylchedd dysgu LL4 datblygu dau weithgaredd sy'n defnyddio TGCh i gefnogi dysgu mewn lleoliad blynyddoedd cynnar LL5 datblygu dau weithgaredd mewn pwnc cwricwlwm arall sy'n defnyddio TGCh i gefnogi dysgu.	T1 egluro sut mae ymgyrchoedd y llywodraeth yn cefnogi datblygiad sgiliau TGCh plant  T2 rhoi'r ddau weithgaredd sy'n defnyddio TGCh i gefnogi dysgu ar waith mewn lleoliad blynyddoedd cynnar.	Rh1 gwerthuso rôl bosib TGCh wrth gefnogi dysgu plant  Rh2 gwerthuso effeithiolrwydd y ddau weithgaredd a roddwyd ar waith.

# Uned 20: Dylunio a Thechnoleg ar gyfer yr Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar

FfCC Lefel 3 : BTEC Cenedlaethol

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

---

## Crynodeb o'r uned

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddod i ddeall rhai o egwyddorion dylunio a thechnoleg ar lefel briodol i'r rhaglen.

Mae dylunio a thechnoleg wedi dod yn bwysig iawn yn y byd yr ydym yn byw ynddo, ac maent yn treiddio i bob agwedd ar ein bywydau. Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i ddysgwyr archwilio'r defnydd o dechnoleg wrth ddylunio. Byddant yn dysgu am ddulliau, deunyddiau a thechnegau a ddefnyddir wrth ddylunio.

Bydd dysgwyr yn dod i ddeall pwysigrwydd dylunio o ran datblygiad corfforol a chymdeithasol pobl. Mae'r uned yn un ymarferol i raddau helaeth ac yn ymwneud â chymhwyso sgiliau a gwybodaeth i gynhyrchu dyluniad priodol, y gellir ei ddefnyddio gyda phlant ifanc. Bydd dysgwyr hefyd yn dysgu sut i annog a chynnwys plant yn ddiogel mewn prosiectau dylunio.

Bydd yr uned hon o fudd i'r dysgwyr hynny y mae angen iddynt gaffael gwybodaeth am ddylunio a thechnoleg ar Lefel 3, megis y rheiny sydd yn bwriadu bod yn athrawon.

## Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Ddeall gwerth dylunio a thechnoleg wrth hyrwyddo datblygiad plant
- 2 Medru cynllunio, dylunio a phrofi darn o waith
- 3 Medru nodi a defnyddio adnoddau ar gyfer dylunio a thechnoleg mewn lleoliad blynyddoedd cynnar
- 4 Medru gweithio gyda phlant ifanc i ddylunio a chynhyrchu cynnyrch.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall gwerth dylunio a thechnoleg wrth hyrwyddo datblygiad plant

*Ystod o ddeunyddiau, eu defnyddiau a'u cyfyngiadau:* ee pren, plastig, metel, papur, bwyd

*Datblygiad synhwyrdd a motor:* sgiliau motor mawr a mân a ddatblygwyd ac sy'n dal i ddatblygu, cysylltiadau â theganau a gweithgareddau dysgu cynnar

*Datblygiad gwybyddol:* gwybodaeth a dealltwriaeth, sgiliau dylunio a gwneud, gallu creadigol, blaengaredd, datrys problemau, cefnogi datblygiad sgiliau TGCh

*Egwyddorion dylunio wedi'u cymhwyso i gyfarpar meithrin a blynyddoedd cynnar:* ee pramiau, cotiau, gathau diogelwch, fframiau dringo, teganau

### 2 Medru cynllunio, dylunio a phrofi darn o waith

*Gofynion dylunio:* ymchwil a datblygu, llunio cyfarwyddyd dylunio, cyfarwyddyd dylunio o fanylebau, gweithio o gyfarwyddyd dylunio, cynhyrchu a datblygu syniadau

*Modelu syniadau:* adnabod deunyddiau priodol, gofynion estheteg a thechnolegol, gweithio o fewn cyfyngiadau

*Technoleg:* datblygiad rhaglenni cyfrifiadurol, yr ystod o gyfarpar, dylunio gyda chymorth cyfrifiadurol (CAD)

*Profi:* cynllunio, dylunio a chymhwyso profion addas, dulliau gwerthuso

### 3 Medru nodi a defnyddio adnoddau ar gyfer dylunio a thechnoleg mewn lleoliad blynyddoedd cynnar

*Yr ystod o adnoddau sydd ar gael:* technoleg, mathau o ddeunyddiau

*Cyfyngiadau ar ddefnydd:* cyfyngiadau ariannol ac ymarferol ar adnoddau, ystyriaethau diogelwch, ffynonellau ynni, offer a pheirianwaith

### 4 Medru gweithio gyda phlant ifanc i ddylunio a chreu cynnyrch

*Rheoliadau iechyd a diogelwch:* gofynion cyfreithiol, gweithio ar lefel addas i ganiatáu i blant chwarae rhan, defnyddio syniadau plentyn, nodi adnoddau priodol

*Adrodd:* adolygu'r ymarfer, dulliau priodol o gyfathrebu wrth adrodd

*Gwerthuso:* gwerthuso'r broses ddylunio a chynhyrchu, cynigion ar gyfer gwelliannau

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio'r lefel cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
Ll1 disgrifio sut gall cyfnodau datblygiad plant elwa o ddarpariaeth dylunio a thechnoleg effeithiol Ll2 nodi'r egwyddorion dylunio sy'n berthnasol i gynnyrch a dyluniadau ar gyfer y sector blynyddoedd cynnar	T1 egluro sut gall egwyddorion dylunio effeithiol hyrwyddo datblygiad plant sydd ag ystod o anghenion datblygu T2 egluro'r rhesymau dros ddewis y dyluniad T3 egluro pam y dewiswyd yr adnoddau hynny ar gyfer y dyluniad	Rh1 dadansoddi, gan ddefnyddio enghreifftiau, y cysylltiadau rhwng egwyddorion dylunio, prosesau dylunio da a diwallu anghenion datblygiad a nodwyd
Ll3 cynhyrchu dyluniad yn unol â chyfarwyddyd penodol a modelu'r syniadau mewn dau a thri dimensiwn Ll4 nodi adnoddau priodol ar gyfer y dyluniad Ll5 dylunio a chynhyrchu cynnyrch gan weithio oddi mewn i'r rheoliadau iechyd a diogelwch		

<b>Meini prawf graddio</b>		
<b>I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:</b>
Ll6 disgrifio'r cynllun ar gyfer profi'r cynnyrch gorffenedig mewn lleoliad blynyddoedd cynnar.	T4 profi'r cynnyrch gorffenedig mewn lleoliad blynyddoedd cynnar.	Rh2 gwerthuso'r cynnyrch gorffenedig, y broses ddylunio a chynhyrchu, ac awgrymu gwelliannau posib.

# **Uned 21: Gwyddoniaeth Gyfunol ar gyfer yr Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar: Prosesau Bywyd a Phethau Byw**

**FfCC Lefel 3 : BTEC Cenedlaethol**

**Oriau dysgu dan arweiniad: 30**

---

## **Crynodeb o'r uned**

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddod i ddeall rhai o egwyddorion prosesau bywyd a phethau byw ar lefel briodol i'r rhaglen.

Ar y cychwyn bydd dysgwyr yn edrych ar brosesau bywyd yng nghyswllt metaboledd egni, gan gynnwys anatomeg a ffisioleg y tair prif system gorfforol sydd dan sylw. Wedyn byddant yn edrych ar bethau byw o ran ecosystemau, mathau gwahanol o faeth, ac arwyddocâd cadwyni/gweoedd bwyd.

Bydd yr uned hon o fudd i'r dysgwyr hynny y mae angen iddynt gaffael gwybodaeth am wyddoniaeth ar Lefel 3, megis y rheiny sydd yn bwriadu bod yn athrawon neu'n nyrsys pediatrig.

## **Canlyniadau dysgu**

**Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:**

- 1 Ddeall prosesau bywyd yng nghyswllt metaboledd egni bodau dynol
- 2 Deall pethau byw.



## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall prosesau bywyd yng nghyswllt metaboledd egni bodau dynol

*Metaboledd egni:* rôl egni yn y corff; anaboledd a chataboledd; gweithgareddau sy'n ymwneud â chyflenwi egni i gelloedd y corff - rolau'r systemau cardiofasgwlaidd, resbiradol a threuliol

*Y system gardiofasgwlaidd:* y galon - strwythur, y cylch cardiaidd, cyfradd curiad y galon, cyfaint y trawiad, pwysedd y gwaed, pibellau gwaed - rhydweiliau, capilarïau, gwythiennau; cylchrediad pwlmonaidd a systemig; strwythur a swyddogaethau'r gwaed

*Y system resbiradol:* rôl llwybrau anadlu'r trwyn; strwythur a swyddogaethau'r tracea, bronci, ysgyfaint - y goeden fronciol, yr alfeoli; cyhyrau resbiradol - cyhyrau rhyngasennol, y diaffram; awyriad, cyfnewid nwyol, trylediad

*Y system dreuliol:* trosolwg o'r llwybr ymborth - oesoffagws, stumog, dwodenwm, ilewm, colon; afu, pancreas, chwarennau poer; rôl y system dreuliol wrth ddatod ac amsugno deunyddiau bwyd, amlyncu, peristalsis, treulio, amsugno, carthu; swyddogaeth ensymau

*Prif gynnyrch treuliad:* peptidau ac asidau amino, siwgrau, glyserol ac asidau brasterog; swyddogaethau yn y corff; storio braster a charbohydradau gormodol; deamineiddio protein gormodol a thynged y cynnyrch terfynol; swyddogaeth yr afu; swyddogaeth yr arenau;

*Amsugno bwyd:* i'r gwaed; i'r lactealau; swyddogaeth filysau a microfilysau

### 2 Deall pethau byw

*Ecosystemau:* poblogaethau, cymunedau, microgynefinoedd, cynefinoedd, ee coetir, pyllau creigiau, pridd, perthi

*Maeth:* awtotroffig - cynhyrchwyr; heterotroffig - holosoig, saproffytig, parasitig, cilyddol; yswyr; diet llysysol, cigysol a hollysol; cadwyni bwyd

*Cadwyni/gweoedd bwyd:* cynhyrchwyr - ffotosynthesis; yswyr; trosglwyddo egni, lefelau troffig, pyramidiau rhifau, biofas ac egni

*Ailgylchu maetholion:* cylch carbon; cylch nitrogen; swyddogaeth dadelfenyddion

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo'n disgrifio'r lefel o gyrhaeddiad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
LL1 disgrifio rôl egni yn y corff LL2 disgrifio ffisioleg tair system benodol yn y corff yng nghyswllt metaboledd egni LL3 disgrifio pedair cadwyn fwyd mewn ecosystem benodol LL4 disgrifio swyddogaeth dadelfenyddion yn yr ecosystem.	T1 egluro ffisioleg tair system benodol yn y corff yng nghyswllt metaboledd egni T2 defnyddio un enghraifft o gadwyn fwyd i egluro lefelau troffig a throsglwyddiad egni mewn ecosystem.	Rh1 defnyddio enghreifftiau i egluro'r berthynas rhwng gwahanol systemau'r corff a'i gilydd Rh2 egluro'r berthynas rhwng y pedair cadwyn fwyd yn yr ecosystem a ddewiswyd, ac ystyried effaith bosib colli ysglyfaethwr pwysig ar yr ecosystem gyfan.

## Uned 22: Gwyddoniaeth Gyfunol ar gyfer yr Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar: Deunyddiau a'u Priodweddau

Lefel FfCC: 3 BTEC Cenedlaethol

Oriau dysgu dan arweiniad: 30

---

### Crynodeb o'r uned

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddod i ddeall rhai o egwyddorion deunyddiau a'u priodweddau ar lefel briodol i'r rhaglen.

Ar y cychwyn bydd dysgwyr yn edrych ar strwythur yr atom, gan gynnwys cyfluniad electronig hydrogen, carbon, ocsigen, nitrogen a pherthnasedd hyn i folecwlau biolegol. Wedyn edrychir ar strwythur molecwlaid, gan ganolbwyntio'n benodol ar y berthynas rhwng strwythur a'r priodweddau a gyflwynwyd felly. Eto, bydd hyn yn cyfeirio at y molecwlau biolegol a chefnogi a chynnal bywyd. Bydd dysgwyr yn dod i ddeall amrywiaeth o folecwlau, yn rhai anorganaidd ac organaidd.

Bydd yr uned hon o fudd i'r dysgwyr hynny y mae angen iddynt gaffael gwybodaeth am wyddoniaeth ar Lefel 3, megis y rheiny sydd yn bwriadu bod yn athrawon neu'n nyrsys pediatrig.

### Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Ddeall strwythur yr atom
- 2 Deall cemeg molecwlau yng nghyswllt bywyd.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall strwythur yr atom

*Atomau:* nwclews: niwtronau, protonau; electronau; cyfluniad electronig hydrogen, carbon, ocsigen, nitrogen a'u perthnasedd i folecwlaui biolegol

### 2 Deall cemeg molecwlaui yng nghyswllt bywyd

*Molecwlaui anorganaid:* dŵr - cyfluniad, priodweddau - ee hydoddydd, tyndra arwyneb, pwysigrwydd bondiau hydrogen; carbon deuocsid - cyfluniad, bondiau cofalent; sodiwm clorid - cyfluniad, bondiau ïonig; ionau, ee hydrogen carbonad, ffosffad

*Molecwlaui organig:* cyddwysiad a hydrolysis wrth adeiladu polymerau a'u datod

- proteinau: strwythur cynradd, eilaidd, trydyddol a chwarteraidd, peptidaui, asidau amino
- carbohydradaui: polysacaridaui (starts, glycogen, selwlos), deusacaridaui (swcros, maltos, lactos), monosacaridaui (glwcos, ffrwctos, galactos)
- lipidaui: asidau brasterog (dirlawn, monoannirlawn, amlannirlawn), glyserol, triglyseridaui, ffosfolipidaui a'u rôl ym meinweoedd celloedd ac fel syrffactyddion yn yr ysgyfaint, colesterol
- asidau niwclëig: niwcleotidaui - bas, siwgr pentos, grŵp ffosffadaui; DNA, helics dwbl, paru basau cydweddol; RNA, mRNA, tRNA, rôl yn synthesis proteinaui; mitosis - dyblygiad celloedd wrth dyfu ac atgyweirio, proffas, anaffas, teloffas

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo'n disgrifio'r lefel o gyrhaeddiad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
LL1 disgrifio strwythur atomig hydrogen, carbon, ocsygen a nitrogen a chysylltu hynny â strwythur molecwlau biolegol LL2 disgrifio cyfluniad molecwlaid dŵr, carbon deuocsid a sodiwm clorid, gan gyfeirio at wahanol fathau o fondio LL3 disgrifio strwythur a swyddogaethau molecwlau organig.	T1 egluro perthnasedd cyfluniad electronig hydrogen, carbon, ocsigen a nitrogen i folecwlau biolegol T2 egluro perthnasedd cyfluniad molecwlaid dŵr i'w briodweddau.	Rh1 egluro'r berthynas rhwng strwythur a swyddogaethau molecwlau organaidd.

## **Uned 23: Gwyddoniaeth Gyfunol ar gyfer yr Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar: Prosesau Corfforol**

**FfCC Lefel 3 : BTEC Cenedlaethol**

**Oriau dysgu dan arweiniad: 30**

---

### **Crynodeb o'r uned**

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddod i ddeall rhai o egwyddorion prosesau corfforol ar lefel briodol i'r rhaglen.

Ar y cychwyn bydd dysgwyr yn edrych ar y sbectrwm electrofagnetig, gan gynnwys defnyddiau gwahanol elfennau o'r sbectrwm ar gyfer diagnosis a thrin anhwylderau plant. Edrychir ar donnau goleuni a'u priodweddau, a bydd dysgwyr yn archwilio cysyniadau megis ffocysu golau ar retina'r llygad, defnyddio lensys amgrwm a cheugrwm i gywiro golwg, gweld lliwiau a lliwddallineb.

Wedyn edrychir ar donnau sain, gan gynnwys traw a lefel sain, gweithrediad y glust, cwmpas clyw dynol a'r defnydd o gymorth clywed, dolen glyw a syntheseiddwyr llais. Wedyn â'r dysgwyr ymlaen i edrych ar gymwysiadau tonnau sain mewn gwasanaethau i blant, megis defnyddio uwchsain i fonitro'r ffetws sy'n datblygu neu at ddibenion therapiwtig.

Bydd yr uned hon o fudd i'r dysgwyr hynny y mae angen iddynt gaffael gwybodaeth am wyddoniaeth ar Lefel 3, megis y rheiny sydd yn bwriadu bod yn athrawon neu'n nyrsys pediatrig.

### **Canlyniadau dysgu**

**Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:**

- 1 Ddeall y sbectrwm electromagnetig
- 2 Deall tonnau sain.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall y sbectrwm electromagnetig

*Y sbectrwm electromagnetig:* tonnau radio, microdonnau, tonnau is-goch, pelydrau golau gweladwy, tonnau uwchfioled, pelydr-X, pelydrau gamma; pelydriad ìoneiddio, pelydriad nad yw'n ìoneiddio

*Cymwysiadau wrth ddiagnosio a thrin anhwylderau plant:* diagnostig, ee pelydr-X, sganwyr tomograffeg gyfrifedig (CT), pelydr-X cyferbyniol, delweddu cyseinedd magnetig (MRI), endoscopi, thermograffi; triniaeth, ee radiotherapi, defnyddio laserau; sterileiddiad

*Tonnau goleuni:* cyflymdra, adlewyrchiad, plygiant, opteg ffibrau; ffocysu goleuni ar retina'r llygad, defnyddio lensys amgrwm a cheugrwm i gywiro'r golwg; gweld lliwiau, lliwddallineb

### 2 Deall tonnau sain

*Tonnau sain:* sut cynhyrchir tonnau sain, cyflymdra sain, adleisiau, amleddau, traw, lefel ddeinamig; swyddogaeth y glust, amrediad clyw dynol, awdiofesuryddion, cymhorthion clywed, dolenni clyw a syntheseiddwyr llais

*Cymwysiadau:* defnyddio uwchsain i fonitro ffetws sy'n datblygu; defnyddio uwchsain at ddibenion therapiwtig

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo'n disgrifio'r lefel o gyrhaeddiad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
LL1 disgrifio'r sbectrwm electromagnetig	T1 egluro dwy enghraifft o gymhwyso'r sbectrwm electrofagnetig wrth ddiagnosio a thrin anhwylderau plant	
LL2 disgrifio nodweddion goleuni	T2 egluro sut gellir defnyddio gwybodaeth am nodweddion goleuni i gywiro golwg diffygiol plant	
LL3 disgrifio nodweddion sain	T3 egluro sut gellir defnyddio gwybodaeth am nodweddion sain i gywiro clyw diffygiol.	
LL4 disgrifio dwy enghraifft o'r defnydd o uwchsain mewn gwasanaethau meddygol pediatrig.		Rh1 gwerthuso swyddogaeth technegau gwyddoniaeth gorfforol mewn gwasanaethau meddygol pediatrig.



## Uned 24: Astudiaethau Amgylcheddol ar gyfer yr Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar

FfCC Lefel 3 : BTEC Cenedlaethol

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

### Crynodeb o'r uned

Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwyr ddealltwriaeth o faterion amgylcheddol er mwyn eu galluogi i gyflwyno materion o'r fath wrth weithio gyda phlant. Mae pryder ynghylch yr amgylchedd yn bwnc llosg, a dylid annog dysgwyr i gymryd diddordeb yn eu hamgylchedd, ac i gymryd rhan mewn pynciau amgylcheddol a gyflwynir yn eu lleoliadau profiadau gwaith.

Bydd cwblhau'r uned hon yn llwyddiannus yn galluogi dysgwyr i ddatblygu gwerthfawrogiad o bwysigrwydd materion amgylcheddol. Byddant yn dod i ddeall sut mae'r amgylchedd yn effeithio ac yn dylanwadu ar ein bywydau wrth iddynt ymchwilio i ffyrdd o gynnal byd cynaliadwy.

Bydd dysgwyr yn dod i ddeall pwysigrwydd materion amgylcheddol cyfredol a'u heffaith ar lefel leol, genedlaethol a byd-eang. Wedyn byddant yn medru defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafwyd i helpu i ddatblygu ymwybyddiaeth plant a'u diddordeb mewn amrywiaeth o faterion amgylcheddol. Bydd yr uned hefyd yn galluogi dysgwyr i gynllunio a gweithredu gweithgareddau yn y maes hwn yn unol â chanllawiau'r cwricwlwm ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Argymhellir yn gryf fod dysgwyr sydd am fod yn athrawon neu weithio mewn rôl cefnogol mewn ysgol yn astudio'r uned hon.

### Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Ddeall yr amgylchedd naturiol
- 2 Deall effeithiau gweithgaredd dynol ar yr amgylchedd
- 3 Deall effaith trychinebau naturiol ac o waith dyn ar adnoddau bwyd, dŵr ac ynni
- 4 Medru datblygu ystod o weithgareddau y gellir eu defnyddio i gyflwyno astudiaethau amgylcheddol i'r plant.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall yr amgylchedd naturiol

*Deunyddiau naturiol:* creigiau, mwynau a phriddoedd; eu priodweddau, eu dosbarthiad a sut cânt eu ffurfio

*Nodweddion amgylcheddol:* patrymau tywydd y byd, gwres, lleithder, gwasgedd, gwyntoedd, masau awyr; newid yn yr hinsawdd

*Erydiad:* asiantau ac effeithiau erydiad naturiol; gwynt, dŵr, arfordirol, gwres, iâ

*Tectoneg:* nodweddion ac effeithiau; ee gweithgaredd platiau tectonig a'r daeargrynfâu, tswnami a gweithgaredd folcanig cysylltiedig

### 2 Deall effeithiau gweithgaredd dynol ar yr amgylchedd

*Achosion ac effeithiau llygredd:* ar y tywydd, yr amgylchedd, ecosystemau coedwigoedd

*Dulliau a chanlyniadau rheoli'r amgylchedd naturiol:* ee effeithiolrwydd dulliau rheoli gwastraff

*Polisiau byd-eang a chenedlaethol:* goblygiadau polisiau byd-eang a chenedlaethol; adrannau perthnasol o'r canlynol, ee Deddf Dŵr 1989, Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, Deddf Adnoddau Dŵr 1991, Uwch-gynhadledd Rio 1992, Deddf Aer Glân 1993, Deddf yr Amgylchedd 1995, Deddf Cymdogaethau ac Amgylchedd Glân 2005

*Adnoddau ynni:* cadwraeth ynni, datblygiadau yn y dyfodol

*Adnoddau dŵr:* eu defnydd a'u dosbarthiad; datblygiadau i ddelio gyda phrinder dŵr, ee dihalwyno

### 3 Deall effaith trychinebau naturiol ac o waith dyn ar adnoddau bwyd, dŵr ac ynni

*Trychinebau naturiol:* ee daeargrynfâu, tswnamis, llifogydd, seiclonau, corwyntoedd, ffrwydradau folcanig, tornados

*Trychinebau o waith dyn:* ee dadgoedwigo, creu anialdir, effaith tŷ gwydr, ffermio dwys, diwydiannaeth

*Effaith trychinebau naturiol ac o waith dyn:* ee llifogydd, newydd, sychder, cynhesu byd-eang, marwolaeth, tlodi, afiechyd, dinistrio eiddo, dymchwel yr isadeiledd, llygredd, dirywiad yn yr adnoddau egni adnewyddadwy ac anadnewyddadwy; effaith ddynol, gymdeithasol ac economaidd

**4 Medru datblygu ystod o weithgareddau y gellir eu defnyddio i gyflwyno astudiaethau amgylcheddol i'r plant**

*Canllawiau cwricwlwm:* bod yn gyfarwydd â chwricwla cyfredol sy'n berthnasol i'r famwlad, ee canllawiau Cwricwlwm ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol/Cwricwlwm Cymreig

*Yr amgylchedd naturiol:* ee edrych ar ansawdd yr amgylchedd lleol, arsylwi a siarad am newidiadau yn y tywydd, planhigion ac anifeiliaid; defnydd effeithiol o'r amgylchedd awyr agored

*Effaith gweithgaredd dynol ar yr amgylchedd:* ee newidiadau mewn pentrefi, trefi a dinasoedd, newidiadau mewn bywyd naturiol

*Trychinebau naturiol ac o waith dyn:* ymwybyddiaeth briodol o effaith y trychinebau hyn ar y ddynoliaeth, ee trafod eitemau newyddion ynghylch newyn, llifogydd, daeargrynfaû; ymweliadau gan sefydliadau elusenol i drafod effaith digwyddiadau cenedlaethol/rhyngwladol

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio'r lefel cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
<p>LL1 disgrifio'r prif fathau o greigiau, mwynau a phriddoedd, effeithiau erydiad a'r rhesymau am ddaeargrynfaŵ a gweithgaredd folcanig</p>	<p>T1 egluro effeithiau daeargrynfaŵ, gweithgaredd folcanig ac erydiad ar yr amgylchedd, gan ddefnyddio enghreifftiau</p>	<p>Rh1 gwerthuso effeithiau posib un polisi byd-eang neu genedlaethol o ran ymdrin â materion llygredd byd-eang</p>
<p>LL2 disgrifio prif achosion llygredd a nodi polisiau byd-eang a chenedlaethol a gyflwynwyd i ymateb iddo</p>	<p>T2 disgrifio un polisi byd-eang neu genedlaethol a sut mae'n ymdrin â materion llygredd byd-eang</p>	
<p>LL3 disgrifio'r ffactorau, gan gynnwys trychinebau naturiol ac o waith dyn, sy'n dylanwadu ar argaeledd bwyd, ynni a dŵr</p>	<p>T3 disgrifio effeithiau posib prinder naill ai bwyd, ynni neu ddŵr ar y byd</p>	

<b>Meini prawf graddio</b>		
<b>I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:</b>
<p>Ll4 cynllunio dau weithgaredd i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth plant o'r amgylchedd naturiol</p> <p>Ll5 cynllunio dau weithgaredd i hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o effeithiau gweithgaredd dynol ar yr amgylchedd</p> <p>Ll6 cynllunio dau weithgaredd i hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o faterion sy'n effeithio ar adnoddau bwyd, dŵr ac ynni.</p>	<p>T4 rhoi o leiaf un o'r gweithgareddau a gynlluniwyd ar waith i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth plant o naill ai'r amgylchedd naturiol, neu effeithiau gweithgaredd dynol ar yr amgylchedd, neu faterion sy'n effeithio ar adnoddau bwyd, dŵr ac ynni.</p>	<p>Rh2 gwerthuso effeithiolrwydd y gweithgareddau dan sylw wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o'r amgylchedd naturiol.</p>

## **Uned 25: Credoau Modern a Chrefyddau ar gyfer yr Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar**

**FfCC Lefel 3 : BTEC Cenedlaethol**

**Oriau dysgu dan arweiniad: 60**

---

### **Crynodeb o'r uned**

Bydd yr uned hon yn rhoi cyfle i ddysgwyr edrych ar y gwahanol gredoau a chrefyddau sy'n rhan o'r gymdeithas heddiw, gan eu galluogi i werthfawrogi a deall cyfoeth ac amrywiaeth bywyd amlddiwylliannol.

Bydd dysgwyr yn medru archwilio, a dod i ddeall, dylanwadau credoau crefyddol ac eraill ar ddatblygiad a chymdeithasoli plant ifanc. Byddant yn dysgu am bwysigrwydd datblygiad moesol ac ysbrydol ac yn dod i ddeall swyddogaeth addysg grefyddol yn y cwricwlwm. Bydd dysgwyr hefyd yn cael cyfle i gynllunio gweithgaredd i blant, wedi'i seilio ar archwilio gwahanol gredoau a chrefyddau.

Bydd yr uned hon yn gyflwyniad defnyddiol i bawb sydd am weithio gyda phlant, ac fe'i hargymhellir yn arbennig ar gyfer dysgwyr sy'n ystyried bod yn athrawon.

### **Canlyniadau dysgu**

**Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:**

- 1 Ddeall pwysigrwydd datblygiad moesol ac ysbrydol plant
- 2 Deall gwahanol grefyddau a chredoau
- 3 Deall rôl addysg grefyddol yn y blynyddoedd cynnar.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall pwysigrwydd datblygiad moesol ac ysbrydol plant

*Datblygiad moesol ac ysbrydol:* ymdeimlad o'u hunaniaeth, gosod gwerth arnynt eu hunain; gosod gwerth ar eraill; cod moesol, gwerthoedd ymddygiad, ee gwirionedd, parch; ymddygiad rhag-gymdeithasol, meithrin perthynas, cysyniad rhannu; deall da a drwg; deall y gymuned ehangach

*Swyddogaeth yr ymarferydd blynyddoedd cynnar:* cefnogi dimensiwn moesol ac ysbrydol amgylcheddau dysgu; sensitifrwydd; ymddygiad cynhwysol; pennu terfynau clir; deall nad oes rhaid i'r agwedd ysbrydol gyfateb i gredo strwythuredig

### 2 Deall gwahanol grefyddau a chredoau

*Credoau crefyddol a secwlar:* ee agnosticiaeth, anffyddiaeth, Bwdhaeth, Cristnogaeth, dirfodaeth, Hindŵaeth, dyneiddiaeth, Islam, Iddewiaeth, Paganïaeth, Rastaffariaeth, Siciaeth

*Credoau ac arferion:* ee arferion, defodau, defodau perthyn, credoau canolog, gwyliau, dathliadau, diet, storïau traddodiadol, pobl bwysig, addoldai, credoau iechyd/meddygol; amrywiadau oddi mewn i grwpiau

### 3 Deall rôl addysg grefyddol yn y blynyddoedd cynnar

*Addysg grefyddol fel rhan o'r cwricwlwm blynyddoedd cynnar:* Deddf Addysg 1996; swyddogaeth y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG), addysg grefyddol fel rhan o'r cwricwlwm; meysydd llafur lleol cytunedig; gwrthwynebiadau i addysg grefyddol, ee amheuaeth, anghynhwysiaeth, perthynolaeth, rhydwythiaeth; dadleuon yn erbyn y gwrthwynebiadau; nodau a dibenion gwahanol a chystadleuol dros gynnwys addysg grefyddol yn addysg plant; hawl rhieni/gofalwyr i eithrio'u plentyn o addysg grefyddol; effaith a phwysigrwydd plwraliaeth grefyddol

*Swyddogaeth addysg grefyddol:* datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol; paratoi ar gyfer bywyd mewn cymdeithas amrywiol; hyrwyddo cynhwysiad; herio barn sy'n stereoteipio; hyrwyddo gwerthoedd, ee gwirionedd, cyfiawnder, parch, gofal am yr amgylchedd; pwyslais ar blant yn gosod gwerth arnynt eu hunain ac ar eraill; pwyslais ar rôl y teulu a'r gymuned; dathlu amrywiaeth mewn cymdeithas - nodweddion tebyg a gwahaniaethau; annog plant i archwilio'u credoau eu hunain; annog plant i ddod i farn resymedig a gwybodus ynghylch materion

*Dulliau:* ee annog cwestiynu, dadansoddi, chwilio am ystyr yn bersonol, galluogi plant i weld crefydd mewn ffordd bersonol, yn ogystal â deall eu hunain yng nghyd-destun crefydd, sut mae archwilio nodweddion cyffredin a gwahaniaethau yng nghyd-destun addysg grefyddol, agweddau cynhwysol

*Gweithgaredd:* archwilio gwahanol grefyddau a chredoau; effaith plwraliaeth ar gynllunio; cynhwysiad.





## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio'r lefel cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
LL1 disgrifio rôl yr ymarferydd blynyddoedd cynnar wrth gefnogi datblygiad moesol ac ysbrydol plant	T1 egluro rôl yr ymarferydd blynyddoedd cynnar wrth gefnogi datblygiad moesol ac ysbrydol plant	
LL2 disgrifio pedair cred grefyddol/secwlar wahanol	T2 cymharu a chyferbynnu dwy grefydd/gredo secwlar wahanol	
LL3 disgrifio sut gall credoau crefyddol neu secwlar effeithio ar gynhwysiad mewn lleoliad blynyddoedd cynnar	T3 egluro mesurau i gefnogi cynhwysiad mewn lleoliad blynyddoedd cynnar amrywiol	Rh1 gwerthuso mesurau i gefnogi cynhwysiad mewn lleoliad blynyddoedd cynnar amrywiol
LL4 disgrifio rôl addysg grefyddol yn y cwricwlwm blynyddoedd cynnar	T4 egluro rôl addysg grefyddol yn y cwricwlwm blynyddoedd cynnar	Rh2 gwerthuso rôl addysg grefyddol yn y cwricwlwm blynyddoedd cynnar.
LL5 cynllunio a gweithredu gweithgaredd a seiliwyd ar greddoau crefyddol neu secular ar gyfer grŵp blynyddoedd cynnar penodol 5-7 oed.	T5 gwerthuso gweithgaredd a seiliwyd ar greddoau crefyddol neu seciwlar ar gyfer grŵp blynyddoedd cynnar penodol 5-7 oed.	

## **Uned 26: Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ar gyfer yr Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar**

**FfCC Lefel 3 : BTEC Cenedlaethol GDDP**

**Oriau dysgu dan arweiniad: 60**

---

### **Crynodeb o'r uned**

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u sgiliau ym maes technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Bydd dysgwyr yn datblygu ac yn ymarfer sgiliau yng nghyswllt ystod o becynnau meddalwedd, gan gynnwys prosesu geiriau a thaenlenni. Yn ogystal â defnyddio meddalwedd prosesu geiriau i gynhyrchu gwahanol fathau o ddogfennau, bydd dysgwyr yn darganfod sut i wella'u haseiniadau ysgrifenedig trwy ddefnyddio testun ar frig a gwaelod y dudalen, pwyntiau bwled, gwirwyr sillafu a chyfri geiriau, a thrwy gynnwys tablau a graffeg. Byddant yn dysgu sut i drefnu eu ffeiliau a chadw gwybodaeth fel eu bod yn medru ei hadalw'n hwylus, a sut mae trosglwyddo gwybodaeth o un math o raglen i un arall. Byddant hefyd yn defnyddio taenlenni a chronfeydd data i drafod data, gan ddysgu sut i greu a fformatio taenlen, sut mae didoli a hidlo data, a sut mae paratoi ymholiad syml. Byddant yn darganfod sut i llunio fformwlâu a defnyddio swyddogaethau i'w helpu i brosesu data a chyflawni cyfrifiadau, ac yna defnyddio'r meddalwedd i gynhyrchu siartiau a graffiau deniadol ac ystyrlon.

Mae'r gofyniad i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn ddiogel yn hollbwysig mewn lleoliad i blant. Bydd dysgwyr yn dod i ddeall sut mae defnyddio TGCh yn ddiogel, gan lynu at ddeddfwriaeth a chanllawiau. Byddant hefyd yn dysgu sut i ddefnyddio'r rhyngwyd yn ddiogel ac yn effeithlon, a sut mae gwneud defnydd llawn o e-bost.

Mae'r sector plant yn defnyddio TGCh yn gynyddol ar gyfer gwaith gweinyddol, rheoli, cofnodi a chyfathrebu. Bydd y gallu i greu dogfennau wedi'u llunio'n dda ar brosesydd geiriau, felly, o fantais i rai sy'n bwriadu gweithio yn y sectorau hyn. Ar ben hynny, bydd gallu ym maes TGCh yn werthfawr ar gyfer unrhyw ddysgwr sydd am symud ymlaen i astudiaethau pellach neu uwch.

### **Canlyniadau dysgu**

**Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:**

- 1 Fedru defnyddio pecynnau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu sylfaenol
- 2 Deall y ddeddfwriaeth a'r canllawiau sy'n ymwneud â defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu
- 3 Deall eu datblygiad eu hunain o ran y defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall pecynnau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu sylfaenol

*Caledwedd cyfrifiadurol sylfaenol:* cyfrifiadur (PC), modem, sganiwr, argraffydd, darllenydd CD ROM

*Meddalwedd cyfrifiadurol sylfaenol:* prosesu geiriau, taenlenni, y rhyngwrwyd, e-bost; pecynnau diagnostig a rhyngweithiol

*Dogfennau:* ee llythyrau, labeli, negeseuon ffacs, negeseuon e-bost, adroddiadau, cardiau/taflenni cofnodi, llyfrynau a thafleuni, CVs; manteision a chyfyngiadau'r pecyn a ddefnyddiwyd; cynllun – diwyg y dudalen, fformat ac arddull, brig a gwaelod y dudalen, bwledi a rhifau, rhifo tudalennau'n awtomatig, gwirio sillafu a chyfrif geiriau, cynnwys a fformatio tablau

*Cronfeydd Data:* cofnodion plant, cronfeydd data o adnoddau; defnyddio cronfeydd data

*Taenlenni:* mewnbynnu ac addasu data yn gywir; fformatio data; didoli a hidlo; defnyddio gweithrediadau syml; creu ac arddangos fformiwlâu; cynhyrchu siartiau a graffiau; brig a gwaelod y dudalen

*Chwilio ar y rhyngwrwyd:* defnyddio peiriannau chwilio'n effeithiol; defnyddio meini prawf chwilio lluosog; dyfynnu ffynonellau a gwirio dibynadwyedd; cadw ffefrynau neu roi nod dalen ar safleoedd defnyddiol

*Diogelwch y rhyngwrwyd:* ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth diogelu data gyfredol a'r angen am amddiffyniad yn erbyn firysau; materion amddiffyn plant

*Post electronig:* anfon, derbyn, agor a chadw negeseuon e-bost; anfon ac agor atodiadau; defnyddio llyfr cyfeiriadau electronig

### 2 Deall y ddeddfwriaeth a'r canllawiau sy'n ymwneud â defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

*Deddfwriaeth a chanllawiau:* sy'n berthnasol i'r famwlad; adrannau perthnasol o'r canlynol, ee Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989, Deddf Plant 1989, 2004, Deddf Hawliau Dynol 1998, Rheoliadau Rheoli lechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999, Deddf Diogelu Data 1998, Mae Pob Plentyn yn Bwysig 2003, polisiau eraill lleol sy'n berthnasol

### 3 Deall eu datblygiad eu hunain o ran y defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu

*Anghenion datblygiadol:* deall perthnasedd TGCh yn y gweithle; nodi cryfderau a gwendidau; nodi anghenion; nodi a defnyddio cyfleoedd ar gyfer gwelliant a symud ymlaen

*Datblygiad personol:* adnoddau, amser, nodau ac amcanion, adolygu a monitro

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio'r lefel cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
<p>LL1 defnyddio meddalwedd ar gyfer prosesu geiriau a thaenlenni er mwyn paratoi a chyflwyno dogfen gymhleth</p> <p>LL2 nodi defnyddiau pecynnau meddalwedd mewn gwasanaethau i blant</p> <p>LL3 disgrifio'r deddfwriaeth a'r canllawiau sy'n effeithio ar y defnydd o TGCh mewn lleoliadau i blant</p> <p>LL4 disgrifio'u datblygiad eu hunain ym maes TGCh yn ystod cyfnod y rhaglen</p> <p>LL5 nodi agweddau ar eu gwybodaeth a'u sgiliau eu hunain ym maes TGCh sydd i'w datblygu yn y dyfodol.</p>	<p>T1 dadansoddi'r defnydd o becyn meddalwedd mewn gwasanaeth i blant</p> <p>T2 egluro sut mae'r defnydd o TGCh mewn lleoliad i blant yn bodloni gofynion deddfwriaethol a chanllawiau</p> <p>T3 cynhyrchu cynllun datblygiad personol ar gyfer datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau eu hunain ym maes TGCh.</p>	<p>Rh1 gwerthuso'r defnydd o TGCh mewn gwasanaeth i blant</p> <p>Rh2 gwerthuso effaith deddfwriaeth a chanllawiau ar y defnydd o TGCh mewn lleoliadau i blant</p> <p>Rh3 gwerthuso sut gallai eu cynllun datblygiad personol eu hunain helpu i gefnogi'r gofynion TGCh mewn lleoliad i blant.</p>

## Uned 27: **Bodloni'r Gofynion Ychwanegol ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant**

**FfCC Lefel 3 : BTEC Cenedlaethol**

**Oriau dysgu dan arweiniad: 60**

### **Crynodeb o'r uned**

Yn unol â chyfleoedd cyfartal ac arfer gwrth-wahaniaethol, mae'r arfer cynhwysol sy'n bodoli ar hyn o bryd yn addysg a gofal plant yn golygu y bydd ymarferwyr, ar ryw adeg, yn dod ar draws plant sydd ag anghenion ychwanegol. Mae'n bwysig, felly, bod gan ymarferwyr o'r fath beth gwybodaeth am yr anghenion ychwanegol posib er mwyn bod yn effeithiol wrth eu gwaith. Bydd angen iddynt fedru cyfrannu at gynhwysiad plant ag anableddau ac anghenion addysgol arbennig, gan gefnogi eu cyfranogiad mewn ystod lawn o brofiadau a gweithgareddau.

Bydd yr uned hon yn edrych ar y gwahanol fathau o anghenion ychwanegol a'r ffactorau sy'n eu hachosi. Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o sut mae cyfrannu at gynhwysiad, sut mae dileu rhwystrau posib i gynhwysiad, a deddfwriaeth, rheoliadau a chodau ymarfer perthnasol.

Bydd yr uned hon yn ddefnyddiol ar gyfer dysgwyr sydd am weithio mewn lleoliad neu wasanaeth sydd â'r prif ddiben o gefnogi gofal, dysgu a datblygiad plant.

### **Canlyniadau dysgu**

**Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:**

- 1 Ddeall ffactorau a all olygu bod gan blant ofynion ychwanegol
- 2 Deall effaith deddfwriaeth, rheoliadau a chodau ymarfer ar y ddarpariaeth ar gyfer plant sydd â gofynion ychwanegol
- 3 Deall arfer cynhwysol a sut mae cefnogi plant sydd â gofynion ychwanegol.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall ffactorau a all olygu bod gan blant ofynion ychwanegol

*Anghenion ychwanegol:* corfforol; meddyliol; dysgu; ymddygiad

*Genetig:* ee syndrom Down, ffibrosis systig, anhwylderau crymangell

*Datblygiadol:* ee anhwylder sbectrwm awtistig, dyslecsia, dyspracsia

*Amgylcheddol:* ee cysylltiedig â chlefydau heintus

*Damweiniau:* ee paraplegia, cwadriplegia, anaf i'r pen

*Arall:* ee nam ar y synhwyr, Anhwylder Diffyg Canolbwyntio, Anhwylder Gorfywiogrwydd/Diffyg Canolbwyntio, salwch meddwl

*Effaith:* effaith tymor byr a hir ar y plentyn, ee gwahaniaethu, llai o gyfleoedd; effaith ar y teulu, ee cymdeithasol, yr angen am wybodaeth a chefnogaeth, ariannol, effeithiau ar frodyr a chwiorydd; nodi a diwallu anghenion

### 2 Deall effaith deddfwriaeth, rheoliadau a chodau ymarfer ar y ddarpariaeth ar gyfer plant sydd â gofynion ychwanegol

*Deddfwriaeth a rheoliadau:* adrannau perthnasol o'r canlynol: ee Deddf Iechyd Meddwl 1983, Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gogledd Iwerddon) 1986, Deddf Plant 1989, Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, Deddf Addysg 1996, Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Diogelu Data 1998, Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000, Papur Gwyn - Gosod Gwerth ar Bobl: Strategaeth Newydd ar gyfer Anableddau Dysgu yn yr 21ain Ganrif, 2001, Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001, Deddf Plant 2004, Deddf Gallu Meddyliol 2005, Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005, Deddf Gofal Plant 2006

*Confensiynau:* adrannau perthnasol o'r canlynol: ee Confensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol a Rhyddid Sylfaenol 1950, y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn 1989

*Canllawiau:* Codau ymarfer – ee Cod Ymarfer AAA, siarteri a pholisïau, rôl Cyngor Datblygu'r Gweithlu Plant/Cyngor Gofal Cymru/Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon

### 3 Deall arfer cynhwysol a sut mae cefnogi plant sydd â gofynion ychwanegol

Anabledd a dibyniaeth fel lluniadau cymdeithasol; nam, anabledd, anfantais

Modelau: meddygol; cymdeithasol; normaleiddio; dull cyfannol; effaith ar y gwasanaethau a ddarperir

Arferion gwaith cadarnhaol: ee arfer integredig/cynhwysol, hyrwyddo hawliau plant, cyfle cyfartal, arfer gwrth-wahaniaethol, herio agweddau at wahaniaethu, stereoteipio a labelu, asesu ar sail anghenion, cynllunio gan ganolbwyntio ar y plentyn, grymuso, galluogi, ategu cadarnhaol, meithrin hunan-barch, hyder a delwedd gadarnhaol o'r hunan, dulliau cyfathrebu estynedig ac amgen (ee defnydd o gymhorthion dynol a thechnolegol - ee Makaton, Iaith Arwyddion Prydain, Braille, Moon), cynorthwyo gyda datblygu strategaethau ymdopi, eiriolaeth, normau, credoau a disgwyliadau diwylliannol a chrefyddol

*Polisiau mewn lleoliadau plant sy'n hyrwyddo cynhwysiad:* ee anghenion arbennig, cyfle cyfartal, gwrth-wahaniaethu; cysyniad cynhwysiad, gofynion Ofsted, gwahaniaethu yn y cwricwlwm ac mewn gweithgareddau, ee portage, defnyddio cynlluniau addysg unigol; mynediad a diogelwch yn yr amgylchedd ffisegol, ee mynediad i gadeiriau olwyn, manau priodol ar gyfer gofal personol; gwaith amlddisgyblaeth a phartneriaeth

*Gwaith amlddisgyblaeth:* gwasanaethau integredig; rolau, ee gweithwyr allweddol, SENCO, seicolegydd addysg, ffisiotherapydd, therapydd lleferydd, gweithiwr cymdeithasol, nyrs gymunedol, pediatregydd cymunedol, athro/athrawes/cynorthwydd dosbarth/gweithiwr proffesiynol blynyddoedd cynnar, canolfannau seibiant/gofalwyr

*Gwaith partneriaeth:* cefnogaeth statudol a gwirfoddol; meithrin perthynas rhwng rhieni a gweithwyr proffesiynol, dulliau o ganolbwyntio ar y plentyn, cefnogi rhieni/gofalwyr/teuluoedd

*Cyfathrebu effeithiol:* pam mae angen cyfathrebu effeithiol rhwng rhieni a gweithwyr proffesiynol, dulliau cyfathrebu cyffredin, ee llythyr, cyfarfodydd, adolygiadau, ffôn; effaith cyfathrebu aneffeithiol ar rieni a gweithwyr proffesiynol, ee straen ar y rhieni, gofal am y plentyn yn methu, posibilrwydd y bydd perthnasoedd negyddol yn cael eu creu

*Asesu ac adolygu:* proses asesu, asesu a rheoli anghenion tymor byr a thymor hir, cynlluniau addysg unigol, datganiad o anghenion addysgol, cynnwys y plentyn a'r rhieni mewn asesiadau ac adolygiadau

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio'r lefel cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
LL1 disgrifio chwe ffactor a all olygu bod gan blant anghenion ychwanegol		
LL2 disgrifio rôl deddfwriaeth, rheoliadau a chodau ymarfer wrth ddarparu gwasanaethau i blant ag anghenion ychwanegol	T1 egluro sut mae deddfwriaeth, rheoliadau a chodau ymarfer yn helpu i hyrwyddo darparu gwasanaethau i blant ag anghenion ychwanegol	
LL3 disgrifio modelau o anabledd a sut gall y rhain effeithio ar blant a'u teuluoedd	T2 cymharu dau fodel o anabledd o ran eu heffaith bosib ar blant a'u teuluoedd	Rh1 gwerthuso dau fodel o anabledd o ran egluro'r cysyniad o anabledd
LL4 defnyddio enghreifftiau i ddisgrifio arferion gwaith cadarnhaol sy'n cefnogi plant sydd ag anghenion ychwanegol	T3 egluro swyddogaeth arferion gwaith cadarnhaol wrth gefnogi cynhwysiad mewn lleoliad i blant	
LL5 disgrifio dau bolisi mewn lleoliad i blant sy'n hyrwyddo arfer cynhwysol	T4 egluro sut mae'r polisiau'n helpu i hyrwyddo cynhwysiad yn y lleoliad	



<b>Meini prawf graddio</b>		
<b>I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:</b>
<p>Ll6 disgrifio un enghraifft o waith amlldisgyblaeth wrth gefnogi plant ag anghenion ychwanegol a'u teuluoedd</p> <p>Ll7 disgrifio swyddogaeth partneriaethau gyda rhieni wrth gefnogi plant ag anghenion ychwanegol a'u teuluoedd.</p>	<p>T5 egluro sut mae'r enghraifft o waith amlldisgyblaeth yn cefnogi plant ag anghenion ychwanegol a'u teuluoedd.</p>	<p>Rh2 gwerthuso ystod o strategaethau ar gyfer cefnogi plant ag anghenion ychwanegol a hyrwyddo cynhwysiad.</p>

## **Uned 28: Defnyddio Sgiliau Cyfathrebu Arbenigol mewn Lleoliadau i Blant**

**FfCC Lefel 3 : BTEC Cenedlaethol**

**Oriau dysgu dan arweiniad: 60**

---

### **Crynodeb o'r uned**

Nod yr uned hon yw datblygu sgiliau cyfathrebu arbenigol er mwyn galluogi dysgwyr i ddiwallu amrywiaeth o anghenion cyfathrebu plant.

Wedi cwblhau'r uned, dylai dysgwyr fedru defnyddio sgiliau cyfathrebu priodol, megis Makaton, Braille, Moon, arwyddion i'r byddar a'r dall a/neu eirfa sylfaenol berthnasol mewn ail iaith. Bydd hyn yn galluogi'r dysgwr i gyfathrebu'n effeithiol, gan ddefnyddio confensiynau cymdeithasol priodol, gyda phlant mewn amrywiaeth o leoliadau. Bydd dysgwyr hefyd yn datblygu gwerthfawrogiad o werth defnyddio dull cyfathrebu priodol er mwyn hyrwyddo arfer gwrth-wahaniaethol a chynhwysol mewn lleoliadau i blant.

Mae cynnwys dysgu ail iaith yng nghwmpas yr uned yn caniatáu i ganolfannau gynnig yr anghenion sgiliau ieithyddol mwyaf priodol ar gyfer eu hardal.

Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o effaith rhwystrau i gyfathrebu ar hunan-barch yr unigolyn. Byddant hefyd yn dod i ddeall y cysyniad bod arfer gwrth-wahaniaethol a chynhwysol yn cael ei hyrwyddo drwy ddatblygu cyfathrebu effeithiol yn barhaus. Mae plant yn dysgu parchu a gosod gwerth ar ieithoedd a dulliau cyfathrebu amgen.

### **Canlyniadau dysgu**

**Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:**

- 1 Ddeall confensiynau cymdeithasol priodol
- 2 Deall pwysigrwydd cyfathrebu wrth sicrhau diogelwch a chysur plant
- 3 Medru sefydlu anghenion union plant er mwyn hyrwyddo arfer gwrth-wahaniaethol
- 4 Medru cyfathrebu'n effeithiol gyda phlant ynghylch materion pob dydd gan ddefnyddio dull sy'n gymesur â'u hanghenion.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall confensiynau cymdeithasol priodol

*Geirfa/arwyddion:* dethol a defnyddio geirfa syml, gywir a/neu arwyddion i gyfarch ac ymateb i blant a'u rhieni neu eu gofalwyr mewn modd sy'n gymesur â'u hanghenion a'u galluoedd, cydberthynas

*Adnodd/deunyddiau:* cynhyrchu deunyddiau dysgu ac adnoddau cywir a phriodol i annog datblygiad sgiliau cyfathrebu a ddefnyddir mewn confensiynau cymdeithasol, gwerthfawrogi ail iaith

*Dileu rhwystrau:* arfer gwrth-wahaniaethol, cynhwysiad, hunan-barch

### 2 Deall pwysigrwydd cyfathrebu wrth sicrhau diogelwch a chysur plant

*Gorchmynion:* gorchmynion syml i ddiwallu anghenion yr unigolyn

*Cyfarwyddo a chwestiynu:* yng nghyd-destun amgylchedd priodol

*Ymateb:* i'r anghenion a gyfathrebwyd gan blant a'u rhieni neu eu gofalwyr

### 3 Medru sefydlu anghenion union plant er mwyn hyrwyddo arfer gwrth-wahaniaethol

*Deall:* anghenion plant

*Anghenion:* sicrhau bod anghenion plant yn cael eu diwallu

*Iaith/arwyddo:* iaith/arwydd priodol a chywir

### 4 Medru cyfathrebu'n effeithiol gyda phlant ynghylch materion pob dydd gan ddefnyddio dull sy'n gymesur â'u hanghenion

*Sgwrsio/cyfathrebu:* deunyddiau addysgu syml, cywir a phriodol i gefnogi sgwrsio sylfaenol a chyfathrebu yng nghyd-destun lleoliad gofal neu addysg blynyddoedd cynnar, ee llyfrau, gemau neu ddeunyddiau eraill i gefnogi'r dysgu

*Deunyddiau addysgu:* yng nghyd-destun amgylchedd priodol, y dull cyfathrebu a ddefnyddiwyd

*Geiriau/ymadroddion:* ystod o eiriau ac ymadroddion syml, amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu, defnydd priodol o ymadroddion ar gyfer lleoliad gofal neu addysg blynyddoedd cynnar

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio'r lefel cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
<p>LL1 disgrifio sut mae defnyddio dulliau cyfathrebu priodol yn hyrwyddo arfer gwrth-wahaniaethol a chynhwysol mewn lleoliad blynyddoedd cynnar</p> <p>LL2 cynhyrchu deunyddiau dysgu priodol sy'n cefnogi cyfathrebu arbenigol ac yn briodol ar gyfer confensiynau cymdeithasol</p> <p>LL3 defnyddio a deall gorchmynion syml, cyfarwyddyd a chwestiynau yng nghydestun amgylchedd priodol, gan sicrhau diogelwch a chysur y plant</p>	<p>T1 dadansoddi effeithiolrwydd y deunyddiau dysgu i gefnogi datblygiad sgiliau cyfathrebu sy'n briodol ar gyfer confensiynau cymdeithasol</p>	<p>Rh1 gwerthuso'u sgiliau eu hunain wrth gynhyrchu deunyddiau dysgu priodol, cymhorthion addysgu neu adnoddau eraill i gefnogi anghenion cyfathrebu arbenigol ac awgrymu ffyrdd o wella'r rhain</p>

<b>Meini prawf graddio</b>		
<b>I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:</b>
<p>Ll4 defnyddio sgiliau cyfathrebu cywir a phriodol i bennu anghenion plant</p> <p>Ll5 cyfleu, derbyn ac ymateb i negeseuon syml er mwyn cyfathrebu gyda phlant ynghylch materion pob dydd gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu cywir a phriodol.</p>	<p>T2 egluro'r angen am sgiliau cyfathrebu cywir a phriodol i bennu anghenion plant</p> <p>T3 egluro pwysigrwydd cyfathrebu gyda phlant ynghylch materion pob dydd trwy gyfrwng negeseuon syml.</p>	<p>Rh2 dadansoddi cyfraniad defnyddio dulliau cyfathrebu cywir a phriodol i gyfleu, derbyn ac ymateb i negeseuon syml mewn lleoliad i blant.</p>

## **Uned 29: Anawsterau Dysgu Penodol: Dyslecsia a Dyspracsia**

**Oriau dysgu: 60**

**FfCC Lefel 4: BTEC Cenedlaethol Uwch - H1**

---

### **Disgrifiad o'r uned**

Bydd dysgwyr yn archwilio achosion a nodweddion yr anawsterau dysgu penodol ac effaith hynny ar ddatblygiad a dysgu plant, gan ganolbwyntio ar ddyslecsia a dyspracsia. Bydd dysgwyr yn dadansoddi ystod o strategaethau cefnogi i gynorthwyo plant yn y lleoliad blynyddoedd cynnar, gan arddangos yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol gan ymarferydd uwch.

### **Crynodeb o'r canlyniadau dysgu**

**I gyflawni'r uned hon, rhaid i ddysgwyr:**

- 1 Werthuso ac archwilio theorïau ynghylch anawsterau dysgu penodol, gan ganolbwyntio ar ddyslecsia a dyspracsia
- 2 Dadansoddi ystod o nodweddion a welir gan blant sy'n dioddef o ddyslecsia a dyspracsia a thrafod yr effaith ar ddatblygiad a dysgu
- 3 Gwerthuso ystod o dechnegau asesu ar gyfer dyslecsia a dyspracsia
- 4 Gwerthuso ystod o strategaethau i gefnogi dysgu cynhwysol yn y lleoliad blynyddoedd cynnar.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Gwerthuso ac archwilio theorïau ynghylch anawsterau dysgu penodol, gan ganolbwyntio ar ddyslecsia a dyspracsia

*Achosion:* amgylcheddol, genetig

*Theorïau a dulliau:* persbectifau damcaniaethol ynghylch datblygiad lleferydd, clyw a golwg; deallusrwydd; strategaethau ar gyfer dysgu; cynlluniau addysg unigol, dulliau amlsynhwyrdd, ciwiau a dulliau atgoffa gweledol, rheoli ymddygiad, gweithgareddau hunan-barch, gwahaniaethu, defnyddio troshaenau lliw a phapur lliw, dathlu cyflawniadau, monitro ac adolygu cynnydd

*Addysg gynhwysol:* gwahanu, cynhwysiaeth, rhwystrau i gynhwysiaeth

### 2 Dadansoddi ystod o nodweddion a welir gan blant sy'n dioddef o ddyslecsia a dyspracsia a thrafod yr effaith ar ddatblygiad a dysgu

*Nodweddion:* ee sgiliau trefniadol, hyfedredd, blinder, osgoi tasgau, nam cysylltiedig ar y clyw, rhwystredigaeth, diffyg hunan-barch, ymddygiad dieisiau, effeithiau ar iaith lafar, Syndrom Meres-Irlan, cysylltiadau ag Anhwylder Diffyg Canolbwyntio, Anhwylder Gorfywiogrwydd Diffyg Canolbwyntio

*Anawsterau dysgu:* sgiliau ysgrifennu, sillafu, darllen, effaith ar oedrannau darllen a sillafu, copïo, prosesu gwybodaeth, cof tymor byr a storio gwybodaeth, dyscalcwla

### 3 Gwerthuso ystod o dechnegau asesu ar gyfer dyslecsia a dyspracsia

*Technegau sgrinio ac asesu:* profion sgrinio ar gyfer dyslecsia a dyspracsia, asesu gan y seicolegydd addysg a/neu SENCO, anawsterau a rhwystrau o ran diagnosis ac asesu

### 4 Gwerthuso ystod o strategaethau i gefnogi dysgu cynhwysol yn y lleoliad blynyddoedd cynnar

*Strategaethau:* dulliau amlsynhwyrdd o ddysgu, defnyddio troshaenau lliw a phapur lliw, datblygu cof gweledol, defnyddio ciwiau a dulliau atgoffa gweledol, gwahaniaethu a hwyluso cyflawniadau, gweithgareddau i hybu hunan-barch, dulliau o ddatblygu sgiliau trefniadol, defnyddio 'campfa'r ymennydd' i ddatblygu canolbwyntio a hyfedredd, cefnogi blinder, defnyddio cynlluniau addysg unigol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig (2001)

## Canlyniadau a meini prawf asesu

Canlyniadau	Meini prawf asesu ar gyfer llwyddo
	<b>I gyflawni pob canlyniad rhaid i ddysgwyr ddangos y gallu i wneud y canlynol:</b>
1 Gwerthuso ac archwilio theorïau ynghylch anawsterau dysgu penodol, gan ganolbwyntio ar ddyslecsia a dyspracsia	<ul style="list-style-type: none"> <li>Trafod anawsterau dysgu penodol a phwysigrwydd eu hadnabod yn gynnar.</li> <li>Dadansoddi'r prif ddamcaniaethau ynghylch anawsterau dysgu penodol o ran eu heffaith ar ddatblygiad a dysgu, a datblygu strategaethau ymdopi.</li> <li>Gwerthuso'r cysyniad o addysg gynhwysol.</li> </ul>
2 Dadansoddi ystod o nodweddion a welir gan blant sy'n dioddef o ddyslecsia a dyspracsia a thrafod yr effaith ar ddatblygiad a dysgu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Trafod yr ystod o nodweddion ac anawsterau dysgu y gellir eu gweld gan blant sy'n dioddef o ddyslecsia a dyspracsia.</li> <li>Dadansoddi effaith anawsterau dysgu ar ddatblygiad a dysgu.</li> <li>Dadansoddi effaith y nodweddion ar ymddygiad, hunan-barch a hyder.</li> </ul>
3 Gwerthuso ystod o dechnegau asesu ar gyfer dyslecsia a dyspracsia	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwerthuso ystod o dechnegau sgrinio ac asesu ar gyfer dyslecsia a dyspracsia a ddefnyddir yn y blynyddoedd cynnar.</li> <li>Trafod rhwystrau i asesu effeithiol a rhoi cefnogaeth ychwanegol ar waith.</li> </ul>
4 Gwerthuso ystod o strategaethau i gefnogi dysgu cynhwysol yn y lleoliad blynyddoedd cynnar	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwerthuso ystod o strategaethau cynhwysol a ddefnyddir i gefnogi plant sy'n dioddef o ddyslecsia a dyspracsia.</li> <li>Gwerthuso'r broses o gaffael datganiad o anghenion addysgol arbennig (Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig 2001).</li> </ul>

Mae'r meini prawf teilyngdod a rhagoriaeth yn *Atodiad I*.



## Uned 30: Therapiau Cyflenwol i Blant

FfCC Lefel 3 : BTEC Cenedlaethol

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

---

### Crynodeb o'r uned

Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwyr i therapiau cyflenwol a'u gwerth posib wrth gefnogi triniaeth feddygol a gofal ystod o gyflyrau plant. Bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd i archwilio a phrofi gwahanol therapiau cyflenwol, ac ystyried sut gellir eu defnyddio i gynorthwyo wrth drin ystod o gyflyrau plant.

Edrychir hefyd ar y peryglon posib sy'n gysylltiedig â therapiau cyflenwol, ac ar hyrwyddo defnydd diogel ohonynt. Mae'r uned hefyd yn cyflwyno gofynion hyfforddi a chymhwyso gwahanol therapyddion cyflenwol, a'u pwysigrwydd.

Bydd yr uned hon o ddefnydd i ddysgwyr sy'n bwriadu mynd ymlaen i ymuno â'r gweithlu plant wedi cwblhau'r rhaglen, a hefyd i'r rheiny sydd am symud ymlaen i astudiaeth bellach neu uwch. Bydd yn ehangu profiadau dysgwyr wrth iddynt symud drwy'r rhaglen.

### Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Ddeall therapiau cyflenwol y gellir eu defnyddio gyda phlant
- 2 Gwybod sut gall therapiau cyflenwol gynorthwyo wrth drin cyflyrau cyffredin plentyndod
- 3 Deall y peryglon sy'n gysylltiedig â therapiau cyflenwol a sut mae hyrwyddo defnydd diogel ohonynt
- 4 Deall gofynion hyfforddi a chymhwyso therapyddion cyflenwol.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall therapiâu cyflenwol y gellir eu defnyddio gyda phlant

*Amlinelliad o'r egwyddorion a'r arferion:* pob therapi a'r defnyddiau cyffredin ar ei chyfer, gan gynnwys gwrth-rybuddion

*Ystod o therapiâu cyflenwol:* ee aciwbigo, aromatherapi, therapi celf, Ayurveda, meddyginiaethau blodau Bach, halwynau meinwe biogemeg, biorhythmau, ciropracteg, therapi lliw, therapi creuanol-sacrol, pensaernïaeth Feng Shui, meddyginiaeth lysieuol, homeopathi, hydrotherapi, cinesioleg, therapi maeth, tyfino, naturopatheg, osteopatheg, adweitheg, iachâd Reiki, ymlacio

*Cydsyniad:* presenoldeb rhieni/gofalwyr; rheolwr

### 2 Gwybod sut gall therapiâu cyflenwol gynorthwyo wrth drin cyflyrau cyffredin plentyndod

*Defnyddio therapiâu cyflenwol penodol:* ochr yn ochr â thriniaethau meddygol; i drin mân gyflyrau

*Defnyddio therapiâu cyflenwol ar gyfer cyflyrau a allai fod yn ddifrifol:* ochr yn ochr â thriniaeth feddygol ar gyfer, ee ecsema, asthma, bronciolitis, dolur rhydd a chwydu - yn enwedig ymhlith babanod a phlant bach, heintiau yn y glust, alergeddau; dan arweiniad ymarferydd meddygol

*Defnyddio therapiâu cyflenwol ar gyfer cyflyrau cyffredin:* ee alergeddau, asthma, anhwylderau diffyg canolbwyntio, gwlychu'r gwely, bronciolitis, brathiadau a phigiadau, llosgiadau a sgaldanu, anwydydd, catarrh, brech yr ieir, crudgen, llid yr amrannau, rhwymo, llefain, cystitis, dolur rhydd a chwydu, heintiau yn y glust (gan gynnwys gormod o gwyr), heintiau yn y llygad, ecsema, twymyn, alergeddau bwyd, llau pen, colic, laryngitis, y frech goch, meigrin, mymps, brechau, llyngyr, methu cysgu, torri dannedd, salwch wrth deithio

### 3 Deall y peryglon sy'n gysylltiedig â therapiâu cyflenwol a sut mae hyrwyddo defnydd diogel ohonynt

*Peryglon cysylltiedig â therapiâu cyflenwol:* ee gorddos, ymatebion tocsig, niwed i'r croen (ee llosgiadau), triniaeth is-therapiwtig/aneffeithiol, niwed corfforol (ee i'r asgwrn cefn neu'r cymalau); defnydd diogel o feddyginiaethau cartref a'r risgiau cysylltiedig

*Sefyllfaoedd pan ddylid cyfeirio'r plentyn at ymarferydd meddygol:* ee asthma llym, bronciolitis ac ecsema nad yw'n ymateb i driniaeth

### 4 Deall gofynion hyfforddi a chymhwyso therapyddion cyflenwol

*Therapyddion cymwysedig:* ble mae casglu gwybodaeth/manylion cofrestru

*Gofynion hyfforddi a chymhwyso cysylltiedig:* gofynion cofrestru ar gyfer therapyddion, goblygiadau cyfreithiol, ee yr angen am gymwysterau priodol, cyfreitha a charmarfer, Deddf Moddion 1968

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio'r lefel cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
LL1 disgrifio pedair therapi gyflenwol y gellir eu defnyddio gyda phlant	T1 egluro gwerth pedair therapi gyflenwol y gellir eu defnyddio gyda phlant	
LL2 disgrifio defnydd therapiau cyflenwol wrth gefnogi triniaethau meddygol ar gyfer tri chyflwr plentyndod a allai fod yn ddifrifol	T2 egluro gwerth therapiau cyflenwol wrth gefnogi triniaethau meddygol ar gyfer tri chyflwr plentyndod a allai fod yn ddifrifol	Rh1 gwerthuso swyddogaeth bosib therapiau cyflenwol wrth drin cyflyrau a allai fod yn ddifrifol
LL3 disgrifio defnydd therapiau cyflenwol wrth gefnogi triniaethau meddygol ar gyfer tri chyflwr plentyndod a allai fod yn ddifrifol	T3 egluro manteision therapiau cyflenwol wrth gefnogi triniaethau meddygol ar gyfer tri chyflwr plentyndod a allai fod yn ddifrifol	Rh2 gwerthuso defnydd therapiau cyflenwol gyda phlant, gan gyflwyno argymhellion er mwyn sicrhau arfer diogel.
LL4 egluro pedwar perygl posib sy'n gysylltiedig â therapiau cyflenwol		
LL5 disgrifio'r gofynion deddfwriaethol, hyfforddiant a chofrestru ar gyfer tri math o therapyddion cyflenwol.	T4 egluro pwysigrwydd gofynion deddfwriaethol, hyfforddiant a chofrestru ar gyfer therapyddion cyflenwol.	

# Uned 31: Cyflwyniad i Waith Chwarae

FfCC Lefel 3: BTEC Cenedlaethol

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

---

## Crynodeb o'r uned

Mae'r egwyddorion sy'n darparu sylfaen ar gyfer arfer gwaith chwarae yn wahanol i egwyddorion sylfaenol arfer ym maes gofal, dysgu a datblygiad plant, ac mae cydnabod y gwahaniaeth hwn yn allweddol i sicrhau dealltwriaeth gychwynnol o waith chwarae. Mae gwaith chwarae'n digwydd mewn sefydliadau penodol sydd â'r unig nod o ddarparu chwarae plant, ond mae hefyd yn digwydd mewn lleoliadau sy'n cyflawni swyddogaethau eraill. Elfen ganolog wrth ddeall gwaith chwarae, felly, yw'r cyd-destun y mae gweithwyr chwarae'n gweithredu oddi mewn iddo o ran deddfwriaeth a'r polisiau a chanllawiau sefydliadol sy'n effeithio ar arfer.

Theori gwaith chwarae yw'r sylfaen ar gyfer arfer, a bydd dysgwyr yn cael trosolwg o brif elfennau theori chwarae. Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o theori ar sail ei chymhwyso i gyd-destun gwaith.

Bydd yr uned hon yn rhoi trosolwg o rôl yr ymarferydd. Bydd yn darparu sylfaen ar gyfer deall y sector, archwilio agweddau allweddol megis y fframwaith deddfwriaethol, egwyddorion gwaith chwarae, a bydd yn gosod gwaith chwarae yng nghyd-destun fframwaith damcaniaethol ac ymarferol.

Mae cysylltiadau gydag *Uned 32: Yr Amgylchedd Gwaith Chwarae* ac *Uned 33: Chwarae Hunan-gyfeiriol*.

## Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Ddeall egwyddorion a chyd-destun gwaith chwarae
- 2 Gwybod am y fframwaith deddfwriaethol a sefydliadol y mae gwaith chwarae'n gweithredu oddi mewn iddo
- 3 Deall y sail ddamcaniaethol ar gyfer gwaith chwarae
- 4 Deall beth sy'n creu ymarferydd gwaith chwarae effeithiol.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall egwyddorion a chyd-destun gwaith chwarae

*Egwyddorion:* Rhagdybiaethau Egwyddorion Gwaith Chwarae a Gwerthoedd SkillsActive 2005, proses chwarae, dulliau ymyrraeth oedolion, perchnogaeth ar y lle chwarae, adnabod tensiynau rhwng agendâu oedolion ac egwyddorion gwaith chwarae

*Cyd-destun:* fframwaith diwydiant eang sy'n cynnwys chwarae, hamdden, ymarfer corff a ffitrwydd, cysylltiadau gwaith chwarae gyda darpariaeth gofal plant, rôl SkillsActive, cysylltiadau â chynghorau sgiliau sector o ran gofal, dysgu a datblygiad plant, ystod o ddarparwyr gwahanol: statudol, gwirfoddol, preifat, awdurdodau lleol; rôl gwasanaethau arolygu; cyd-destun, ee cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau, canolfannau chwarae, mannau chwarae antur, unedau chwarae teithiol, chwarae mewn ysbytai, clybiau ar ôl ysgol, mae gwaith chwarae ar gael ble bynnag mae chwarae'n digwydd, a dyma'r prif ffocws

### 2 Gwybod am y fframwaith deddfwriaethol a sefydliadol y mae gwaith chwarae'n gweithredu oddi mewn iddo

*Deddfwriaeth:* deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol o ran hawliau dynol, gwahaniaethu a chydraddoldeb, cysylltiadau hil, rhywioldeb, anabledd, rhyw, ee Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, deddfwriaeth genedlaethol ar hawliau plant a phobl ifanc, Deddf Plant 1989, 2004, Deddf Safonau Gofal 2000, Deddfau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, Deddf Amddiffyn Plant 1999

*Fframweithiau sefydliadol:* polisiau a gweithdrefnau cyffredin ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae, yn cynnwys iechyd a diogelwch, ymddygiad, derbyn plant, cynhwysiad, amddiffyn plant, a sut mae'r rhain yn effeithio ar blant a phobl ifanc; dulliau arwain, strwythurau rheoli, rolau a chyfrifoldebau; cysylltiadau a pherthynas â pholisi chwarae lleol, partneriaethau, mentrau a chanllawiau; y gwahaniaeth rhwng darpariaeth chwarae ar wahân ac arwahanol, integredig a chynhwysol; pwysigrwydd ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc

### 3 Deall y sail ddamcaniaethol ar gyfer gwaith chwarae

*Theori chwarae:* ciwiau chwarae, fframiau chwarae, cylch chwarae, adenillion chwarae, metalwdu, seicolwdeg

*Mathau o chwarae:* cyfathrebu, creadigol, dwfn, dramatig, archwiliadol, ffantasi, dychmygol, ymsymudol, meistrolaeth, gwrthrych, rôl, garw, cymdeithasol, sosio-ddramatig, symbolaidd, affeithiol

*Disgrifwyr hwyliau:* hapus, annibynnol, hyderus, allgarol, llawn ymddiried, cytbwys, actif, wedi'i drochi, cyffyrddus

*Moddau ymddygiad:* cyfeiriad personol, symbyliad cynhenid, digymell, heb nod

*Mannau chwarae:* dros dro, parhaol

#### 4 Deall beth sy'n creu ymarferydd gwaith chwarae effeithiol

*Rolau gweithiwr chwarae:* hwylusydd, rheolwr/arweinydd/goruchwyliwr, oedolyn profiadol, gwrandawr parchus, ffynhonnell syniadau, cwmni cyfeillgar, esiempl ymddygiad, dyfarnwr diduedd, ceidwad y porth, ymarferydd myfyriol, mewn perthnasoedd, wrth gyfathrebu, hyrwyddo arfer cynhwysol, hyrwyddo dulliau cadarnhaol o gefnogi ymddygiad plant, cefnogi chwarae, cefnogi datblygiad plant

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo'n disgrifio'r lefel o gyrhaeddiad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
LL1 disgrifio egwyddorion, rhagdybiaethau a gwerthoedd gwaith chwarae  LL2 disgrifio ystod o leoliadau lle mae gwaith chwarae'n digwydd  LL3 nodi deddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â gwaith chwarae  LL4 disgrifio polisiau a gweithdrefnau lleoliad gwaith chwarae penodol  LL5 disgrifio theoriâu sy'n ymwneud ag arfer gwaith chwarae  LL6 disgrifio rolau a chyfrifoldebau gweithiwr chwarae.	T1 dadansoddi egwyddorion, rhagdybiaethau a gwerthoedd gwaith chwarae yng nghyd-destun lleoliad chwarae             T2 egluro sut mae theori gwaith chwarae yn sylfaen ar gyfer trefniadaeth lleoliad gwaith chwarae             T3 egluro sut mae ymarferydd gwaith chwarae effeithiol yn cyflawni ei rolau a'i gyfrifoldebau mewn cyd-destun gwaith chwarae.	Rh1 gwerthuso egwyddorion, rhagdybiaethau a gwerthoedd gwaith chwarae yng nghyd-destun theori ac arfer gwaith chwarae             Rh2 dadansoddi'r tensiynau rhwng chwarae, gwaith chwarae a rôl yr ymarferydd, gan ystyried yr ystod amrywiol o amgylcheddau lle gall gwaith chwarae ddigwydd.

## Uned 32: Yr Amgylchedd Gwaith Chwarae

FfCC Lefel 3 : BTEC Cenedlaethol

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

---

### Crynodeb o'r uned

Ffocws yr uned hon yw cynnal cydbwysedd rhwng chwarae a risg yn yr amgylchedd gwaith chwarae. Mae'r uned yn darparu dealltwriaeth o hawliau plant a phobl ifanc mewn lleoliad chwarae yn unol â'r ddeddfwriaeth a chanllawiau, a sut cymerir y rhain i ystyriaeth yn y gweithle.

Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o'r termau perygl a risg a'r berthynas â chyfnod datblygiad plentyn. Edrychir ar rôl y gweithiwr chwarae wrth hwyluso diogelwch corfforol, emosiynol a phersonol yn ôl oedran, anghenion a galluoedd y plentyn, ac ar yr un pryd caniatáu ar gyfer risg a her.

Bydd dysgwyr yn ystyried effaith deddfwriaeth a pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol yn eu hymwneud ag amgylchedd gwaith chwarae. Ystyrir deddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau sefydliadol yn eu cyd-destun wrth i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o sut mae cynllunio a pharatoi manau chwarae.

Bydd dysgwyr hefyd yn datblygu dealltwriaeth o rôl y gweithiwr chwarae wrth reoli buddiannau cyfrannol lleoliad chwarae, a fydd weithiau'n gwrthdaro, yn ogystal â dealltwriaeth o rôl y gweithiwr chwarae mewn sefyllfaoedd o argyfwng.

Mae cysylltiadau gydag *Uned 31: Cyflwyniad i Waith Chwarae* ac *Uned 33: Chwarae Hunan-gyfeiriol*.

### Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Wybod am hawliau plant a phobl ifanc mewn lleoliad chwarae
- 2 Medru asesu risg yng nghyd-destun gwaith chwarae
- 3 Gwybod sut mae helpu plant a phobl ifanc i nodi a rheoli risg
- 4 Deall rôl y gweithiwr chwarae wrth wynebu risgiau.



## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Gwybod am hawliau plant a phobl ifanc mewn lleoliad chwarae

*Deddfwriaeth a chanllawiau:* deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol, ee confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn, deddfwriaeth genedlaethol ar hawliau plant a phobl ifanc, Deddfau Hawliau Dynol, Deddf Plant 1989, 2004, Deddf Safonau Gofal 2000, Deddfau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, Deddf Amddiffyn Plant 1999, Deddfau ynghylch gwahaniaethu a chydaddoldeb, er enghraifft, cysylltiadau hil, rhywioldeb, anabled a rhyw

*Polisiau a gweithdrefnau sefydliadol:* polisiau a gweithdrefnau cyffredin ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae, yn cynnwys, ee iechyd a diogelwch, ymddygiad, derbyn plant, cynhwysiad, amddiffyn plant, a sut mae'r rhain yn effeithio ar blant a phobl ifanc; dulliau arwain, strwythurau rheoli, rolau a chyfrifoldebau; cysylltiadau a pherthynas â pholisi chwarae lleol, partneriaethau, mentrau a chanllawiau; y gwahaniaeth rhwng darpariaeth chwarae ar wahân ac arwahanol, integredig a chynhwysol; pwysigrwydd ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc

### 2 Medru asesu risg yng nghyd-destun gwaith chwarae

*Perygl:* rhywbeth a allai achosi niwed

*Risg:* y tebygolrwydd y gallai'r perygl achosi niwed mewn gwirionedd, ee y posibilrwydd o anaf a niwed i bobl, y posibilrwydd o haint, y posibilrwydd o berygl; cysyniad y lefel o risg, asesu risg

*Asesu risg:* nodi peryglon, risgiau i blant a phobl ifanc yn sgîl pob perygl a aseswyd, risgiau i weithwyr chwarae yn sgîl pob perygl a aseswyd, lleiafu'r risgiau, argymhellion ar gyfer gwella

*Yr Amgylchedd:* cyd-destun chwarae, deunyddiau sydd ar gael, risgiau cysylltiedig gyda mathau o chwarae

*Datblygiad ac anghenion diogelwch plant:* datblygiad plant ar wahanol gyflymdra, ond yn ddilyniannol, meysydd datblygiad – corfforol, cymdeithasol, emosiynol a deallusol; effaith cyfnod datblygiad plentyn ar y trefniadau iechyd, diogelwch a diogeledd yn yr amgylchedd chwarae

### 3 Gwybod sut mae helpu plant a phobl ifanc i nodi a rheoli risg

*Nodi risgiau:* asesu risgiau yng nghyd-destun chwarae plant a'r perthnasedd i'w datblygiad – corfforol, emosiynol, deallusol, ymddygiad, amgylcheddol; risg o ran oedran a chyfnod datblygiad, caniatáu i blant archwilio a phrofi

*Rheoli risgiau:* cynnal cydbwysedd rhwng risg a manteision her ac ysgogiad, cynyddu ymwybyddiaeth plant o beryglon (perthnasol i rai 4-16 oed), gan ymyrryd dim ond pan fydd lefel y risg yn annerbyniol

#### 4 Deall rôl y gweithiwr chwarae wrth wynebu risgiau

*Deddfwriaeth a chanllawiau:* fel sy'n berthnasol i leoliad gwaith chwarae: ee Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, Deddf Diogelwch Bwyd 1990, Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd Cyffredinol) 1995, Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR), Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999, Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) 2002, Deddf Plant 2004, Deddf Gofal Plant 2004

*Polisiau a gweithdrefnau:* sefydliadol

*Chwarae:* caniatáu i blant archwilio a phrofi risg wrth chwarae; annog plant i asesu risgiau drostynt eu hunain yn ôl eu hoedran, eu hangen a'u gallu; sylfeini damcaniaethol angen plentyn am risg; cydbwysu risg a her gydag ymyrraeth; risgiau cysylltiedig â dod i leoliad ac ymadael

*Argyfyngau:* gweithdrefnau'r gweithle mewn achosion o salwch, anafiadau ac argyfyngau; gweithdrefnau tân; rôl a chyfrifoldebau'r person cymorth cyntaf; ceisio cyngor meddygol; gweithdrefnau mewn achosion o dân, diogeledd, pobl ar goll; pryd dylid galw'r gwasanaethau brys; cofnodi ac adrodd

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo'n disgrifio'r lefel o gyrhaeddiad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
LL1 amlinellu'r ddeddfwriaeth a'r arweiniad sy'n ymwneud â hawliau plant a phobl ifanc		
LL2 disgrifio sut mae polisiâu a gweithdrefnau ar gyfer lleoliad gwaith chwarae penodol yn helpu i hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc	T1 egluro sut mae polisiâu a gweithdrefnau ar gyfer lleoliad chwarae penodol yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth o ran hawliau plant a phobl ifanc	Rh1 dadansoddi tensiynau rhwng risg a her, gan gyfiawnhau pryd y gall ac y dylai ymyrraeth ddigwydd
LL3 disgrifio asesiad risgiau personol mewn lleoliad chwarae	T2 egluro camau asesiad risgiau personol mewn lleoliad chwarae	Rh2 gwerthuso'u hasesiad risgiau personol mewn lleoliad chwarae, gan gynnwys adborth gan blant a phobl ifanc a strategaethau iddynt reoli risgiau eu hunain.
LL4 disgrifio dulliau i helpu plant a phobl ifanc i reoli risg	T3 egluro sut gellir cefnogi plant i nodi a rheoli risgiau mewn lleoliad chwarae.	
LL5 disgrifio rôl y gweithiwr chwarae wrth reoli risg		
LL6 disgrifio rôl y gweithiwr chwarae mewn sefyllfaoedd argyfwng.		

## Uned 33: Chwarae Hunan-gyfeiriol

FfCC Lefel 3 : BTEC Cenedlaethol

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

---

### Crynodeb o'r uned

Mae'r uned hon yn ymwneud ag angen plant a phobl ifanc i chwarae, gan ganolbwyntio ar y cysyniad o chwarae hunangyfeiriol a sut mae plant yn chwarae, yn ôl eu cyfnod datblygiad. Bydd dysgwyr yn tynnu ar beth o'r theori sy'n sylfaen ar gyfer y cysyniad o chwarae hunangyfeiriol y buont yn ei ystyried yn *Uned 31: Cyflwyniad i Waith Chwarae*.

Mae'r uned yn gofyn bod dysgwyr yn ymchwilio i anghenion chwarae plant a phobl ifanc ac o hynny allan yn medru dyfeisio strategaethau i gefnogi'r anghenion hyn. Mae'r strategaethau cadarnhaol hyn yn cynnwys y rheidrwydd i gynnwys plant yn natblygiad eu hamgylchedd.

Bydd yr uned hon yn cwmpasu datblygiad plentyn, manteision tymor byr a thymor hir chwarae, cynllunio a pharatoi manau chwarae, modelau ymddygiad, mathau o chwarae, ymgynghori, arsylwi, cynllunio, arfer, a bydd yn canolbwyntio ar ddefnyddio iaith gwaith chwarae proffesiynol.

Wrth hybu chwarae hunangyfeiriol bydd yr uned yn cefnogi dysgwyr i ddeall sut mae galluogi plant i reoli risgiau drostynt eu hunain.

Mae cysylltiadau gydag *Uned 31: Cyflwyniad i Waith Chwarae* ac *Uned 32: Yr Amgylchedd Gwaith Chwarae*.

### Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Ddeall anghenion a dewisiadau chwarae plant a phobl ifanc
- 2 Deall sut mae cefnogi chwarae hunangyfeiriol
- 3 Medru cynllunio a pharatoi manau chwarae i hwyluso chwarae hunangyfeiriol
- 4 Gwybod sut mae datblygu a hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall anghenion a dewisiadau chwarae plant a phobl ifanc

*Theori ac ymarfer gwaith chwarae:* dulliau o ymddwyn, disgrifwyr moddau, mathau o chwarae; anghenion chwarae plant a phobl ifanc, ystod o fannau chwarae ac adnoddau; cyfnodau datblygiad plant: prif gyfnodau datblygiad plant o 4-16 oed; sut mae cyfnodau datblygiad plant yn effeithio ar eu hanghenion chwarae a'u hymddygiad

*Ymchwilio:* arsylwi plant wrth iddynt chwarae: nodi rhwystrau a rhwystrau posib, gan gyfeirio at yr ymchwil a wnaed; ymgynghori gyda phlant - yn ysturlon ac yn bwrpasol, gan ymchwilio i'w syniadau o ran anghenion a dewisiadau chwarae

### 2 Deall sut mae cefnogi chwarae hunangyfeiriol

*Gweithio gyda phlant a phobl ifanc:* grymuso plant i ddewis ac archwilio drostynt eu hunain, cynnal fframiau chwarae plant, ymateb i giwiau chwarae yn unol â'r cylch chwarae; deall manteision tymor byr a thymor hir chwarae

### 3 Medru cynllunio a pharatoi manau chwarae i hwyluso chwarae hunangyfeiriol

*Cynlluniau:* y gellir eu haddasu, cynhwysol, hygyrch, wedi'u seilio ar ymchwil ac arsylwi, wedi'u creu gyda phlant, sy'n cydymffurfio â pholisïau'r sefydliad, gweithdrefnau a deddfwriaeth, gan ystyried adnoddau, sy'n cynnwys ystod o fannau chwarae ac yn caniatáu ar gyfer gwahanol fathau o chwarae

*Paratoi:* cynnwys y plant/bobl ifanc wrth baratoi'r amgylchedd, yn unol â'r cynlluniau

*Chwarae Hunan-gyfeiriol:* cynnwys a bwriad y chwarae yn cael eu pennu gan y plentyn

### 4 Gwybod sut mae datblygu a hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion

*Perthnasoedd cadarnhaol:* peri bod plant/pobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u gwerthfawrogi; gofal a pharch tuag at yr holl blant/bobl ifanc yn y lleoliad chwarae

*Rôl y gweithiwr chwarae:* deall bod gwahanol gyfnodau'n dylanwadu ar berthnasoedd a chyfathrebu, ymddygiad gweithiwr chwarae gyda phlant, trafod gyda phlant, y plant yn ymwneud ag eraill ac yn rhyngweithio gyda nhw

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo'n disgrifio'r lefel o gyrhaeddiad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
LL1 disgrifio'r theori a'r ymarfer sy'n cefnogi chwarae hunan-gyfeiriol  LL2 disgrifio dulliau o ymchwilio i anghenion a dewisiadau chwarae plant  LL3 egluro rôl y gweithiwr chwarae wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc i gynllunio'u hamgylchedd chwarae  LL4 disgrifio'u gwaith eu hunain yn cynllunio a pharatoi man chwarae sy'n hwyluso chwarae hunan-gyfeiriol	T1 egluro sut gellir defnyddio ymchwil i wella dealltwriaeth o anghenion chwarae plant a phobl ifanc mewn cyd-destun gwaith chwarae          T2 egluro sut bu i'w gwaith eu hunain yn cynllunio a pharatoi man chwarae yn ymgorffori anghenion a dewisiadau plant a phobl ifanc	Rh1 gwerthuso rôl ymchwil fel modd i gyfeirio'r gwaith o baratoi mannau chwarae          Rh2 gwerthuso'r man chwarae a gynlluniwyd ac a baratowyd o ran adnoddau a mannau priodol, cynnwys plant a phobl ifanc a datblygu perthnasoedd gwaith cadarnhaol.

<b>Meini prawf graddio</b>		
<b>I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:</b>
<p>L15 egluro strategaeth ar gyfer hyrwyddo perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda phlant ac oedolion mewn lleoliad chwarae.</p>	<p>T3 egluro rôl y gweithiwr chwarae wrth hyrwyddo perthnasoedd gwaith cadarnhaol, ac ar yr un pryd sicrhau bod cyfle i'r plant archwilio'u hanghenion a'u dewisiadau chwarae eu hunain.</p>	

## **Uned 34: Dulliau Ewropeaidd o Ymdrin â Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant**

**FfCC Lefel 3 : BTEC Cenedlaethol**

**Oriau dysgu dan arweiniad: 60**

---

### **Crynodeb o'r uned**

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i archwilio dulliau o ymdrin â gofal, dysgu a datblygiad plant mewn cyd-destun Ewropeaidd.

Yn union fel y gall unigolion ddysgu gydag eraill, gall cenedloedd ddysgu gyda gwledydd eraill. Fodd bynnag, mae gwledydd yn amrywio mewn llawer o ffyrdd, ac mae polisiau a mentrau'n datblygu mewn cyd-destun cenedlaethol penodol. Nid ydynt felly bob amser yn hawdd eu trosglwyddo o un wlad i un arall.

Bydd dysgwyr yn edrych ar y ddarpariaeth ar gyfer gofal, dysgu a datblygiad plant mewn gwlad Ewropeaidd benodol (y tu allan i'r Deyrnas Unedig) ac yna'n ystyried enghreifftiau o arfer da o nifer o wahanol wledydd yn Ewrop. Mae dull Reggio Emilia yn arbennig yn edrych ar ddysgu fel proses o gyd-lunio gwybodaeth trwy rannu dealltwriaeth, ac felly creu dealltwriaeth newydd. Trwy ymdrin â dysgu fel hyn, gallai gwledydd yn hawdd iawn ddysgu oddi wrth wledydd eraill.

Bydd dysgwyr yn elwa o'r uned hon trwy gaffael mwy o ddyfnder o wybodaeth a dealltwriaeth mewn cyd-destun eang.

### **Canlyniadau dysgu**

**Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:**

- 1 Ddeall deddfwriaeth, cytundebau a chanllawiau rhyngwladol ac Ewropeaidd sy'n ymwneud â gofal, dysgu a datblygiad plant
- 2 Deall y ddarpariaeth ar gyfer gofal, dysgu a datblygiad plant mewn gwlad benodol yn Ewrop
- 3 Deall enghreifftiau rhyngwladol o arfer da ym maes gofal, dysgu a datblygiad plant.



## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall deddfwriaeth, cytundebau a chanllawiau rhyngwladol ac Ewropeaidd sy'n ymwneud â gofal, dysgu a datblygiad plant

*Sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd:* Cyngor Ewrop, Cyngor y Gweinidogion, Y Comisiwn Ewropeaidd, Senedd Ewrop, Llys Cyfiawnder Ewrop

*Cyfansoddiad Ewrop:* effeithiau ar ddarpariaeth gofal plant y Deyrnas Unedig

*Gweithwyr gofal plant:* hawliau yn Ewrop, cyfatebiaeth cymwysterau, gofynion wrth weithio dramor

*Swyddogaeth sefydliadau rhyngwladol:* ee Cronfa'r Cenhedloedd Unedig ar gyfer Plant; Swyddfa Cynrychiolydd Arbennig Ysgrifennydd Cyffredinol Plant a Gwrthdaro Milwrol, y Sefydliad dros Gydweithrediad a Datblygiad Economaidd; Achub y Plant, Y Groes Goch Ryngwladol

*Canllawiau a chytundebau rhyngwladol:* Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1959; Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989, Cytundebau'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol ar lafur plant, cytundebau gwirfoddol, ee Achub y Plant, y Groes Goch Ryngwladol

*Digwyddiadau/ymgyrchoedd:* ee Uwchgynhadledd y Byd dros Blant 1990

### 2 Deall y ddarpariaeth ar gyfer gofal, dysgu a datblygiad plant mewn gwlad benodol yn Ewrop

*Darpariaeth ar gyfer gofal, dysgu a datblygiad plant:* ee gofal plant, meithrin, addysg, cymdeithasol, iechyd, magu plant, teulu, chwarae

*Gwlad benodol yn Ewrop:* aelod o'r Undeb Ewropeaidd; y tu allan i'r Deyrnas Unedig

*Rôl y llywodraeth:* Ewropeaidd; cenedlaethol; y berthynas rhwng Ewrop a'r llywodraeth genedlaethol; dylanwad sefydliadau nad ydynt yn rhan o'r llywodraeth

*Dylanwadau diwylliannol:* ee crefydd, teulu, cymuned, gwladwriaeth, economi

*Darpariaeth reoliadol:* ee deddfwriaeth, rheoliadau, cyfarwydddebau, siarteri

### 3 Deall enghreifftiau rhyngwladol o arfer da ym maes gofal, dysgu a datblygiad plant

*Darpariaeth ar gyfer gofal, dysgu a datblygiad plant:* ee gofal plant, meithrin, addysg, cymdeithasol, iechyd, magu plant, teulu, chwarae

*Enghreifftiau o arfer da:* ee Sweden - dull cyfannol; Reggio Emilia - cwricwlwm a drafodwyd; Seland Newydd - strategaeth addysg plentyndod cynnar; Denmark - dull addysgeg; Y Ffindir - dull cyfannol; Fflandrys - cynhwysiad yn y system addysg gynnar

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo'n disgrifio'r lefel o gyrhaeddiad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
<p>LL1 disgrifio dylanwad yr Undeb Ewropeaidd ar y ddarpariaeth gofal plant yn y DU.</p> <p>LL2 amlinellu'r prif ganllawiau a chytundebau rhyngwladol ar hawliau'r plentyn</p> <p>LL3 disgrifio gofynion Ewrop o ran gweithwyr gofal plant o'r DU sydd am weithio dramor</p> <p>LL4 disgrifio'r ddarpariaeth gofal plant mewn gwlad Ewropeaidd y tu allan i'r DU</p>	<p>T1 egluro dylanwad yr Undeb Ewropeaidd a chanllawiau a chytundebau rhyngwladol ar y ddarpariaeth gofal plant yn y DU.</p> <p>T2 cymharu a chyferbynnu'r ddarpariaeth gofal plant mewn gwlad Ewropeaidd y tu allan i'r DU gyda'r hyn a geir yn y DU.</p>	<p>Rh1 dadansoddi effeithiolrwydd posibil canllawiau a chytundebau'r Undeb Ewropeaidd a rhai rhyngwladol ar y canlyniadau i blant</p>

<p>LL5 disgrifio dwy enghraifft ryngwladol o arfer da sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth ym maes gofal, dysgu a datblygiad plant.</p>	<p>T3 egluro, gan ddefnyddio enghreifftiau, sut gallai dwy enghraifft ryngwladol o arfer da yn y ddarpariaeth gofal, dysgu a datblygiad plant ddylanwadu ar y ddarpariaeth yn y DU.</p>	<p>Rh2 gwerthuso dwy enghraifft ryngwladol o arfer da sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth gofal, dysgu a datblygiad plant, o ran y canlyniadau posib i blant.</p>
--	---	---

# Uned 35: Datblygiad a Gofal Babanod a Phlant o dan Dair Oed

FfCC Lefel 2: BTEC Cenedlaethol

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

---

## Crynodeb o'r uned

Mae gofal a datblygiad babanod a phlant o dan dair oed yn galw am wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau penodol. Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddechrau datblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon, yn ogystal â rhai o'r sgiliau sy'n ofynnol i weithio gyda phlant mor ifanc â hyn.

Ar y cychwyn, mae angen i'r dysgwyr ddeall ac arsylwi'r dilyniant disgwylidig a gwahanol agweddau ar ddatblygiad babanod yn ystod tair blynedd cyntaf eu hoes. Mae gofyn hefyd iddynt edrych ar theorïau a fframweithiau cyfredol perthnasol. Bydd y dysgwyr yn adeiladu ar eu dealltwriaeth flaenorol o bwysigrwydd arsylwi a'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn arsylwi plant yn cyflawni ystod o weithgareddau.

Wedyn â'r dysgwyr ymlaen i ddeall sut mae darparu gofal corfforol ar gyfer babanod a phlant o dan dair oed, gan gyfeirio'n benodol at fwydo, gweithdrefnau gofal beunyddiol ac adnabod arwyddion salwch. Wedyn byddant yn dysgu sut i ddarparu gweithgareddau chwarae i annog dysgu a datblygiad yn y grŵp oedran hwn, a sut mae cyfathrebu gyda babanod a phlant o dan dair oed, dehongli eu hanghenion ac ymateb iddynt.

Bwrriedir i'r uned ddarparu'r wybodaeth sylfaenol y mae ei hangen ar gyfer pob un o bedair elfen *Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant 208: Cefnogi Datblygiad Babanod a Phlant o dan 3 Oed*. Mae'r uned hefyd yn cyfrannu at *Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant 203: Cefnogi Datblygiad Plant yng nghyswllt y grŵp oedran hwn*.

## Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Ddeall ac arsylwi dilyniant disgwylidig a datblygiad babanod a phlant yn ystod tair blynedd cyntaf eu hoes
- 2 Gwybod sut mae helpu i ddarparu gofynion gofal corfforol babanod a phlant o dan dair oed
- 3 Deall sut mae darparu gweithgareddau chwarae i annog dysgu a datblygiad
- 4 Deall sut mae cyfathrebu gyda babanod a phlant o dan dair oed, dehongli eu hanghenion ac ymateb iddynt.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall ac arsylwi dilyniant disgwylidig a datblygiad babanod a phlant yn ystod tair blynedd cyntaf eu hoes

*Datblygiad:* dilyniant; patrwm datblygiad disgwylidig; ystod dderbyniol; prif feysydd; agweddau gwahanol ar ddatblygiad; theorïau cyfredol, ee natur/magwraeth; fframweithiau cyfredol o arfer effeithiol, ee mae'r cyfnod o Eni i Dair oed yn Bwysig; adrodd am bryderon; dilyn polisiau a gweithdrefnau; deddfwriaeth ynghylch y defnydd o wybodaeth bersonol, ee Deddf Diogelu Data

*Arsylwadau:* arsylwi babanod a phlant; gwahaniaethau rhwng arsylwi ffurfiol ac anffurfiol; yr angen am arsylwi ffurfiol; yr angen am sicrhau caniatâd rhieni cyn arsylwi; pwysigrwydd arsylwi cywir a chlr, gan ddefnyddio iaith a fformatau derbyniol; cofnodi a rhannu gwybodaeth yn briodol am gynnydd datblygiadol babanod a phlant ifanc, yn unol â gweithdrefnau'r lleoliad; nodi meysydd datblygiad a fyddai'n elwa o gefnogaeth

### 2 Gwybod sut mae helpu i ddarparu gofynion gofal corfforol babanod a phlant o dan tri

*Bwydo:* paratoi bwyd fformwla yn ôl cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr; sterileiddio'r cyfarpar yn gywir; bwydo o botel yn unol ag arfer cyfredol, dymuniadau'r rhieni a gofynion y baban; storio llaeth a odrwyd o'r fron; diddyfnu babanod yn unol â'r canllawiau arfer gorau; gofynion maeth babanod a phlant o dan dair oed

*Gofal beunyddiol:* golchi, gwisgo a newid babanod a phlant o dan dair oed mewn modd sensitif; defnyddio deunydd ymolchi priodol; dewisiadau'r teulu a gofynion diwylliannol gwahanol; gweithdrefnau hylendid ac amddiffyn a pham mae'n rhaid cadw atynt; gwaredu gwastraff yn ddiogel; gofalu am y croen, y dannedd, y gwallt; helpu gyda hyfforddiant defnyddio'r toiled

*Arwyddion corfforol o salwch:* arwyddion a symptomau afiechydon cyffredin; adnabod; ymateb priodol

### 3 Deall sut mae darparu gweithgareddau chwarae i annog dysgu a datblygiad

*Gweithgareddau chwarae:* nodi a dewis gweithgareddau chwarae i gefnogi gwahanol agweddau ar ddysgu a datblygiad ar gyfer unigolion a grwpiau; nodi'r adnoddau angenrheidiol; sicrhau bod y gweithgareddau'n gynhwysol ac yn gosod gwerth ar amrywiaeth; sicrhau bod y gweithgareddau'n heriol ond bod modd i'r plant unigol eu cyflawni; helpu babanod a phlant i ddewis gweithgareddau sy'n diwallu'r anghenion a'r diddordeb a nodwyd; monitro ymatebion unigol i wahanol weithgareddau, rhoi canmolïaeth, cefnogaeth ac anogaeth a pham mae hyn yn bwysig

*Cysylltiadau gyda datblygiad:* ystyr her; cysylltiad rhwng her a chynnydd datblygiadol; gweithgareddau i gefnogi datblygu symudiadau mawr a mân, cydsymud llaw a llygad, datblygu iaith trwy wrando ac ymateb, mynegiant emosiynol a gallu cymdeithasol, sgiliau deallusol a dealltwriaeth, dychymyg a sgiliau creadigol

*Gweithdrefnau ac arfer:* dilyn gweithdrefnau ac arfer o ran diogelwch ac asesu risgiau sicrhau bod y gweithgareddau'n cyfateb i gynlluniau cyffredinol y lleoliad

**4 Deall sut mae cyfathrebu gyda babanod a phlant o dan dair oed, dehongli eu hanghenion ac ymateb iddynt**

*Datblygiad:* dilyniant datblygiad cyfathrebu o enedigaeth i dair oed; sut a pham mae babanod yn cyfathrebu o'u geni; y cyfnod cyn geiriau; dulliau o gefnogi datblygiad cyfathrebu; pwysigrwydd defnyddio fformatau iaith cydnabyddedig, gan gynnwys ffurfiau di-eiriau, ee Makaton; adnabod a gwobrwyo ymdrechion i gyfathrebu er mwyn annog datblygiad iaith

*Ymateb i blant:* ymateb i leferydd cyn geiriau; defnyddio ystod o ddulliau cyfathrebu gwahanol; nodi anghenion yn sgîl cyfathrebu gan fabanod a phlant ifanc; dulliau cyfathrebu eraill pan fo'r ystyr yn aneglur; adnabod ac ymateb i adwaith ar ffurf ymddygiad i fethiant wrth gyfathrebu

*Siarad â rhieni:* sôn yn gadarnhaol am gynnydd plant wrth gyfathrebu

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio'r lefel cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
LL1 disgrifio datblygiad, gan gynnwys cyfathrebu, babanod a phlant ifanc yn ystod tair blynedd cyntaf eu hoes	T1 egluro sut mae arsylwi babanod a phlant ifanc o dan dair oed	Rh1 cyfiawnhau arsylwi babanod a phlant ifanc yn ystod tair blynedd cyntaf eu hoes
LL2 amlinellu'r hyn y mae angen ei ystyried wrth arsylwi babanod a phlant yn ystod tair blynedd cyntaf eu hoes	T2 egluro sut dylid bwydo a gofalu am fabanod a phlant ifanc o dan dair oed yn ddiogel	Rh2 gwerthuso'r ystod o ddulliau a ddefnyddir wrth gyfathrebu gyda babanod a phlant o dan dair oed i sicrhau dealltwriaeth.
LL3 nodi'r hyn y gellir ei ddysgu trwy arsylwi babanod a phlant yn ystod tair blynedd cyntaf eu hoes	T3 egluro'r hyn sy'n cael ei olygu gan her mewn gweithgareddau chwarae	
LL4 disgrifio trefniadau bwydo a gofal beunyddiol babanod a phlant ifanc o dan dair oed	T4 egluro sut mae dehongli anghenion ac ymateb i fabanod a phlant ifanc.	
LL5 nodi pum gweithgaredd chwarae gwahanol sy'n helpu i gefnogi gwahanol agweddau ar ddysgu a datblygiad		

<b>Meini prawf graddio</b>		
<b>I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:</b>
LL6 disgrifio'r gwahanol ddulliau a ddefnyddir i gyfathrebu gyda babanod a phlant o dan dair oed.		



# Uned 36: Dysgu Annibynnol ym maes Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant

FfCC Lefel 3 : BTEC Cenedlaethol

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

## Crynodeb o'r uned

Anogir dysgwyr yn gynyddol i dderbyn cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain, gyda'r cyfrifoldeb hwnnw'n cwmpasu'r dewis o gyfleoedd dysgu a'r dulliau dysgu. Nod yr uned hon yw canolbwyntio ar ddewisiadau dysgu, dulliau dysgu ac adnoddau, gyda'r bwriad o annog y dysgwyr i weithio'n annibynnol, a hefyd i fedru cyfrannu'n effeithiol mewn amgylchedd dysgu.

Mewn sefyllfa ddosbarth bydd y rhan fwyaf o'r dysgu'n digwydd trwy gyfrwng llythrennedd, felly mae'r uned hon yn ystyried pwysigrwydd adnoddau ysgrifenedig yn y broses ddysgu. Bydd dysgwyr yn ystyried sgiliau darllen ac ysgrifennu yng nghyd-destun eu hastudiaethau gofal, dysgu a datblygiad plant, ac yna'n dysgu sut i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol er mwyn casglu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w hastudiaethau. Bydd hyn yn cynnwys dysgu sut i fanipwleiddio testun a sut i ddeall y fformatau a ddefnyddir i gyflwyno testun.

Bydd dysgwyr yn dod i ddeall sut mae cynllunio astudio ac felly wneud defnydd effeithiol o'u hamser a'u hadnoddau. Byddant yn dysgu am gysyniad cydbwysedd gwaith/bywyd a phwysigrwydd cynllunio amser er mwyn caniatáu peth amser rhydd. Byddant hefyd yn dysgu sut i reoli aseiniadau a therfynau amser, a pharatoi ar gyfer arholiadau.

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr fedru rheoli eu dysgu cyfredol yn annibynnol ac yn effeithiol, a medru cynllunio ar gyfer dysgu yn y dyfodol. Mae cysylltiadau cryf rhwng yr uned hon ac *Uned 8: Methodoleg Ymchwil ym maes Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant*.

Ni chaniateir cyfuno'r uned hon mewn rhaglen gydag *Uned 37: Llythrennedd Academaidd yn Sector Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant*.

## Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Wybod sut i ddefnyddio adnoddau i gefnogi astudiaeth
- 2 Medru cyflwyno gwaith mewn arddull a fformat priodol
- 3 Medru rheoli eu hastudiaethau eu hunain
- 4 Medru cynllunio a datblygu eu hamcanion dysgu eu hunain.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Gwybod sut i ddefnyddio adnoddau i gefnogi astudiaeth

*Adnoddau:* ee staff addysgu a chefnogi, cydweithwyr, cyfoedion, llyfrgell, siopau llyfrau, cyrff proffesiynol, cynghorau sgiliau sector, adrannau'r llywodraeth, gweithleoedd, cyfryngau

*Cyfryngau:* ee gwर्सlyfrau, newyddiaduron, pamffledi, gwefannau, papurau newydd, cylchgronau

*Darllen:* sgimio, sganio, darllen manwl, darllen gweithredol, darllen am ystyr

*Asesu testun:* defnyddio llyfryddiaethau, defnyddio mynegeion, gwirio cyfeiriadaeth, darllen tudalennau ar y we; arddulliau ysgrifennu (disgrifiadol, rhagnodol, esboniadol), dulliau ymchwil (ansoddol, meintiol, trionglu)

*Dilysrwydd:* asesu diben, cynulleidfa arfaethedig, gwirio cyfeiriadaeth, dilysrwydd, llên-ladrad

### 2 Medru cyflwyno gwaith mewn ardal a fformat priodol

*Arddulliau a fformatiau ysgrifennu:* ysgrifennu adroddiadau gwyddonol, ysgrifennu moesegol, ysgrifennu myfyriol, ysgrifennu disgyrsiol, ysgrifennu darbwyllol, ysgrifennu newyddiaduro; llên-ladrad

*Iaith a strwythur:* gramadeg, cystrawen, atalnodi, ffurfiol, anffurfiol; pam mae strwythur yn bwysig

*Cyflwyniad:* traethawd, adroddiad; cyfeiriadaeth, dyfyniadau

### 3 Medru rheoli eu hastudiaethau eu hunain

*Amser:* cydbwysedd gwaith/bywyd, cynllunio amser astudio, amser rhydd

*Yr Amgylchedd:* astudio'n annibynnol, gweithio gyda chyfoedion; amgylchedd astudio, adnoddau astudio

*Cymryd nodiadau:* ee mapiau meddwl, dull Cornell, cofnodi, ffeilio

*Arholiadau ac aseiniadau:* astudio ar gyfer arholiadau a'u rheoli, technegau arholiad, adolygu; paratoi aseiniadau, cadw o fewn terfynau amser, ymgynghori ag eraill

### 4 Medru cynllunio a datblygu eu hamcanion dysgu eu hunain

*Arddulliau dysgu:* tyoleg Honey a Mumford - adlewyrchydd, theorydd, actifydd, pragmatydd; dewisiadau personol; cyfyngiadau uniaethu gydag un arddull o ddysgu, agwedd gyfannol at arddulliau dysgu

*Datblygiad:* sut mae dysgu blaenorol wedi cyflawni'r amcanion; cynlluniau ar gyfer y dyfodol, gyrfa, teulu, teithio; nodi cryfderau a gwendidau; medru nodi dysgu priodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain

*Cynllun datblygiad personol:* nodau ac amcanion; myfyrio; tymor byr, tymor hir; amser astudio, amser sbâr; gwaith aseiniadau, paratoi ar gyfer arholiadau; ystyried dewisiadau dysgu

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio'r lefel cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:
LL1 disgrifio adnoddau gwybodaeth ym maes gofal, dysgu a datblygiad plant	T1 defnyddio enghreifftiau i egluro pam cyflwynir adnoddau'n wahanol yn sgîl y cyfrwng	
LL2 defnyddio un darn cymhleth o waith yn enghraifft i ddisgrifio'r defnydd o adnoddau yn eu hastudiaethau eu hunain	T2 egluro gwerth tair adnodd wahanol wrth baratoi'r darn cymhleth o waith	Rh1 gwerthuso'r tair adnodd ac asesu dilysrwydd y testunau
LL3 cyfiawnhau fformat a chyflwyniad y darn cymhleth o waith	T3 dadansoddi fformat a chyflwyniad y darn cymhleth o waith	Rh2 gwerthuso fformat a chyflwyniad y darn cymhleth o waith
LL4 defnyddio enghreifftiau i ddisgrifio'r gwahanol arddulliau ysgrifennu a ddefnyddir ym maes gofal, dysgu a datblygiad plant	T4 defnyddio enghreifftiau i ddadansoddi'r gwahanol arddulliau ysgrifennu a ddefnyddir ym maes gofal, dysgu a datblygiad plant	
LL5 disgrifio sut maent yn rheoi eu hastudiaethau cyfredol eu hunain		
LL6 disgrifio'r dewisiadau o ran arddulliau dysgu a'r amcanion ar gyfer astudio yn y	T5 llunio cynllun datblygiad personol ar gyfer dysgu ac amser astudio yn y	Rh3 asesu gwerth y cynllun datblygiad personol o ran eu dysgu eu hunain a sut

<b>Meini prawf graddio</b>		
<b>I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, yn medru:</b>	<b>I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, yn medru:</b>
dyfodol.	dyfodol.	maent yn rheoli eu hastudiaethau cyfredol eu hunain.

## Uned 37: Llythrennedd Academaidd yn y Sector Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant

FfCC Lefel 4: BTEC Cenedlaethol

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

---

### Crynodeb o'r uned

Nod yr uned hon yw ehangu sgiliau astudio dysgwyr i'w paratoi ar gyfer disgwyliadau addysg uwch. Er bod elfennau generig i'r sgiliau y mae eu hangen i lwyddo'n academaidd, y mae hefyd elfennau sy'n unigryw i feysydd pwnc gwahanol. Gellir dadlau felly y dylid rhoi dealltwriaeth o sut i ddarllen, ysgrifennu, deall a chynllunio dysgu personol yng nghyd-destun rhaglen o ddysgu er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol i ddysgwyr.

Mae sector gofal, dysgu a datblygiad plant ar y blaen o ran gallu'r cyhoedd i graffu arni, ac mae hynny'n esgor ar ddadleuon oddi mewn ac oddi allan i'r sector ar faterion allweddol. Mae'r uned hon yn edrych ar ddarllen o bersbectif cyflwyno dadleuon allweddol yn y sector. Ystyrir gwahanol ddulliau o ryngweithio gyda thestun ysgrifenedig.

Mae'r uned wedyn yn edrych ar lythrennedd fel un o ofynion addysg uwch, gan gynnwys datblygu a chyflwyno gwaith ysgrifenedig mewn amrywiaeth o arddulliau. Mae sector gofal, dysgu a datblygiad plant yn gofyn bod dysgwyr yn gyfarwydd ag ystod eang o fformatau ysgrifenedig, er enghraifft, y rhai a ddefnyddir ar gyfer dadleuon moesegol a chymdeithasol, ysgrifennu gwyddonol ac ysgrifennu adfyfyriol, neu ysgrifennu amser-gyfyngedig mewn arholiadau. Bydd dysgwyr yn dadansoddi nodweddion yr arddulliau hyn.

Mae'r theori waelodol ynghylch sut mae pobl yn dysgu yn ffocws trafodaeth, ac nid oes llawer o gytundeb ar y nodweddion allweddol. Fodd bynnag, trwy gyfranogi yn y drafodaeth hon, bydd dysgwyr yn cael cyfle i asesu eu barn eu hunain ar ddysgu. Bydd dysgwyr felly yn ymchwilio i ddwy theori sy'n gysylltiedig â dysgu ac yn dadansoddi eu dysgu eu hunain gan gyfeirio at y theorïau hyn.

Yn olaf, mae'r uned yn ystyried cynllunio astudiaeth, gan gyfeirio at adnoddau lleol a rheoli amser, ac mae'n cyfnerthu'r uned yng nghyd-destun cynllun datblygiad personol.

Ni chaniateir cyfuno'r uned hon mewn rhaglen gydag *Uned 36: Dysgu Annibynnol ym Maes Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant*.

## Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Ddeall sut defnyddir llythrennedd a iaith i gyflwyno dadleuon ym maes gofal, dysgu a datblygiad plant
- 2 Medru ysgrifennu gan ddefnyddio gwahanol arddulliau llythrennedd
- 3 Deall theorïau dysgu
- 4 Medru rheoli eu hastudiaethau eu hunain er mwyn paratoi ar gyfer addysg uwch.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall sut defnyddir llythrennedd a iaith i gyflwyno dadleuon ym maes gofal, dysgu a datblygiad plant

*Dadleuon:* ee proffesiynoli'r gweithlu plant, rolau cwnsela a seiciatreg yn eu tro, esboniadau cymdeithasegol am anghydraddoldebau iechyd, chwarae hunan-gyfeiriadol, a dysgu cyfeiriedig, ymyrraeth a phenderfyniadau a wneir gan yr hunan, dadleuon rhwng persbectifau gwleidyddol

*Arddulliau Ysgrifennu:* gwyddonol, moesegol, adfyfyriol, disgyrsiol, darbwyllol, disgrifiadol, rhagnodol, eglurhaol, newyddiadurol; llên-ladrad

*Fformatau:* traethawd; adroddiad gwyddonol; ymchwil; nodiadau

*Dylanwadau:* pwysau'r cyfryngau, polisi cymdeithasol/deddfwriaeth, carfannau pwysau, addysg

*Cyfryngau:* newyddiaduron, llyfrau, gwefannau, papurau newydd, teledu

*Darllen:* paru techneg â'r arddull ysgrifennu, sganio, sgimio, cymryd nodiadau, defnyddio llyfryddiaethau

*Dilysrwydd:* asesu diben, cynulleidfa arfaethedig, gwirio cyfeiriadaeth, dilysrwydd, llên-ladrad

### 2 Medru ysgrifennu gan ddefnyddio gwahanol arddulliau llythrennedd

*Arddulliau Ysgrifennu:* priodol ar gyfer y testun, ee gwyddonol, moesegol, adfyfyriol, disgyrsiol, darbwyllol, disgrifiadol, rhagnodol, esboniadol, newyddiadurol, addysgiadol; llên-ladrad

*Bwriad:* diben, cynulleidfa arfaethedig, eglurder

*Fformatau:* traethawd; adroddiad; ymchwil – ansoddol, meintiol, trionglu

*Iaith:* gramadeg, atalnodi, geirfa, fformat

*Cyfeiriadaeth a dyfyniadau:* ee Harvard, Cymdeithas Ieithoedd Modern, Rhifol, nodiadau sy'n cyd-redeg

*Arholiadau:* Cynllunio a pharatoi, techneg

### 3 Deall theorïau dysgu

*Theorïau dysgu:* ee cylch dysgu pedwar cam Kolb, neu arddulliau dysgu Honey a Mumford; theori deallusrwydd lluosog Gardner; theori dysgu dyneiddiol Carl Rogers; Theori Lave a Wenger o gyfranogiad ymylol cyfreithlon mewn cymunedau arfer; a yw disgrifio'u dysgu eu hunain yn cyfyngu arnynt neu yn eu rhyddhau



**4 Medru rheoli eu hastudiaethau eu hunain er mwyn paratoi ar gyfer addysg uwch**

*Adnoddau:* ee llyfrgell, newyddiaduron, llyfrau, teledu, fideo, cynadleddau, lleoliadau gwaith, y rhyngwyd, pobl eraill

*Eu hanghenion eu hunain:* ee rheoli amser, cydbwysedd gwaith/bywyd, rheoli straen, sgiliau (ee rheoli data - testun, meintiol, digidol, arall)

*Cynllunio:* nodau ac amcanion; myfyrio; tymor byr, tymor hir; amser astudio, amser sbâr; casglu tystiolaeth, gwaith aseiniad, paratoi ar gyfer arholiadau; ystyried dewisiadau dysgu; cyflawniadau blaenorol; bylchau dealltwriaeth/gwybodaeth/sgiliau, uchelgeisiau gyrfa/cyflogaeth, uchelgais bersonol, amcanion CAMPUS; adnoddau, amgylchedd

## Adolygu'r grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio'r lefel cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

Canlyniadau	Meini Prawf Asesu
	<b>I gyflawni pob canlyniad rhaid i ddysgwyr ddangos y gallu i:</b>
1 Deall sut defnyddir llythrennedd a iaith i gyflwyno dadleuon ym maes gofal, dysgu a datblygiad plant	LL1 Disgrifio'r defnydd o arddull a fformat i gyflwyno dadl allweddol ym maes gofal, dysgu a datblygiad plant LL2 Dadansoddi'r dylanwadau sy'n effeithio ar gynnwys llenyddiaeth sy'n cyfrannu at ddadl allweddol LL3 Archwilio dilysrwydd testunau sy'n cyfrannu at ddadl allweddol
2 Medru ysgrifennu gan ddefnyddio gwahanol arddulliau llythrennedd	LL4 Dadansoddi arddulliau ysgrifennu, gan fanylu ar y manteision a'r anfanteision LL5 Defnyddio gramadeg, atalnodi, geirfa a fformat priodol ar gyfer gofal, dysgu a datblygiad plant LL6 Gwerthuso cyfeiriadaeth fel modd i gynyddu dilysrwydd
3 Deall theorïau dysgu	LL7 Cymharu dwy theori ynghylch dysgu LL8 Edrych yn feirniadol ar eu dysgu eu hunain, gan gyfeirio at ddwy theori ynghylch dysgu
4 Medru rheoli eu hastudiaethau eu hunain er mwyn paratoi ar gyfer addysg uwch	LL9 Dadansoddi adnoddau lleol a'u priodoldeb o ran gofal, dysgu a datblygiad plant LL10 Archwilio strategaethau ar gyfer rheoli straen LL11 Cynhyrchu cynllun datblygu personol ar gyfer eu dysgu eu hunain

Mae'r meini prawf teilyngdod a rhagoriaeth yn *Atodiad I*.

## **Uned 38: Myfyrio ar Arfer yn y Sector Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Dyfarniad Cenedlaethol yn unig)**

**FfCC Lefel 3 : BTEC Cenedlaethol**

**Oriau dysgu dan arweiniad: 60 (plws 60 awr o brofiad gwaith)**

---

### **Crynodeb o'r uned**

Nod yr uned hon yw adlewyrchu natur ymarferol y rhaglen, gan roi cyfle i ddysgwyr sy'n dilyn y Rhaglen Ddyfarniadau Genedlaethol gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn y gweithle.

Mae'r uned hon ar gael i ddysgwyr ar y rhaglen Ddyfarniadau Genedlaethol yn unig, ac mae gofyn i ddysgwyr gwblhau 60 awr o brofiad gwaith ar leoliad. Bwriedir i hyn ddarparu profiad ymarferol o leoliadau plant, yn ogystal â hwyluso cyfleoedd i gyflawni agweddau ar unedau eraill, megis yr arsylwadau y mae eu hangen yn *Uned 3: Hyrwyddo Datblygiad Plant*.

Awgrymir y dylai dysgwyr gael profiad o ddau leoliad gwahanol, o leiaf, neu o ddau grŵp oedran o leiaf, yn yr un lleoliad.

Bwriedir i'r uned gyfrannu at yr wybodaeth sylfaenol sy'n ofynnol ar gyfer pedair elfen *Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant 304: Myfyrio ar a datblygu arfer* y Safonau Cenedlaethol Galwedigaethol ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant.

### **Canlyniadau dysgu**

**Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:**

- 1 Ddeall rolau a chyfrifoldebau yn y Sector Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant
- 2 Medru arsylwi a nodi anghenion a sgiliau unigol plant
- 3 Medru myfyrio ar eu harferion eu hunain yn eu profiadau lleoliad gwaith.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Deall rolau a chyfrifoldebau yn y Sector Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant

*Ymddygiad proffesiynol:* presenoldeb, prydlondeb, ymrwymiad, cyflwyniad personol, hylendid personol, safonau ymddygiad disgwylidig, cynnal eu diogelwch eu hunain, rôl a chyfrifoldebau, gallu i addasu ac ymateb; gweithio fel rhan o dîm

*Cyfrinachedd:* yr angen am baramedrau

*Sgiliau rhyngpersonol priodol:* sgiliau geiriol a di-eiriau, ystod o gysylltiadau, ee plant, teuluoedd, cyfoedion, cydweithwyr, gweithwyr proffesiynol eraill, parch at wybodaeth a chyfraniad eraill

*Sylfaen o wybodaeth:* ynghylch plant, teuluoedd, adnoddau, gweithdrefnau cyfeirio, defnyddio menter

*Codau ymarfer:* ee datganiadau cenhadaeth, contractau ymddygiad, polisiau cyfleoedd cyfartal, polisiau iechyd a diogelwch

*Glynu at godau ymarfer:* rolau'r dysgwyr a'r staff

### 2 Medru arsylwi a nodi anghenion a sgiliau unigol plant

*Arsylwi a nodi oedrannau/cyfnodau datblygiad plant:* 0-1 oed, 1-3 oed, 3-5 oed, 5-8 oed, cerrig milltir yn eu datblygiad, anghenion a sgiliau emosiynol, corfforol, cymdeithasol, cyfathrebu/ieithyddol, plant ag anghenion penodol

*Lleoliadau gofal plant:* cyn-ysgol a meithrinfeydd, dosbarthiadau meithrin ac ysgolion, cartref y plentyn, gwarchodwyr plant, unedau ar gyfer plant ag anghenion arbennig, unedau pediatrig mewn ysbytai

*Dulliau arsylwi:* gweler *Uned 3: Hyrwyddo Datblygiad Plant*

*Dehongli arsylwadau:* gweler *Uned 3: Hyrwyddo Datblygiad Plant*

### 3 Medru myfyrio ar eu harferion eu hunain yn eu profiadau lleoliad gwaith

*Hunan-arfarnu:* myfyrio, hunan-ymwybyddiaeth; myfyrio ar eu perfformiad eu hunain, myfyrio ar eu barn a'u hagweddau eu hunain, myfyrio ar eu rhyngweithio gydag eraill; cydnabod eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau eu hunain a'u cyfraniad at waith y tîm; cyflawniadau; effeithiolrwydd personol; cryfderau a gwendidau

*Monitro:* prosesau, canlyniadau; trwy adolygu gwybodaeth mewn dyddiaduron, adroddiadau lleoliadau a chanlyniadau lleoliadau; trafodaethau gyda thiwtoriaid, goruchwylwyr, eraill; defnyddio adborth i fwydo i fyfyrion, gwerthuso a pherfformiad

*Cynllunio:* nodi bylchau o ran gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau; cynllunio ar gyfer datblygiad a gwelliant; rôl datblygiad proffesiynol parhaus

## Grid graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo'n disgrifio'r lefel o gyrhaeddiad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:	I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwyr yn medru:
LL1 disgrifio'u hymlyniad eu hunain wrth y codau ymarfer ar gyfer un lleoliad LL2 arsylwi a nodi anghenion a sgiliau corfforol, cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol a chyfathrebu plant LL3 arsylwi a nodi anghenion unigol plant ag anghenion ychwanegol LL4 adolygu eu perfformiad eu hunain ar leoliad gwaith a nodi meysydd ar gyfer datblygiad pellach LL5 disgrifio rôl datblygiad proffesiynol parhaus o ran gweithwyr yn y sector Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant.	T1 dehongli'r arsylwadau a wnaed yng nghyswllt sgiliau ac anghenion plant T2 cynhyrchu cynllun datblygiad personol ac egluro sut gallai gefnogi eu datblygiad eu hunain.	Rh1 defnyddio'r arsylwadau a'r dehongliadau i argymhell camau pellach o ran sgiliau ac anghenion y plentyn dan sylw Rh2 gwerthuso'u heffeithiolrwydd eu hunain ar leoliad gwaith.

